## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr




# Datganiad Cyfrifon

# 2015-16



**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Y Swyddfeydd**
**Stryd yr Angel**
**PEN-Y-BONT AR OGWR**
**CF31 4WB**
**(01656) 643643**

# Cynnwys


| | Rhif y tudalen |
|---|---|
| **Adroddiad Naratif** | 2 |
| **Datganiad o'r Cyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon** | 19 |
| **Datganiad Llywodraethiant Blynyddol** | 20 |
| **Datganiad Polisïau Cyfrifydda** | 40 |
| **Datganiad Ariannol Craidd** | |
| Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn | 57 |
| Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | 58 |
| Mantolen | 59 |
| Datganiad Llif Arian | 60 |
| **Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol Craidd** | 66 |
| **Adroddiad Ar Archwilydd** | 126 |
| **Geirfa** | 128 |

# Adroddiad Naratif

## 1. Y Datganiad Cyfrifon

Mae Cyfrifon 2015-16 wedi'u llunio yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) 2015-16. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae'r prif newidiadau yn cynnwys mabwysiadu'r safon a ganlyn:-

**IFRS 13 – Mesur Gwerth Teg** – Mae hyn yn gofyn am newidiadau ym mesuriad asedau a ddosberthir fel asedau gormodol, y mae'n ofynnol eu prisio bellach yn ôl gwerth teg. Mae hefyd yn ofynnol i offerynnau ariannol gael eu datgelu yn ôl gwerth teg.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol a ganlyn:

**a) Datganiad o'r Cyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon**
Mae hwn yn nodi priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'i swyddogion dros baratoi a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

**b) Datganiad Llywodraethiant Blynyddol**
Mae'r datganiad hwn yn cynnig adolygiad parhaus o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant y Cyngor gan gynnwys y system rheolaeth fewnol a'r systemau rheoli risg, er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch eu heffeithiolrwydd a/neu i fynd i'r afael â gwendidau a nodir.

**c) Datganiad Polisïau Cyfrifydda**
Diben y Datganiad hwn yw esbonio sail y ffigurau yn y Cyfrifon. Mae'n amlinellu'r polisïau cyfrifydda sydd wedi'u mabwysiadu

**d) Y datganiadau ariannol 'craidd'**

1. <u>Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS)</u>

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor. Dadansoddir y rhain yn 'gronfeydd defnyddiadwy', sef y rhai a all gael eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau trethiant a chronfeydd 'annefnyddiadwy' eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, y ceir y manylion amdanynt yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor pan fydd y Cyngor yn gosod y gyllideb refeniw flynyddol. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd yn dangos y Balans Cronfa Cyngor statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol gan y Cyngor i gronfeydd a glustnodwyd neu o gronfeydd a glustnodwyd. Mae hyn yn dangos cynnydd o £0.154 miliwn yng nghyfanswm balans cronfa'r Cyngor.

2. <u>Y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant (CIES)</u>

Mae'r datganiad hwn yn dangos cost gyfrifydda darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifydda a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu yn nhermau arian parod pan osodir y gyllideb. Gan hynny, mae angen rhywfaint o ofal wrth ddehongli'r datganiad

gan fod cost y gwasanaethau a ddangosir yn cynnwys eitemau fel dibrisiant ar eiddo, peiriannau ac offer sy'n perthyn i'r Cyngor ac amcangyfrif o gost y diffyg yn y cynllun pensiwn, nad ydyn nhw'n cael eu hariannu gan dalwyr y Dreth Gyngor yn nhermau arian parod.

Yn 2015-16, dangosodd y Cyngor ddiffyg yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant o £2.956 miliwn. Mae hyn yn cyferbynnu â thanwariant yn alldro'r gyllideb o £154,000.

3. <u>Mantolen</u>

Mae'r datganiad yn crynhoi asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor a'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a oedd ar gael i'r Cyngor, ac a ddefnyddiwyd yng ngwaith y Cyngor. Mae hyn yn dangos bod gan y Cyngor werth net o £142.053 miliwn, sef cynnydd yn ei werth net o £47.353 miliwn ers 2014-15 (pan oedd yn £94.7 miliwn). Mae'r cynnydd hwn yn deillio'n rhannol o adolygiad Actiwarïaid o Rwymedigaethau Net Cronfa Bensiwn y Cyngor ar 31 Mawrth 2016, yr aseswyd ei fod wedi gostwng £27.740 miliwn ers 31 Mawrth 2015.

4. <u>Datganiad Llif Arian</u>

Mae hwn yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac mewn gwerthoedd cyfwerth ag arian parod yn y Cyngor yn y flwyddyn ariannol. Mae'n dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a gwerthoedd sy'n gyfwerth ag arian parod drwy ddosbarthu llifoedd arian yn ôl gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n codi o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol ynghylch i ba raddau y mae gweithrediadau'r Cyngor yn cael eu hariannu drwy drethi ac incwm grant neu gan y rhai sy'n derbyn gwasanaethau. Mae gweithgareddau buddsoddi yn dangos i ba raddau y mae all-lifoedd arian parod wedi dod o adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae llifoedd arian parod sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol o ran darogan sut y bydd y rhai sy'n darparu benthyciadau i'r Cyngor yn hawlio llifoedd arian parod yn y dyfodol. Cafwyd cynnydd o £0.609 miliwn yn sefyllfa'r Cyngor o ran arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod.

**e) Y Nodiadau ar y Cyfrifon**

Datgeliadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol yw'r rhain ac maen nhw'n cynnwys datgeliadau ar bensiynau ac offerynnau ariannol.

## 2. Ariannu Gwasanaethau'r Cyngor


Mae gan y Cyngor ddau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

Mae **gwariant refeniw** yn golygu gwariant ar gostau beunyddiol gwasanaethau fel cyflogau staff, cynnal adeiladau a chomisiynu cyflenwadau cyffredinol ac offer. Telir am y gwariant hwn o'r incwm a geir o dalwyr y dreth gyngor, talwyr trethi busnes, y ffioedd a'r taliadau sy'n cael eu codi am wasanaethau penodol a grantiau'r llywodraeth.


Mae **gwariant cyfalaf** yn golygu gwariant ar asedau fel ffyrdd, ysgolion newydd, ailddatblygu ac adnewyddu mawr ar adeiladau. Bydd yr asedau hyn yn rhoi manteision i'r gymuned am sawl blwyddyn ac mae'r gwariant yn cael ei ariannu'n bennaf drwy fenthyciadau a grantiau cyfalaf.

a) **Gwariant refeniw ar wasanaethau'r Cyngor**

**O ble y daeth yr arian …..**




**Ble y cafodd yr arian ei wario ……..**




Yn 2015-16, £208.285 miliwn oedd y gwariant net ar wasanaethau refeniw. Mae hynny'n cymharu â'r £213.162 miliwn a ragwelwyd pan gafodd y gyllideb ei diwygio, gan arwain at danwariant o £4.877 miliwn ar Gyllidebau'r Cyfarwyddiaethau. Mae'n bwysig nodi nad oes modd cymharu o'r naill flwyddyn i'r llall, am fod gwasanaethau wedi'u symud rhwng Cyfarwyddiaethau. Sefyllfa gyffredinol y Cyngor oedd tanwariant bach o £154,000 ar ôl caniatáu ar gyfer dyraniadau yn ôl ac ymlaen i'r Cronfeydd a Glustnodwyd, incwm ychwanegol o'r Dreth Gyngor a thanwariant ar gyllidebau'r Cyngor cyfan.

Mae'r tabl isod yn dangos sut roedd y gwariant gwirioneddol ar wasanaethau yn 2015-16 yn cymharu a'r gyllideb a bennwyd ar gyfer y flwyddyn. Rhoddir esboniadau am wahaniaethau arwyddocaol rhwng y gwariant a'r gyllideb.

Cymharu'r gwariant gwirioneddol â'r gyllideb 2015-16

| | Cyllideb Wreiddiol 15-16 £'000 | Trosglwyddiadau'r Gyllideb yn y Flwyddyn | Cyllideb Ddiwygiedig 15-16 £'000 | Gwirioneddol 15-16 £'000 | Amrywiad 15-16 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddiaethau** | | | | | |
| Addysg a Gweddnewid | 105,775 | 220 | 105,995 | 105,667 | (328) |
| Cymunedau | 24,913 | 315 | 25,228 | 25,014 | (214) |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 62,056 | (771) | 61,285 | 61,099 | (186) |
| Adnoddau | 14,672 | (100) | 14,572 | 14,058 | (514) |
| Cyfreithiol a Rheoleiddiol | 6,053 | 29 | 6,082 | 5,685 | (397) |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Cyfarwyddiaethau** | **213,469** | **(307)** | **213,162** | **211,523** | **(1,639)** |
| Praeseptau a Thollau | 6,928 | (16) | 6,912 | 6,902 | (10) |
| Digwyddiadau Cyffredinol | 5,732 | (863) | 4,869 | 3,728 | (1,141) |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 14,254 | (385) | 13,869 | 13,348 | (521) |
| Premiymau Yswiriant | 1,637 | (3) | 1,634 | 1,602 | (32) |
| Cyllido Cyfalaf | 10,315 | 57 | 10,372 | 10,660 | 288 |
| Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth | (1,400) | - | (1,400) | (1,400) | - |
| Rhyddhad Ardrethi Dewisol NNDR | 111 | 27 | 138 | 134 | (4) |
| **Gwariant Net** | **251,046** | **(1,490)** | **249,556** | **246,497** | **(3,059)** |
| Dyraniad (o'r) Cronfeydd Wrth Gefn | - | | - | (3,786) | (3,786) |
| Dyraniad i'r Cronfeydd PFI | 299 | | 299 | 299 | - |
| Dyraniad i'r Cronfeydd Wrth Gefn | 857 | 1,490 | 2,347 | 10,790 | 8,443 |
| **Y Gyllideb Net** | **252,202** | **-** | **252,202** | **253,800** | **1,598** |
| Grant Cynnal Refeniw | (148,002) | - | (148,002) | (148,002) | - |
| Trethi Annomestig | (40,408) | - | (40,408) | (40,408) | - |
| Y Dreth Gyngor | (63,792) | - | (63,792) | (65,544) | (1,752) |
| **(Tanwariant)/Gorwariant Net ar Wasanaethau** | **-** | **-** | **-** | **(154)** | **(154)** |

Mae cyllidebau diwygiedig yn wahanol i'r rhai a bennir ar ddechrau'r flwyddyn gan eu bod yn adlewyrchu unrhyw drosglwyddiadau cyllideb o'r cyllid a'r cronfeydd canolog i dalu am wariant sydd heb ei gynllunio, ynghyd â throsglwyddiadau rhwng Cyfarwyddiaethau yn sgil ail-alinio cyfrifoldebau. Cododd y trosglwyddiad o'r gyllideb i'r cronfeydd wrth gefn yn sgil monitro'r gyllideb gydol y flwyddyn. Adeg yr hanner blwyddyn, nodwyd tanwariant ar gyllidebau corfforaethol o £775,000 a chafodd hyn ei drosglwyddo i'r cronfeydd a glustnodwyd er mwyn ategu Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a chafodd swm arall o £750,000 ei drosglwyddo yn y trydydd chwarter a'i gydbwyso drwy drosglwyddiadau cyllideb bach eraill yn y cronfeydd wrth gefn.

**Rhesymau am y gwahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwariant**

Dangosodd y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2016 danwariant ar wariant y gwasanaethau yn ystod y flwyddyn o £1.639 miliwn a chyllideb gytbwys drwyddi draw. Amlinellir crynodeb o'r amrywiadau mwyaf arwyddocaol isod:-

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Thrawsnewid**

Cyllideb net y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2015-16 oedd £105.995 miliwn a'r alldro gwirioneddol oedd £105.667 miliwn, sef tanwariant o £328,000. Tynnwyd £333,000 i lawr o'r cronfeydd a glustnodwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer pwysau penodol, gan gynnwys £256,000 a dynnwyd i lawr o falansau ysgol a £45,000 ar gyfer gwaith dymchwel a £285,000 o falansau grant hanesyddol yn ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn .

Manylir ar yr amrywiadau mwyaf arwyddocaol isod:

| Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG A THRAWSNEWID | Cyllideb Net £000 | Alldro Gwirioneddol £000 | Amrywiad dros/(o dan) y gyllideb £000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Cynhwysiant | 3,570 | 2,639 | (931) | -26.1% |
| Y Gwasanaeth Ieuenctid | 422 | 326 | (96) | -22.7% |
| Gwella Ysgolion | 785 | 861 | 76 | 9.7% |
| Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Coleg | 4,310 | 4,648 | 338 | 7.8% |
| Costau Diswyddo / Ymddeol | 983 | 1,403 | 420 | 42.7% |

Cynhwysiant

- Cafwyd tanwariant o £107,000 yng nghyllideb Anghenion Arbennig yr AALl am fod y swyddi gwag wedi'u rheoli'n llym tra disgwylir i'r gyllideb gael ei lleihau yn 2016-17.
- Cafwyd tanwariant o £218,000 yng nghyllideb Anghenion Arbennig yr Ysgolion yn bennaf oherwydd rheolaeth ar swydd gwag (£168,000), a llai o wario ar gymorth un-i-un oherwydd anawsterau wrth recriwtio staff.
- Cafwyd tanwariant o £493,000 yn y gyllideb ar gyfer lleoliadau addysgol y tu allan i'r sir yn sgil gostyngiad yn nifer a chost y lleoliadau (28 o leoliadau allanol o'i gymharu â 32 ym mis Mawrth 2015) ac roedd yr incwm a adenillwyd hefyd £113,000 yn fwy na'r gyllideb.

Y Gwasanaeth Ieuenctid

- Gwelwyd tanwariant ar gyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid o ganlyniad i danwario £29,000 ar staffio ac incwm ychwanegol mewn grantiau yn ystod y flwyddyn o £52,000.

Gwella Ysgolion

- Cafwyd gorwariant ar y gyllideb Gwella Ysgolion, sef £76,000, o ganlyniad i gymorth ychwanegol a roddwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol i ysgolion a oedd mewn anawsterau ac yn wynebu heriau, gan gynnwys cymorth ychwanegol ar gyfer athrawon ac adnoddau. Yn benodol roedd angen buddsoddiad ariannol sylweddol i gefnogi disgyblion Blwyddyn 11

yng Ngholeg Cymunedol y Dderwen i sicrhau bod ganddyn nhw'r cyfle gorau posibl i lwyddo yn arholiadau TGAU yr haf hwn.

Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Coleg

- Cafwyd gorwariant o £338,000 ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Coleg gan nad oedd yr arbedion yn sgil aildendro rhagor o gontractau mor fawr â'r disgwyl. Hefyd, nid yw arbedion MTFS 2015-16 wedi'u sicrhau'n llawn, a hynny'n rhannol oherwydd y rhesymoli cyfyngedig ar gontractau a gafwyd am fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys i gael eu cludo wedi codi. Nid yw effeithlonrwydd y llwybrau wedi'i wireddu i'r eithaf gan na fydd y newid y cytunwyd arno gan y Cabinet yn y polisi Teithio i Ddysgwyr yn cael ei roi ar waith bellach tan fis Medi 2016 a chan na fydd yn creu'r un lefel o arbedion ag a nodwyd yn wreiddiol. Mae rhagor o arbedion effeithlonrwydd ar y gweill mewn cludiant AAA a chludiant Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) ond effeithiwyd ar y rhain gan rywfaint o gynnydd yn y galw am gludiant unigol oherwydd anghenion plant unigol a'n dyletswydd ninnau fel awdurdod lleol i ofalu eu bod yn cael eu cludo yn unol â'r cyfrifoldebau statudol a'n polisi cyfredol ar Deithio i Ddysgwyr.

Costau Diswyddo / Ymddeol

- Mae'r gorwariant o £420,000 yn ymwneud â chynnydd yn nifer y swyddi a ddilëwyd mewn ysgolion a'r nifer a ymddeolodd yn gynnar yn 2015-16, yn sgil gostyngiad yn y nifer ar y gofrestr, neu bwysau ar gyllidebau ysgolion, sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Sefydlwyd cronfa a glustnodwyd ar ddiwedd 2014-15 i dalu unrhyw gostau ychwanegol uwchlaw'r gyllideb, ond nid yw hon wedi'i thynnu i lawr oherwydd tanwariant cyffredinol y Gyfarwyddiaeth.

Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion

- Gostyngodd balansau'r ysgolion o £2.410 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2015 i £2.154 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2016 (gostyngiad o £256,000), sef 2.36% o'r cyllid a oedd ar gael. Mae cyfanswm y diffyg yn y gyllideb yn cyfateb i £621,000 ac mae cyfanswm y gwargedion yn y cyllidebau'n cyfateb i £2.775 miliwn.
- Mae gan 6 ysgol (3 ysgol gynradd, 3 ysgol uwchradd) gyllideb mewn diffyg ac mae gan 14 o ysgolion (11 o ysgolion cynradd, 2 ysgol uwchradd, 1 ysgol arbennig) falans o fwy na'r terfynau statudol (£50,000 i ysgolion cynradd, £100,000 i ysgolion uwchradd ac arbennig) yn unol â Rheoliadau Cyllid Ysgolion (Cymru) 2010. dadansoddir y balansau hyn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn unol â'r canllawiau y cytunwyd arnynt 'Canllawiau a gweithdrefnau ar reoli balansau gwarged ysgolion'.

**Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

£61.285 miliwn oedd Cyllideb Net y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2015-16 a £61.099 miliwn oedd yr alldro gwirioneddol, gan arwain at danwariant o £186,000. Mae hyn yn cynnwys tanwariant o £649,000 ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion, gorwariant o £29,000 ar wasanaethau Chwaraeon, Chwarae a Llesiant Gweithredol a gorwariant o £434,000 ar Ddiogelu a Chymorth i Deuluoedd. Cafodd £244,000 ei dynnu i lawr o'r cronfeydd a glustnodwyd drwy'r flwyddyn ar gyfer pwysau penodol, gan gynnwys £117,000 ar gyfer y Tîm Newid Gofal Cymdeithasol i Oedolion, £26,000 at y strategaeth Plant yn Derbyn Gofal (LAC), £34,000 at gostau gweddilliol Gwerthuso Swyddi a £876,000 o falansau grant hanesyddol yn ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn

Manylir ar yr amrywiadau mwyaf arwyddocaol isod:

| Y GYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT | Cyllideb Net £000 | Alldro Gwirioneddol £000 | Amrywiad dros/(o dan) y gyllideb £000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Preswyl Pobl Hŷn | 8,261 | 7,607 | (654) | -7.9% |
| Gofal Cartref Pobl Hŷn | 7,941 | 8,177 | 236 | 3.0% |
| Gofal Preswyl Anableddau Dysgu | 1,487 | 1,595 | 108 | 7.3% |
| Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu | 3,238 | 3,067 | (171) | -5.3% |
| Gwasanaethau Gweinyddol a Chanolog | 606 | 808 | 202 | 33.3% |
| Plant yn Derbyn Gofal | 10,923 | 11,420 | 497 | 4.6% |
| Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd | 978 | 795 | (183) | -18.7% |
| Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol | 4,364 | 4,559 | 195 | 4.5% |

Gofal Preswyl Pobl Hŷn

- Mae tanwariant net o £654,000 yn deillio o gynnydd yn yr incwm o gyfraniadau'r cleientau a'r incwm ar ofal seibiant a gostyngiad mewn lleoliadau nyrsio (£236,000) a chostau rhedeg (£50,000). Mae cynnydd arwyddocaol mewn incwm ers y rhagolygon blaenorol yn deillio o incwm o ffioedd gohiriedig o ran incwm a sicrhawyd yn erbyn eiddo'r cleientau. Ar hyn o bryd mae'r incwm hwn yn cael ei dynnu i lawr ar ddiwedd y flwyddyn ond caiff ei dynnu i lawr a'i fonitro fesul chwarter yn 2016-17.

Gofal Cartref Pobl Hŷn

- Mae'r gorwariant yn deillio o'r cynnydd yn y galw am oriau gofal cartref, sy'n uwch na'r hyn a ragwelwyd gan y gwasanaeth. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod y cynnydd yn y galw yn cael ei reoli drwy gefnogi pobl yn y gymuned yn hytrach na thrwy ofal preswyl. Mae'r Gyfarwyddiaeth wrthi'n ailfodelu'r gwasanaeth gofal cartref er mwyn cadw gofal critigol a chymhleth yn unig yn fewnol a throsglwyddo'r gofal arall i ddarparwyr annibynnol.

Gofal Preswyl Anableddau Dysgu

- Mae gorwariant o £108,000 wedi codi yn sgil parhad yn y cynnydd yn nifer y lleoliadau preswyl. Bydd y lleoliadau hyn yn parhau yn y flwyddyn ariannol newydd. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn monitro'r pwysau hyn yn ystod 2016-17 gan ail-alinio'r cyllidebau lle bo modd.

Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu

- Cafwyd tanwariant o £171,000 yn y gyllideb gwasanaethau dydd oherwydd swyddi gwag i staff yn y gwasanaeth, y cadwyd rhywfaint ohono gan rag-weld gostyngiadau yn y gyllideb yn 2016-17. Ni fydd y tanwariant ar y swyddi hyn yn digwydd eto yn 2016-17.

Gwasanaethau Gweinyddol a Chanolog

- Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cario pwysau ar y gyllideb oherwydd gostyngiadau yn y gyllideb ar gyfer 2015-16 sydd heb eu gwireddu. Er bod y rhain wedi'u lliniaru drwy arbedion ychwanegol a gafwyd mewn mannau eraill yn y gyllideb yn 2015-16, bydd y Gyfarwyddiaeth yn ail-alinio'r cyllidebau yn 2016-17 lle bo modd i sicrhau na fydd y gorwariant yn digwydd eto.

Plant yn Derbyn Gofal (LAC)

- Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2016 oedd 382, o'i gymharu â 390 ar ddiwedd Mawrth 2015. Er hynny mae pwysau ar y gyllideb yn y maes hwn yn parhau. Cafwyd gorwariant o £115,000 ar ofal preswyl y tu allan i'r sir ar sail 12 o leoliadau gweithredol. Hefyd, cafwyd gorwariant o £110,000 ar leoliadau maethu annibynnol. Cafwyd gorwariant hefyd o £185,000 ar y ddarpariaeth breswyl fewnol a'r ddarpariaeth seibiant, yn gysylltiedig ag arbedion effeithlonrwydd yr MTFS. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydweithio'n agos â'r adran Cymorth ac Ymyrryd Cynnar er mwyn datblygu cynllun ar y cyd.

Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd

- Cafwyd tanwariant o £183,000, yn bennaf yn sgil taliadau uniongyrchol heb eu defnyddio'n ddigonol (£106,000), sydd wedi'u hawlio'n ôl, ac yn rhannol yn sgil tanwariant ar gyllidebau cyflogau a gorchmynion preswyl, ill dau yn is o ran eu cyfanswm na'r hyn a roddwyd yn 2014-15. O ran taliadau uniongyrchol, mae'r gwasanaeth wedi aildendro'n ddiweddar i ganfod darparwr cymorth taliadau uniongyrchol, gan fwriadu cynyddu nifer y taliadau uniongyrchol a defnyddio'r gyllideb taliadau uniongyrchol yn llawn. Bydd y darparwr newydd, Avanta, yn dechrau ym mis Gorffennaf 2016.

Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol

- Cafwyd gorwariant o £195,000 drwy ddefnyddio staff asiantaethau ar draws y gwasanaeth.

## Y Gyfarwyddiaeth Cymunedau

£25.228 miliwn oedd Cyllideb Net y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2015-15 a £25.014 miliwn oedd yr alldro gwirioneddol, gan roi tanwariant o £214,000. Cafodd £727,000 ei dynnu i lawr o'r cronfeydd a glustnodwyd ar gyfer pwysau penodol, gan gynnwys £135,000 i sefydlu Ymddiriedolaeth Awen, £120,000 i gaffael gwasanaeth rheoli gwastraff, £124,000 ar gyfer gwaith priffyrdd, £86,000 ar gyfer incwm parcio ceir a gollwyd yn sgil cau Maes Parcio'r Rhiw a £1,262,000 o falansau grant hanesyddol yn ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn

Manylir ar yr amrywiadau mwyaf arwyddocaol isod:

| Y GYFARWYDDIAETH CYMUNEDAU | Cyllideb Net £000 | Alldro Gwirioneddol £000 | Amrywiad dros/(o dan) y gyllideb £000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu | 334 | 265 | (69) | -20.7% |
| Tai ac Adfywio Cymunedau | 1,341 | 949 | (392) | -29.2% |
| Adfywio | 1,780 | 1,700 | (80) | -4.5% |
| Gwaith Stryd | 7,899 | 7,936 | 37 | 0.5% |
| Priffyrdd a'r Fflyd | 6,273 | 6,438 | 165 | 2.6% |
| Trafnidiaeth a Pheirianneg | 881 | 898 | 17 | 1.9% |
| Parciau a Mannau Agored | 2,105 | 2,329 | 224 | 10.6% |
| Diwylliant | 3,449 | 3,365 | (84) | -2.4% |

Datblygu

- Cafwyd tanwariant ar y gyllideb Datblygu o £69,000. Mae hyn yn deillio'n bennaf o gynnydd yn yr incwm (£30,000) ac o reoli swyddi gwag (£22,000) yn yr adran Rheoli Datblygu, a rheoli swyddi gwag (£15,000) yn yr adran Cynllunio Datblygu, ill dau'n helpu i wneud iawn am danberfformiad wrth adennill ffioedd yn yr adran Cymorth Technegol Datblygu (£12,000).

Tai ac Adfywio Cymunedau

- Cafwyd tanwariant o £392,000 yn y Gwasanaeth Tai ac Adfywio Cymunedau. Mae hyn yn cynnwys yn bennaf danwariant o £250,000 ynglŷn â'r gwelliannau parhaus wrth reoli'r galw am lety dros dro. Yn sgil cyflwyno Tŷ Ogwr a Cornerstone (darparwyr cymorth tai sy'n cael ei ariannu drwy'r Grant Cefnogi Pobl) gwelwyd y tanwariant ar y gwasanaeth hwn yn cynyddu yn ystod 2015-16 wrth iddynt roi cartref i bobl a allai fod wedi mynd i lety gwely a brecwast o'r blaen.
- Hefyd, cafwyd tanwariant o £50,000 ar ôl i staff craidd sy'n cael eu hariannu weithio ar brosiectau a oedd yn cael eu hariannu â grant yn ystod 2015-16, £35,000 yn ychwanegol o arbedion ar draws y gwasanaeth a fydd yn cyfrannu at yr MTFS ar gyfer tai yn 2016-17, a thanwariant o £44,000 yn ymwneud â phenawdau eraill yn y gyllideb.

Adfywio

- Cafwyd tanwariant o £80,000 yn y gyllideb Adfywio. Mae hyn yn gyfuniad yn bennaf o reoli swyddi gwag (£50,000) a gohirio band eang yng Ngwarchodfa Natur Cynffig a gynlluniwyd ar gyfer 2015-16 (£11,000).

Gwaith Stryd

- Mae'r pennawd hwn yn y gyllideb yn cynnwys gorwariant ar y gyllideb gwaredu gwastraff (£275,000). Mae hyn yn deillio'n bennaf o gynnydd yng nghostau gwaredu gwastraff am fod mwy o dunelli o wastraff bagiau du wedi'u gadael ar ymyl y ffordd gan drigolion y Fwrdeistref Sirol nag a ddisgwyliwyd, ynghyd â gohirio yn y broses gaffael i benodi contractwr i weithredu a rheoli'r MREC (£416,000). Cydbwyswyd hyn yn rhannol drwy arbedion mewn prosiect caffael interim ar gyfer Treulio Anerobig (£150,000).
- Cafwyd tanwariant ar gostau casglu gwastraff (£119,000), yn bennaf dwy gau safle HWRC Penllwyn-gwent.
- Mae adrannau eraill yn y gyllideb (Gorfodi/Glanhau Arall/Gwasanaethau Profedigaeth) o fewn Gwaith Stryd hefyd wedi cydbwyso'r gorwariant (£141,000) drwy gyfuniad o reoli swyddi gwag ac adennill mwy o incwm.

Priffyrdd a'r Fflyd

- Cafwyd gorwariant ar gynnal a chadw Priffyrdd o £212,000. Mae hyn yn deillio'n bennaf o orwariant ar gostau canolfan Tredŵr (£30,000), cyfraniad refeniw at Gynllun Cyfalaf y Ffordd Osgoi Fewnol (£118,000), a chostau uwch nag arfer o ran taliadau am ddifrod ar y Priffyrdd (£50,000).
- Mae'r gwasanaethau Fflyd wedi gorwario £93,000 oherwydd dirywiad yn yr incwm o'i gymharu â'r gyllideb. Cydbwyswyd hyn drwy gyfrwng tanwariant ar gostau ynni goleuadau Stryd (£72,000) yn sgil gosod unedau sy'n fwy effeithlon o safbwynt ynni.

Trafnidiaeth a Pheirianneg

- Mae'r gorwariant net bach o £17,000 yn celu sawl tanwariant a gorwariant mawr.

- Cafwyd gorwariant o £320,000 ar y gyllideb meysydd parcio, yn bennaf o ganlyniad i ohirio cyn gweithredu'r targedau yn yr MTFS ar gyfer arbedion - codi tâl am fathodynnau glas (£165,000) a chynnydd yn y ffioedd am drwyddedau staff (£60,000) – ar y cyd â diffygion hanesyddol yn yr incwm o drwyddedau meysydd parcio i'r staff (£50,000).
- Cafwyd gorwariant ar gynnal a chadw Gorsaf Fysiau Pen-y-bont ar Ogwr (£50,000).
- Mae Rheoli Traffig a Diogelwch Ffyrdd wedi gorwario £65,000. O hyn, mae £20,000 yn deillio o ddiffyg yn arbedion yr MTFS ynglŷn â Hebryngwyr Croesfannau Ysgol (SCPs), yn sgil y penderfyniad i beidio â chael gwared ar bob SCP a sicrhau arbedion yn unol â safonau Prydain Fawr. Mae gweddill y gorwariant yn deillio o ddiffyg mewn incwm o ffioedd mewnol (£30,000).
- Mae Polisi a Datblygu wedi gorwario £125,000. Mae hyn yn cynnwys diffyg o £50,000 mewn incwm o ffioedd, gorwariant o £15,000 ar astudiaethau trafnidiaeth a gorwariant o £60,000 ar gostau staffio yn sgil defnyddio staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag cyn ailstrwythuro'r staff.
- Mae'r gorwariannau a nodwyd wedi'u cydbwyso gan fod y gwasanaethau Peirianneg wedi gwneud yn well na'u targed incwm (£310,000), yn bennaf oherwydd cyfran y prosiectau a ariannwyd gan yr UE a chan gyrff heblaw'r UE y maent wedi gweithio arnynt o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ac oherwydd y gallu yn sgil hynny i godi'r costau llawn. Cafwyd tanwariant hefyd yn yr adran Cydlynu Trafnidiaeth yn sgil rheoli swyddi gwag (£180,000). Bydd y rheolaeth ar swyddi gwag yn cyfrannu at y targedau ar gyfer gostwng cyllidebau yn MTFS 2016-17.

<u>Parciau a Mannau Agored</u>

- Roedd gan y maes gwasanaeth hwn darged o arbed £437,000 yn 2015-16. Cafwyd oedi wrth ailstrwythuro'r staff, sydd wedi arwain at orwariant o £207,000. Mae'r ailstrwythuro wedi'i wneud bellach a bydd ar waith yn llawn yn 2016-17.

<u>Diwylliant</u>

- Cafwyd tanwariant o dan Wasanaethau Diwylliannol o £84,000. Mae hyn yn gysylltiedig yn bennaf â rheoli swyddi gwag o dan Ddysgu Cymunedol i Oedolion (£60,000).

**<u>Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau</u>**

£14.572 miliwn oedd cyllideb net y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2015-16 a'r alldro gwirioneddol oedd £14.058 miliwn, sef tanwariant o £514,000. Cafodd £338,000 miliwn ei dynnu i lawn o'r cronfeydd a glustnodwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer pwysau penodol, gan gynnwys £143,000 ar gyfer costau dymchwel, £135,000 o arian dichonolrwydd ar gyfer cynlluniau cyfalaf, £44,000 ar gyfer cynlluniau a ariannwyd o'r Gronfa Newid a £723,000 o falansau grant hanesyddol yn ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn

Manylir ar yr amrywiadau mwyaf arwyddocaol isod:

| Y GYFARWYDDIAETH ADNODDAU | Cyllideb Net £000 | Alldro Gwirioneddol £000 | Amrywiad dros/(o dan) y gyllideb £000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Eiddo (Ystadau) | 1,776 | 1,722 | (54) | -3.0% |
| Adnoddau Dynol | 3,932 | 3,899 | (33) | -0.8% |
| TGCh | 4,068 | 3,668 | (400) | -9.8% |
| Cyllid | 1,659 | 1,564 | (95) | -5.7% |
| Budd-dal Tai | 478 | 746 | 268 | 56.1% |
| Ffioedd Archwilio | 887 | 756 | (131) | -14.8% |

Gwasanaethau Eiddo

- Mae tanwariant ar Reoli Cyfleusterau, sef £280,000, wedi codi'n bennaf yn sgil gostyngiad mewn ardrethi busnes a chostau rhedeg eiddo'r Cyngor. Cafodd hyn ei gydbwyso'n rhannol gan orwariant yn ymwneud ag eiddo gwag mewn asedau anweithredol (£100,000), a chostau ychwanegol a ysgwyddwyd ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif nad oedden nhw'n gymwys i gael eu hariannu â chyfalaf (£90,000).

Adnoddau Dynol

- Mae'r tanwariant net o £33,000 wedi codi'n bennaf o danwariant ar wiriadau'r Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (DBS) (£65,000), wedi'i gydbwyso gan gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chwnsela i'r staff ac iechyd galwedigaethol (£30,000).

TGCh

- Mae'r tanwariant net o £400,000 wedi codi yn sgil tanwario ar feddalwedd a swyddi gwag cyn i ostyngiadau gael eu gwneud yn y cyllidebau yn y dyfodol. Bwriadwyd i'r tanwariant hwn ariannu'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â gwaith hyblyg a symud allan o Gwrt y Cigfrain. Er hynny, am fod y prosiect hwn wedi'i ohirio, mae'r cyllid yn dal heb ei wario yn 2015-16 ac mae cronfa wedi'i chlustnodi er mwyn talu'r costau yn 2016-17.

Cyllid

- Mae'r tanwariant net o £95,000 ar gyfer gwasanaethau cyfrifydda wedi codi yn sgil ailstrwythuro'r gwasanaeth yn ystod 2015 i fodloni gostyngiadau yn y gyllideb ar gyfer 2015-16 a 2016-17 ac mae'n gyfuniad o ostyngiad mewn costau staff a chynhyrchu incwm ychwanegol drwy newidiadau y cytunwyd arnynt yn y gwasanaethau.

Budd-dal Tai

- Mae'r gorwariant net o £268,000 yn cynnwys gorwariant o £522,000 ar daliadau budd-dal tai, a gydbwyswyd yn rhannol gan danwariant o £254,000 ar weinyddu hawliadau budd-dal tai. Mae'r gorwariant wedi codi'n rhannol oherwydd cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn sgil gwaith gan Gyllid y Wlad i ddod o hyd i bobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai, a'r cynnydd dilynol yn lefel y dyledwyr. Mae'r tanwariant yn deillio'n bennaf o drosglwyddo gweithgareddau twyll i'r DWP ac arbedion a gafwyd yn sgil hynny.

Ffioedd Archwilio

- Mae'r tanwariant o £131,000 yn cynnwys tanwariant o £55,000 ar ffioedd archwilio mewnol, yn sgil swyddi gwag, ac £85,000 ar gyfer gostyngiad

mewn ffioedd archwilio allanol. Cydbwyswyd hyn yn rhannol gan incwm is drwy ailgodi ffioedd banc, yn arbennig ffioedd CHAPS.

**Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol**

£6.082 miliwn oedd cyllideb net y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2015-16 a'r alldro gwirioneddol oedd £5.685 miliwn, sef tanwariant o £397,000. Cafodd £359,000 ei dynnu i lawr o'r cronfeydd a glustnodwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer pwysau penodol, gan gynnwys £295,000 at gostau dileu swyddi wrth sefydlu'r Gwasanaeth Rheoleiddio Cyffredin a chynlluniau llai a ariannwyd o'r Gronfa Newid a £93,000 o falansau grant hanesyddol yn ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn.

Manylir ar yr amrywiadau mwyaf arwyddocaol isod:

| Y GYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL | Cyllideb Net £000 | Alldro Gwirioneddol £000 | Amrywiad dros/(o dan) y gyllideb £000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 2,253 | 2,010 | (243) | -10.8% |
| Gwasanaethau Democrataidd | 1,561 | 1,521 | (40) | -2.6% |
| Caffael | 284 | 219 | (65) | -22.9% |
| Partneriaethau | 353 | 314 | (39) | -11.0% |

Gwasanaethau Cyfreithiol

- Mae'r tanwariant ar Wasanaethau Cyfreithiol yn gyfuniad yn bennaf o incwm ychwanegol o wasanaeth y Cofrestrydd o £60,000, swyddi gwag ac adennill ffioedd ar ran y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Gwasanaethau Democrataidd

- Mae'r tanwariant yn gyfuniad o danwariannau bach ar gyflogau, adnoddau a hyfforddiant i aelodau a swyddogion.

Caffael

- Mae'r tanwariant yn deillio o reoli swyddi gwag wrth baratoi ar gyfer gostyngiadau yn y cyllidebau yn y dyfodol o dan yr MTFS. Ni fydd y tanwariannau hyn yn ailddigwydd yn 2016-17.

Partneriaethau

- Mae'r tanwariant ar bartneriaethau a rheoli perfformiad yn ymwneud â rheoli swyddi gwag a pharatoi ar gyfer gostyngiadau yn y cyllidebau yn y dyfodol o dan yr MTFS. Ni fydd y tanwariannau hyn yn ailddigwydd yn 2016-17.

**Cyllidebau'r Cyngor Cyfan**

Mae'r rhan hon o'r cyfrifon yn cynnwys cyllidebau, darpariaethau a gwasanaethau sy'n rhychwantu'r cyngor cyfan, ac nad ydyn nhw'n cael eu rheoli gan Gyfarwyddiaeth unigol. Mae hyn yn cynnwys cyllid cyfalaf a phremiymau yswiriant. £36.394 miliwn oedd y gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwasanaethau'r cyngor cyfan a'r alldro gwirioneddol oedd £34.470 miliwn, sef tanwariant o £1.924 miliwn.

Manylir ar yr amrywiadau mwyaf arwyddocaol isod:

| CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL | Cyllideb Net £000 | Alldro Gwirioneddol £000 | Amrywiad dros/(o dan) y gyllideb £000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Cyllido Cyfalaf | 10,372 | 10,660 | 288 | 2.8% |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 13,869 | 13,348 | (521) | -3.8% |
| Premiymau Yswiriant | 1,634 | 1,602 | (32) | -2.0% |
| Cyllidebau Corfforaethol Eraill | 10,519 | 9,364 | (1,155) | -11.0% |

Cyllido Cyfalaf

- Mae'r gorwariant net o £288,000 yn deillio'n bennaf o ad-dalu premiymau ychwanegol er mwyn lleihau costau cyllido yn y dyfodol, a gafodd eu talu'n rhannol drwy dynnu symiau i lawr o'r cronfeydd a glustnodwyd ac a gydbwyswyd yn rhannol drwy gostau ariannu a oedd yn is yn gyffredinol.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

- Mae'r tanwariant o £521,000 yn deillio o alw is na'r disgwyl am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Cyllideb sy'n dilyn y galw yw hon ac mae wedi'i seilio ar y galw uchaf posibl. Mae gostyngiadau arfaethedig yn y gyllideb o £300,000 yn 2016-17 a 2017-18 wedi'u cynnwys yn yr MTFS ac felly ni ddisgwylir i danwariant ar y lefel hon ddigwydd eto.

Cyllidebau Corfforaethol Eraill

- Mae tanwariant net o £1.420 miliwn ar y cyllidebau corfforaethol eraill wedi codi yn sgil:
  - Llai o alw o du'r Cyfarwyddiaethau i dalu am bwysau yn ystod y flwyddyn o ran chwyddiant mewn cyflogau a phrisiau. megis costau ynni a meddalwedd;
  - Cyfraddau chwyddiant sy'n is yn gyffredinol;
  - Llai na'r disgwyl o alw o ran pwysau ar brisiau.

Bu'r tanwariant hwn yn fodd i nifer o gronfeydd corfforaethol newydd gael eu clustnodi i ymdopi â phwysau yn 2016-17, gan gynnwys cyfraniadau at y gronfa gyfalaf, i ategu'r rhaglen gyfalaf ac i ariannu gwaith dymchwel, er mwyn osgoi costau sy'n gysylltiedig ag eiddo gwag.

Bu'r tanwariant ar gyllidebau'r Cyfarwyddiaethau yn fodd hefyd i nifer o gronfeydd newydd gael eu clustnodi ar gyfer y Cyfarwyddiaethau, i ymdopi â phwysau ar wasanaethau penodol a ragwelir ar gyfer 2016-17, y bwriadwyd ymgymryd â llawer ohonynt yn 2015-16 yn wreiddiol.


Fel y nodwyd yn yr MTFS ym mis Mawrth 2016, mae'r tanwariant ar incwm sydd wedi'i gronni o'r dreth incwm wedi'i drosglwyddo i'r gronfa ad-drefnu gwasanaethau i gyfrannu at gost rhaglenni trawsnewid, megis y cynllun Trawsnewid Digidol a'r cynllun Gofal Ychwanegol.

## b) Gwariant cyfalaf yn 2015-16


Ar ben gwario arian ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a'r seilwaith, ehangu asedau neu ddarparu grantiau cyfalaf i eraill. Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn 2015-16 oedd £26.047 miliwn. Roedd yr asedau a gafodd eu creu, eu gwella neu a ddechreuodd gael eu datblygu o ganlyniad i'r gwariant hwn yn cynnwys:

- Datblygiadau Lleoedd Llewyrchus a Llawn Addewid – maes parcio newydd, lle preswyl a lle manwerthu newydd yn y Rhiw
- System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Gyfan
- Ysgol Gynradd Parc Derwen
- Datblygiadau yn hen Ysgol Gyfun Ogwr
- Adnewyddu Celtic Court
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Ailadeiladu cerbytffyrdd a goleuadau stryd

**O ble y daeth yr arian:**




**Ble y cafodd yr arian ei wario:**



### c) Trefniadau benthyca a ffynonellau cyllid

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dogfen y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, *Treasury Management in the Public Services*: *Code of Practice 2011 Edition,* sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorfa cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth hon yn cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor o dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi sylw i'r Cod Ymarfer hwn.

Mae Arferion Rheoli Trysorfa'r Cyngor yn caniatáu i'r Cyngor godi aran o amryw o ffynonellau. Awdurdodir y Swyddog Adran 151 i gymryd y math mwyaf priodol o fenthyciad o'r ffynonellau a gymeradwywyd o fewn y terfynau benthyca cyffredinol a bennwyd gan y Cyngor.

Bob blwyddyn, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003, a'r Cod Materion Ariannol, mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu terfynau gwahanol ar gyfer ei weithgareddau Rheoli Trysorfa gan gynnwys terfynau ar gyfer dyledion.

Roedd y terfynau a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol fel a ganlyn:-

| | 2015-16 £m |
|---|---|
| **Terfyn awdurdodedig dyled allanol** | |
| Benthyciadau | 140 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 30 |
| **Cyfanswm** | **170** |
| **Ffiniau Gweithredol** | |
| Benthyciadau | 105 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 25 |
| **Cyfanswm** | **130** |

Fel y gwelir o'r Fantolen ar 31 Mawrth 2016, cyfanswm y benthyciadau hirdymor oedd £97.434 miliwn (£97.444 miliwn 2014-15) a chyfanswm y rhwymedigaethau hirdymor oedd £21.759 miliwn (£20.847 miliwn 2014-15) ac felly mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y terfynau a bennwyd.

## 3. Cronfeydd y Cyngor

Gellir crynhoi'r cronfeydd ariannol a oedd gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2016 fel a ganlyn:-

| Balans Agoriadol 2014-15 £'000 | Symudiad 2014-15 £'000 | Balans Cau 2014-15 £'000 | | Wedi'I Dynnu I Lawr 2015-16 £'000 | Ychwanegiadau 2015-16 £'000 | Balans Cau 2015-16 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7,395 | 55 | **7,450** | Council Fund Balance | | 154 | **7,604** |
| 2,467 | (57) | **2,410** | Delegated Schools Balance | (256) | | **2,154** |
| 3,051 | 356 | **3,407** | Maesteg School PFI Equalisation Fund | | 299 | **3,706** |
| 32,381 | 3,256 | **35,637** | Earmarked Reserves | (11,316) | 14,732 | **39,053** |
| **45,294** | **3,610** | **48,904** | | **(11,572)** | **15,185** | **52,517** |

Balansau Dirprwyedig Ysgolion yw'r symiau sydd gan yr ysgolion, sydd wedi'u hymrwymo i'w gwario ar ysgolion ac nad ydynt ar gael i'r Cyngor i'w defnyddio'n gyffredinol. Er bod gan y mwyafrif o'r ysgolion falans â gwarged, mae gan rai ddiffygion yn 2016-17. Yn unol â Rheoliadau Cyllid Ysgolion (Cymru) 2010, ac fel rhan o ofynion y Cynllun Ariannol Ysgolion, gofynnwyd i'r ysgolion roi'r rhesymau am eu balansau. Gall y rhesymau gynnwys materion fel gostyngiad yn y nifer ar y gofrestr, addasiadau negyddol ôl-syllol a mentrau sydd yn yr arfaeth.

Mae Cronfa Cyfartalu PFI Ysgol Maesteg wedi'i sefydlu i dalu costau'r contract PFI yn y dyfodol, ac felly nid yw ar gael i'r Cyngor i'w defnyddio'n gyffredinol.

Ceir rhagor o wybodaeth am gronfeydd a glustnodwyd yn nodyn 31b ar y prif ddatganiadau ariannol.

**4. Rhwymedigaeth y Gronfa Bensiwn**

Mae'r wybodaeth a ddatgelir am fanteision ymddeol yn y Datganiad Cyfrifon wedi'i seilio ar Safon Gyfrifydda Ryngwladol (IAS) 19. Y rhwymedigaeth yn y gronfa bensiwn a ddatgelir yn y Fantolen yw'r sefyllfa net ar ôl cymryd i ystyriaeth y gwerth tybiannol y mae'r Cyngor yn ei roi ar asedau'r gronfa, a'r swm ariannol y mae angen ei neilltuo er mwyn talu'r pensiwn sydd wedi'i ennill hyd at 31 Mawrth 2016. Bydd y diffyg hwn yn newid o'r naill flwyddyn i'r llall gan ddibynnu ar berfformiad y buddsoddiadau, y rhagdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddir ynglŷn â'r pensiynwyr presennol, pensiynau gohiriedig a'r gweithwyr presennol, a'r cyfraniadau a wneir i'r gronfa. Rhwymedigaeth Bensiwn 2015-16 yw £245.270 miliwn (£273.010 miliwn yn 2014-15), sef gostyngiad o £27.74m. Ceir cronfa bensiwn wrth gefn i gyfateb iddi ar y Fantolen.

Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaeth bensiwn yn cael eu rhagnodi i raddau helaeth gan y safon gyfrifydda berthnasol (IAS19). Er hynny, mae gan yr Actiwari fwy o ryddid i ddefnyddio rhagdybiaethau gwahanol, sy'n fwy penodol i'r Cyngor, wrth ailbrisio'r Gronfa Bensiwn bob tair blynedd, sef ailbrisiad sy'n cael ei ddefnyddio i bennu'r cyfraddau cyflogwr sy'n angenrheidiol i dalu 100% o rwymedigaethau'r gronfa bensiwn. Gan hynny, gellir dadlau bod yr ailbrisiad bob tair blynedd yn arwydd cywirach o'r diffyg a fydd yn daladwy yn y dyfodol, ac mae cyfraddau'r cyfraniadau cyflogwr yn cael eu pennu i dalu'r diffyg hwn. Mae'r trefniadau statudol yn gofyn bod y buddion a enillir yn cael eu hariannu wrth i'r Cyngor wneud cyfraniadau cyflogwr at gronfeydd pensiwn. Gan hynny, er ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gyfrifo a datgan y rhwymedigaeth i'r gronfa bensiwn ar sail IAS19, bydd y trefniadau statudol, ar y cyd ag asesiadau'r actiwari yn yr ailbrisiad bob tair blynedd, yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn iddi fod yn bryd talu'r buddion.

**5. Y Prif Newidiadau yn y Cyfrifon ar gyfer 2015-16 o'u cymharu â 2014-15**

Mae cyfrifon y Cyngor am flwyddyn ariannol 2015-16 wedi'u paratoi yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 ('y Cod'). Mae hwn yn pennu'r egwyddorion a'r arferion cyfrifydda sy'n angenrheidiol er mwyn paratoi Datganiad Cyfrifon sy'n dangos golwg gywir a theg o berfformiad ariannol a sefyllfa a thrafodion ariannol Awdurdod Lleol. Fel y nodwyd ar ddechrau'r Adroddiad Naratif, y prif

newid yw cyflwyno IFRS13 ac mae hyn wedi'i adlewyrchu wrth lunio Datganiad Cyfrifon 2015-16

**6. Effaith yr Hinsawdd Economaidd Gyfredol ar yr Awdurdod**

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn dangos y bydd her i'w chael ynglŷn a nifer o'r gostyngiadau yn y gyllideb a bod nifer o gynigion yn dibynnu ar ail-lunio ac ailfodelu gwasanaethau. Mae'n bwysig bod y cynigion yn symud ymlaen mor gyflym ag y bo modd ac y cedwir at yr amserlenni. Mae lefel y balansau yn ddigonol i alluogi'r Cyngor i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl ac i gael eu cadw ar lefel o £7 miliwn o leiaf, gyda chynnydd arfaethedig yn unol â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor o 2.7% o'r Gwariant Refeniw Gros erbyn 2019-20. Rhaid i'r gwariant ar wasanaethau gael eu rheoli o fewn y cyllidebau er mwyn sicrhau na fydd sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei chyfaddawdu. Er bod amcanestyniadau o'r cyllid yn y dyfodol wedi'u darparu, amcangyfrifon dangosol yn unig yw'r rhain ac fe allai'r sefyllfa newid ym mlynyddoedd y dyfodol.

# Datganiad o'r Cyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon

**Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol mewn modd priodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog hwnnw yn y Cyngor hwn
- Rheoli ei faterion er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

**Tystysgrif Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio**

Llofnod :

Dyddiad: 29|09|16

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151**

Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor, yn unol â'r arferion priodol a nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifydda Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151:

- wedi dewis polisïau cyfrifydda addas ac wedyn wedi'u cymhwyso'n gyson;
- wedi gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- wedi cydymffurfio â Chod Ymarfer yr Awdurdodau Lleol.

Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd:

- wedi cadw cofnodion cyfrifydda priodol a oedd yn gyfoes;
- wedi cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac anghysondebau eraill.

**Tystysgrif y Swyddog Adran 151**

Rwy'n ardystio bod y Datganiad Cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2016 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016.

**Llofnod :**
**Swyddog Adran 151 :**
**Dyddiad :** 29|09|16

## Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2015-16

**1. Hyd a Lled y Cyfrifoldeb**

1.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano yn y modd priodol, a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

1.2 Mae'r Cyngor o dan ddyletswydd hefyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau o ran effeithiolrwydd strategol, ansawdd y gwasanaeth, argaeledd y gwasanaeth, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

1.3 Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau cyffredinol, mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod ganddo drefniadau priodol ar gyfer llywodraethiant ei faterion a system rheolaeth fewnol gadarn sy'n hwyluso'r dasg o arfer ei swyddogaethau'n effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

1.4 Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo ac wedi mabwysiadu Cod Llywodraethiant Corfforaethol sy'n gyson â'r fframwaith a ddatblygwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE).

**2. Diben y Fframwaith Llywodraethiant**

2.1 Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd ar gyfer cyfarwyddo a rheoli'r Cyngor a'r modd iddo gyfrif i'r gymuned leol a'i harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro sut mae ei amcanion strategol yn cael eu gwireddu ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol, priodol.

2.2 Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i bwriadu i osgoi defnydd amhriodol ar arian cyhoeddus neu golled arian cyhoeddus. Mae hefyd yn helpu i reoli'r risg y methir â gwireddu polisïau, nodau ac amcanion. Nid yw'n dileu pob risg; bwriad y system rheolaeth fewnol yw adnabod risgiau a'u gosod yn nhrefn eu blaenoriaeth, pwyso a mesur y tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a rheoli eu heffaith.

2.3 Mae'r paragraffau a ganlyn yn crynhoi'r fframwaith llywodraethiant a'r system rheolaeth fewnol a fu ar waith yn y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016. Mae'r disgrifiad o'r trefniadau wedi'i seilio ar yr egwyddorion craidd a geir yng Nghod Llywodraethiant Corfforaethol y Cyngor. Yn ystod 2015-16 cafwyd adolygiad o God Llywodraethiant Corfforaethol y Cyngor gan yr adran Archwilio Mewnol. Canfyddiad yr archwilwyr mewnol oedd bod y Cyngor wedi ymgorffori llywodraethiant corfforaethol ym mhob agwedd ar ei swyddogaethau allweddol.

**3. Y Fframwaith Llywodraethiant**

3.1 Mae chwe egwyddor llywodraethiant corfforaethol sy'n sail i lywodraethiant effeithiol holl gyrff yr awdurdodau lleol fel y'u diffinnir gan CIPFA a SOLACE, gan ymgorffori egwyddorion llywodraethiant Llywodraeth Cymru (a welir mewn print italig) fel a ganlyn:

- Canolbwyntio ar ddiben y Cyngor ac ar ddeilliannau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth i'r ardal leol; *(Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf*); *(Sicrhau Gwerth am Arian);*
- Aelodau a swyddogion yn cydweithio i sicrhau diben cyffredin gyda swyddogaethau a rolau pendant; *(Gwybod Pwy sy'n Gwneud Beth a Pham);*
- Hybu gwerthoedd y Cyngor a dangos gwerthoedd llywodraethiant da drwy gynnal safonau ymddygiad uchel; *(Byw Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus);*
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun gwaith craffu a gwaith rheoli risg manwl; *(Meithrin Darpariaeth Arloesol);*
- Datblygu capasiti a galluoedd Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol; *(Bod yn Sefydliad sy'n Dysgu);*
- Ymgysylltu â'r bobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn; (*Ymgysylltu ag Eraill*);

3.2 Mae'r Cyngor wedi dilyn yr egwyddorion hyn ac wedi nodi'r pwyntiau a ganlyn wrth iddo gasglu tystiolaeth er mwyn cael sicrwydd bod llywodraethiant y Cyngor yn gadarn.

**4. Egwyddor 1 - Canolbwyntio ar ddiben y Cyngor ac ar ddeilliannau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth i'r ardal leol (*Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf); (Sicrhau Gwerth am Arian).***

4.1 Adolygodd a chyhoeddodd y Cyngor ei gynllun corfforaethol 2013-2017, gan gynnwys y Blaenoriaethau Gwella, ar gyfer 2015-16. Cafodd y blaenoriaethau eu cysoni â deilliannau allweddol Cynllun Partneriaeth Integredig Sengl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, 'Sir Pen-y-bont ar Ogwr Ynghyd'. Sicrhaodd hyn fod y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiadau a wnaed gyda'r sefydliadau partner. Ystyriodd y Cynllun hefyd nifer o ffactorau gan gynnwys y galw am wasanaethau, gofynion y deddfau, anghenion y dinasyddion, yr adnoddau a oedd ar gael, blaenoriaethau'r sefydliadau partner, ynghyd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a chyrff rheoleiddio.

4.2 Mae'r Cynllun yn cynnwys y chwe blaenoriaeth wella a ganlyn:

- Gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r economi lleol
- Gweithio gyda'n gilydd i godi'r uchelgeisiau a chodi cyflawniad addysgol
- Gweithio gyda phlant a theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar
- Gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl agored i niwed i barhau i fod yn annibynnol
- Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion iechyd ac annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw
- Gweithio gyda'n gilydd i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau

4.3 Rhoddodd y blaenoriaethau gwella hyn gyfeiriad i gynlluniau busnes y Cyfarwyddiaethau. Trefnwyd adolygu'r cynnydd o'i gymharu â'r blaenoriaethau gwella bob chwarter. Nododd y Cynllun Corfforaethol nifer o ddangosyddion a oedd yn canolbwyntio ar ddeilliannau, rhai ohonyn nhw'n fesurau meincnodi. Anelwyd pob dangosydd a gynhwyswyd yn y Cynllun at fesur llwyddiant ein gwaith di-fwlch gyda dinasyddion a phartneriaid.

4.4 Yn ystod y flwyddyn, datblygodd y Cyngor set ddiwygiedig o flaenoriaethau corfforaethol a chynllun corfforaethol newydd ar gyfer 2016-2020, gan gymryd i ystyriaeth yr heriau arwyddocaol sydd o flaen ein cymunedau – gan gynnwys y galw cynyddol ar lawer o'n gwasanaethau yng nghyd-destun cyllideb sy'n crebachu. Mae'r cynllun newydd yn nodi sut y bydd y Cyngor yn newid a beth fydd ei ffocws dros y pedair blynedd nesaf. Dyma'r tair blaenoriaeth gorfforaethol:

- Cefnogi economi llwyddiannus
- Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol
- Defnyddio adnoddau'n ddoethach

4.5 Ochr yn ochr â'r cynllun corfforaethol, cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) am y cyfnod 2016-17 i 2019-20. Mae hon yn darparu fframwaith cynllunio a fframwaith ariannol integredig ar gyfer y pedair blynedd nesaf, gan gynnwys strategaeth fanwl y gyllideb am y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r gyllideb refeniw flynyddol a chynlluniau ariannol at y dyfodol ynghyd â'r rhaglen gyfalaf yn galluogi'r Cyngor i gysoni ei adnoddau ariannol â'i flaenoriaethau newydd. Mae adroddiadau monitro cyllideb yn cael eu cyflwyno bob chwater i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu, ac mae'r Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol a Gwella wedi'i enwebu'n brif Bwyllgor Craffu.

4.6 Mae gan y Cyngor amryw o brosiectau a rhaglenni ar y gweill i sicrhau bod y blaenoriaethau gwella'n cael eu gwireddu. Mae'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni (PMB) corfforaethol wrthi'n goruchwylio nifer o fentrau mawr o dan y Rhaglen Rheoli Trawsnewid, gan gynnwys:

- Rhaglen moderneiddio ysgolion;
- Ailfodelu Gofal Cymdeithasol i Oedolion;
- Ailfodelu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant;
- Rhaglen Economi Llwyddiannus;
- Adolygiad Strategol o'r Cwricwlwm a'r Ystâd Ysgolion;
- Rhaglen y Trydydd Sector;
- Rhaglen Trawsnewid Digidol;
- Rhaglen Rhesymoli'r Ystâd;
- Adolygiad Caffael Corfforaethol; a
- Phrosiectau cydweithredu strategol e.e. y Fargen Ddinesig.

4.7 Daeth Adroddiad Gwelliant Blynyddol diweddaraf yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch y Cyngor i law ym mis Medi 2015. Y casgliad cyffredinol oedd bod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran sicrhau gwelliannau yn ei feysydd â blaenoriaeth ac yn cydnabod bod angen cefnogi'r broses o wella gwasanaethau plant; a bod ei drefniadau blaengynllunio a'i hanes blaenorol yn awgrymu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant yn 2015-16. Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol argymhellion statudol, ond fe roddodd 13 o gynigion penodol ar gyfer gwelliannau. Mae'r cynigion hyn wedi'u hystyried ac mae camau wedi'u cymryd neu wrthi'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hynny lle y dylai gwelliannau gael eu gwneud.

4.8 Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2015-16 gan ardystio ym mis Mai 2015 fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

4.9 Nododd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2014-15 yn unol â'r Mesur a Chod Arferion Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol gan ardystio ym mis Tachwedd 2015 fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

4.10 Ymgymerodd yr Archwilydd Cyffredinol ag Asesiad Corfforaethol o'r Cyngor yn 2015-16. Diben yr asesiad oedd rhoi datganiad sefyllfa ar gapasiti a gallu'r Cyngor i

sicrhau gwelliannau parhaus. Ffocws yr asesiad oedd i ba raddau y mae'r trefniadau yn helpu i wella perfformiad y gwasanaethau a'r deilliannau i'r dinasyddion.

Ystyriodd yr asesiad hanes perfformiad a deilliannau'r awdurdod yn ogystal ag edrych ar y trefniadau allweddol sy'n angenrheidiol er mwyn gosod y sylfaen ar gyfer gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau.

Aeth yr archwilwyr ati i gyfweld a chyfarfod ag aelodau etholedig, uwch-swyddogion a staff y rheng flaen, yn unigol ac ar y cyd, i arsylwi arnynt a chynnal arolygon ar-lein gyda nhw.

Cadarnhaol iawn yw canlyniad yr asesiad. Casgliad cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol yw bod y Cyngor yn datblygu cynlluniau priodol at y dyfodol a'i fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliannau, ar yr amod y bydd yn cysoni'r swyddogaethau TGCh ac adnoddau dynol â'r rhaglen drawsnewid.

Ni welodd yr Archwilydd Cyffredinol reswm dros wneud argymhellion ffurfiol na chynnal arolygiad, nac argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd. Er hynny, lluniodd wyth cynnig ar gyfer gwella (gan gynnwys rhai o'r rhai a gynhwyswyd yn yr adroddiad gwella blynyddol uchod). Mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd camau cychwynnol i fynd i'r afael â phump o'r cynigion, ac mae camau'n cael eu cymryd i wella'r gweddill. Mae'r Cyngor yn ceisio gwneud gwelliannau pellach ym mhob maes a nodwyd.

4.11 Roedd gweithgareddau eraill a ddangosodd ymroddiad y Cyngor i Egwyddor 1 - **"Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf**", yn cynnwys:

- Parhau i ddefnyddio'r Panel Dinasyddion, ymgynghori cyhoeddus helaeth ac ymgysylltu â chwsmeriaid ynghylch amryw o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor ac yn arbennig y blaenoriaethau corfforaethol newydd a'r cynigion ynghylch lleihau'r gyllideb;
- Cyflwyno Strategaeth Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu'r Cyngor ar gyfer 2015-16; a
- Chanolfan cyswllt i gwsmeriaid fel canolbwynt ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid.

**5. Egwyddor 2 - Aelodau a swyddogion yn cydweithio i sicrhau diben cyffredin gyda swyddogaethau a rolau pendant (*Gwybod Pwy sy'n Gwneud Beth a Pham*).**

5.1 Mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau bod y rolau a'r cyfrifoldebau ym maes llywodraethiant wedi'u diffinio ac wedi'u dyrannu fel bod yr atebolrwydd ynglŷn â phenderfyniadau a chamau a gymerir yn glir. Mae ganddo system Arweinydd a Chabinet ac yn hon:

- Mae'r Cyngor yn pennu'r gyllideb gyffredinol ac yn penodi Arweinydd y Cyngor;
- Mae'r Arweinydd yn penodi aelodau'r Cabinet ac yn cyhoeddi'r Dirprwy Arweinydd a phortffolio aelodau'r Cabinet;
- Mae gan y Pwyllgor Archwilio swyddogaeth bendant, gan roi sicrwydd annibynnol ynghylch pa mor ddigonol yw'r fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli perthynol, craffu'n annibynnol ar berfformiad ariannol ac anariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae hynny'n effeithio ar y risg y mae'r

Cyngor yn ei hwynebu ac yn gwanhau'r amgylchedd rheoli, a goruchwylio proses yr adroddiadau ariannol;

- Mae Pwyllgorau Craffu'n cynghori ar lunio polisïau ac yn dwyn y Cabinet i gyfrif ynghylch materion penodol. Maent hefyd yn cael adolygu meysydd gweithgarwch nad ydyn nhw'n rhan o gyfrifoldeb y Cabinet neu faterion o bryder lleol ehangach;
- Mae yna Bwyllgorau Rheoleiddio (e.e. Trwyddedu, Rheoli Datblygu) i benderfynu ar faterion a ddiffinnir yng nghyfansoddiad y Cyngor;
- Mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau o fewn y fframwaith hwn ond mae rhai penderfyniadau'n cael eu dirprwyo i unigolion yn y Cabinet, i bwyllgorau'r Cabinet neu i swyddogion; ac
- Mae trefniadau clir wedi'u gwneud i gofnodi penderfyniadau a wneir gan aelodau'r Cabinet a swyddogion o dan bwerau dirprwyedig.

5.2 Ceir Pwyllgor Safonau i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg Cynghorwyr Tref a Chymuned a Chynghorwyr Bwrdeistref Sirol, aelodau cyfetholedig, cynrychiolwyr Eglwysig a chynrychiolwyr o Riant-lywodraethwyr.

5.3 Mae'r Cyfansoddiad wrth graidd busnes y Cyngor. Mae hefyd yn fframwaith sy'n rheoleiddio ymddygiad unigolion a grwpiau drwy godau ymddygiad, protocolau a rheolau sefydlog.

5.4 Mae'r Cyfansoddiad yn ddogfen gynhwysfawr sy'n cael ei hadolygu'n barhaus gan y Swyddog Monitro. Mae'n bwynt cyfeirio i unigolion a sefydliadau yn y Cyngor a'r tu allan iddo. Mae ei Reolau Gweithdrefnol yn llywodraethu'r fframwaith cyffredinol y mae'r Cyngor yn gweithredu o'i fewn. Mae rheolau gweithdrefnol a chodau ymddygiad yn amlinellu sut mae'r Cyfansoddiad i'w roi ar waith. Er bod y Cyfansoddiad yn ofynnol o dan statud, nid yw cynnwys y Cyfansoddiad i gyd wedi'i ragnodi. Mae'r Cyngor wedi'i fodloni ei fod yn gyson â'r statud, y rheoliadau a'r canllawiau. I sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion yn barhaus, y Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol yw'r Swyddog Monitro a benodir o dan Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

5.5 Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl clir sy'n nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau a'r rhaglenni gwaith. Adolygir y rhain gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r Pwyllgor Archwilio, drwy ei raglen waith yntau, yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethiant, y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli mewnol.

5.6 Mae Prif Weithredwr y Cyngor (yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig) yn arwain swyddogion y Cyngor ac yn cadeirio'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol. Yn sgil ymddiswyddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau, cafodd newidiadau yn y strwythur rheoli eu cynnig gan y Prif Weithredwr a'u cytuno gan y Cyngor ym mis Ebrill 2016.

5.7 Mae gan yr holl staff, gan gynnwys yr uwch-reolwyr, delerau ac amodau gwaith a disgrifiadau swydd clir sy'n nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae telerau ac amodau gwaith yn cael eu monitro gan yr Adran Adnoddau Dynol.

5.8 Y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau oedd y Swyddog Adran 151 a benodwyd o dan Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac oedd yn gyffredinol gyfrifol am sicrhau bod trefniadau rheoli arian y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch

llywodraethiant yn natganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (2010). Mae'r swyddogaeth arian gorfforaethol yn rhoi amrediad o gymorth i'r adrannau ac yn penderfynu ar y broses ynglŷn â pharatoi'r gyllideb a monitro cyllid. Ym mis Ebrill 2016, cafodd swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei dileu o'r strwythur rheoli ar ôl i ddeiliad y swydd ymadael. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau'r rôl wedi'u dyrannu ymysg gweddill aelodau'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol. Mae'r Pennaeth Cyllid sydd newydd ei ddynodi wedi ysgwyddo'r cyfrifoldebau o dan Adran 151 a oedd yn cael eu cyflawni gynt gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau, yn unol â chytundeb y Cyngor. Mae'r Swyddog Adran 151 sydd newydd ei benodi yn aelod o'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ar yr un sail ag aelodau eraill y Bwrdd hwnnw.

5.9 Y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw'r cyfarwyddwr statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, sy'n amlinellu'r chwe chyfrifoldeb craidd ar draws holl swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys sicrhau bod gan yr Awdurdod ddulliau diogelu priodol i warchod plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

5.10 Cafodd rôl y Prif Weithredwr Cynorthwyol ei newid gan y Cyngor i rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethau, gan gydnabod graddfa a chymhlethdod portffolio ehangach o wasanaethau. Mae deiliad y swydd hefyd yn dal i gyflawni rôl Swyddog Monitro, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith ac mae ei staff yn cydweithio'n agos â'r adrannau i gynghori ar faterion cyfreithiol.

5.11 Y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (sef y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Thrawsnewid gynt, tan fis Ebrill 2016) yw'r Prif Swyddog Addysg, fel y'i rhagnodir gan Ddeddf Addysg 1996, a'r cyfarwyddwr statudol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Pant 2004.

5.12 Yn sgil newidiadau ym mis Rhagfyr 2014, y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant oedd y rheolwr llinell a oedd yn gyfrifol o ran swyddogaethau gofal cymdeithasol ar gyfer plant ac oedolion. Mae hyn wedi caniatáu i'r ffyrdd newydd o weithio a nodwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gael eu hymgorffori yn y gwasanaeth. Mae adroddiad AGGCC ar gyfer 2014-15, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, yn cydnabod bod y newidiadau hyn wedi creu capasiti arwain ychwanegol i ateb heriau'r dyfodol yn y gwasanaethau cymdeithasol.

5.13 Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor, a ddiwygiwyd ac a fabwysiadwyd gan y Cabinet ym mis Mehefin 2014, yn parhau i arwain prosesau ac arferion y Cyngor o ran cynlluniau corfforaethol, cynlluniau busnes a chynlluniau ariannol a rheoli perfformiad. Mae'r ddogfen yn rhoi diffiniad clir o brosesau a gweithdrefnau'r Cyngor a rolau a chyfrifoldebau'r rheolwyr yn y broses. Mae'n cynnwys disgwyliadau ynglŷn ag arddull ac ymddygiad y rheolwyr er mwyn helpu i esblygu diwylliant cryf o hunan-asesu. Yn ystod 2014-15, cyflwynodd y Cyngor her Rheoli Perfformiad i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, sy'n cyd-fynd â'r Asesiad Perfformiad Corfforaethol (CPA). Mae'r her strwythuredig hon yn canolbwyntio ar ystod eang o faterion yn ychwanegol at Ddangosyddion Perfformiad. Mae cyflwyno system Rheoli Perfformiad pwrpasol yn darparu gwybodaeth reoli gyson a phrydlon ar gyfer rheoli gwelliannau a phenderfyniadau yn y gwasanaethau.

5.14 Yn ei adroddiad ar yr Asesiad Corfforaethol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y Cyngor wedi egluro rolau a

chyfrifoldebau ac wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer dwyn pobl i gyfrif. Nododd hefyd fod aelodau'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn cydweithio'n agos i ddatblygu'r opsiynau ynglŷn â rôl y Cyngor yn y dyfodol ac i ddod o hyd i gyfleoedd newydd i ymgysylltu â'r cymunedau lleol.

**6. Egwyddor 3 - Hybu gwerthoedd y Cyngor a dangos gwerthoedd llywodraethiant da drwy gynnal safonau ymddygiad uchel (*Byw Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus*);**

6.1 Mae gwerthoedd craidd y Cyngor, sydd wedi'u crynhoi yn yr acronym GWEDD, yn dangos ymrwymiad y Cyngor i werthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus, sef:-

**G**weithio mewn modd teg – gan ystyried anghenion a sefyllfaoedd pawb

**W**astad yn uchelgeisiol – yn ceisio gwella'r hyn a wnawn ac yn anelu at ragoriaeth

**E**r lles ein cwsmeriaid – eu gwneud yn ganolog a chofio ein bod yma i wasanaethu ein cymunedau lleol

**Dd**ydd ar ôl dydd, yn effeithlon – trwy ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian

6.2 Wrth ddatblygu ei Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2016-2020, nododd y Cyngor set newydd o egwyddorion. Mae'r rhain wedi'u datblygu er mwyn helpu i lywio'r Cyngor tuag at ddod y math o sefydliad y mae angen iddo fod er mwyn ymateb i heriau newydd:

- Lle bynnag y bo'n bosibl bydd y Cyngor yn cynorthwyo cymunedau a phobl i greu eu datrysiadau eu hunain a lleihau dibyniaeth ar y Cyngor.
- Bydd y Cyngor yn canolbwyntio adnoddau sy'n mynd yn llai ar y cymunedau a'r unigolion â'r anghenion mwyaf.
- Bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth dda gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau i oleuo'i benderfyniadau.
- Bydd y Cyngor yn ysgogi ac yn datblygu gallu ymhlith y trydydd sector i adnabod anghenion lleol ac ymateb iddynt.
- Ni fydd y Cyngor yn gadael i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus atal cydweithio ystyrlon a phragmatig gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
- Bydd y Cyngor yn gweithio fel un Cyngor ac yn annog gwahanol rannau o'r sefydliad i beidio â datblygu prosesau lluosog neu ddulliau sy'n wahanol heb fod angen.
- Bydd y Cyngor yn trawsnewid y sefydliad a llawer o'i wasanaethau ac wrth wneud hynny bydd yn dwyn gostyngiadau yn y gyllideb ariannol yn ogystal â gwelliannau.

6.3 Mae gan y Cyngor weledigaeth glir a syml, sef gweithredu bob amser fel **'Un Cyngor yn gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau'.**

6.4 Mae ymddygiad aelodau etholedig a swyddogion yn cael ei lywodraethu gan godau ymddygiad, sy'n cynnwys gofyniad bod rhaid datgan buddiannau. Ceir cofrestr rhoddion a lletygarwch hefyd.

6.5 Mae'r Cyngor o ddifrif ynglŷn â thwyll, llygredd a chamweinyddu ac mae ganddo'r polisïau a ganlyn sy'n ceisio atal digwyddiadau o'r fath neu fynd i'r afael â nhw;

- Polisi Atal Twyll a Llwgrwobrwyo
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Atal Gwyngalchu Arian

- Polisïau adnoddau dynol ar ddisgyblu staff sy'n ymwneud â digwyddiadau o'r fath
- Polisi Cwynion Corfforaethol

Cafodd y tri pholisi cyntaf uchod eu hadolygu, eu diweddaru a'i cymeradwyo gan y Cabinet yn ystod 2014-15.

6.6 Mae ymddygiad yr Aelodau'n cael ei fonitro gan Ombwdsman Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Mae Pwyllgor Safonau'r Cyngor hefyd yn ystyried unrhyw adroddiadau a gyflwynir gan yr Ombwdsmon a'r Swyddog Monitro ac unrhyw sylwadau sy'n dod i law ynghylch honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

6.7 Mae polisi cwynion corfforaethol ar gael er mwyn i'r Cyngor dderbyn cwynion yn erbyn y Cyngor, ac ymchwilio iddynt ac mae hyn yn cael ei oruchwylio gan y Swyddog Monitro.

6.8 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn helpu i godi proffil rheolaeth fewnol a rheolaeth risg yn y Cyngor. Mae hyn yn gwella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn llywodraethiant ariannol y Cyngor.

6.9 Mae gan y Cyngor brotocol "Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cyfryngau cymdeithasol a chi" sydd ar gael er eu gwefan. Nod y protocol yw egluro sut y bydd y Cyngor yn ymgysylltu â defnyddwyr a rheoli'r disgwyliadau.

**7. Egwyddor 4 - Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun gwaith craffu a gwaith rheoli risg manwl (*Meithrin Darpariaeth Arloesol*).**

7.1 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu a'r broses ar gyfer gwneud polisïau a phenderfyniadau. Yn y fframwaith hwn, y Cabinet sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol. Mae holl gyfarfodydd y Cabinet yn agored i'r cyhoedd (ac eithrio ar yr adegau prin pan fydd eitemau'n esempt neu'n gyfrinachol).

7.2 Mae'r holl benderfyniadau a wneir gan y Cabinet yn cael eu gwneud ar sail adroddiadau ysgrifenedig, gan gynnwys asesiadau o'r goblygiadau cyfreithiol ac ariannol a'r goblygiadau o ran cydraddoldebau. Mae ymgynghori (gan gynnwys ymgynghori ag aelodau wardiau pan fo'n briodol) yn rhan reolaidd o'r broses.

7.3 Mae'r broses benderfynu'n cael ei monitro gan bump o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, sy'n ategu gwaith y Cyngor yn ei grynswth. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn darparu i gadeiryddion y pwyllgorau hyn gael eu penodi ar sail balans gwleidyddol yr aelodau etholedig sy'n ffurfio'r Cyngor. Gall aelodau Pwyllgor Craffu alw penderfyniad sydd wedi'i wneud gan y Cabinet ond sydd heb ei roi ar waith eto i mewn. Gallant argymell y dylai'r Cabinet ailystyried y penderfyniad. Mae'n bosibl hefyd i'r Cabinet neu'r Cyngor ymgynghori â nhw ynghylch penderfyniadau sydd ar y gweill ac ynghylch datblygu polisïau.

7.4 Mae penderfyniadau eraill yn cael eu gwneud gan Aelodau'r Cabinet yn unigol neu gan swyddogion o dan bwerau dirprwyedig. Manylir ar yr awdurdod i wneud penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd yn y Cynlluniau Dirprwyo.

7.5 Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n helpu llywodraethiant gweithrediadau'r Cyngor yn cynnwys Rheolau ar Weithdrefnau Ariannol (FPRs); Rheolau ar Weithdrefnau Contractau (CPRs); a'r Polisi Rheoli Risg. Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb dros sicrhau y cydymffurfir â'r polisïau hyn.

7.6 Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn disgrifio'r 'Llinyn Aur' ar gyfer cynllunio sy'n cysylltu gweledigaeth y Cyngor o "Gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau" drwy wasanaethau sy'n cael eu darparu ar reng flaen y Cyngor a sut mae ffactorau allanol yn dylanwadau ar y weledigaeth. Mae'r ffactorau allanol yn cynnwys blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig a blaenoriaethau lleol dinasyddion, partneriaid, a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol drwy gyfrwng y Cynllun Partneriaeth Sengl Integredig (SIPP) o'r enw "Sir Pen-y-bont ar Ogwr Ynghyd". Mae i'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol berthynas uniongyrchol â chynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau, cynlluniau cyflawni'r gwasanaethau, cynlluniau cyflawni'r grwpiau ac amcanion unigolion yn arfarniadau'r staff.

7.7 Mae'r Asesiad Perfformiad Corfforaethol (CPA) yn cael ei gynnal bob chwarter. Bydd aelodau'r Cabinet, y Bwrdd Rheoli Corfforaethol, a Phenaethiaid y Gwasanaethau'n bresennol a rhoddir cymorth gan y timau Gwella Corfforaethol a Chyllid. Diben y CPA yw:

- sicrhau golwg holistig ar berfformiad y Cyngor;
- nodi ac ystyried materion trawsbynciol;
- rhoi her feirniadol i feysydd lle ceir perfformiad gwael; a
- nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau, risgiau i'r ddarpariaeth a goblygiadau ar gyfer adnoddau.

7.8 Yn benodol, mae'r CPA yn monitro:

- y sefyllfa ariannol gyffredinol;
- blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella fel y'u diffinnir yn y Cynllun Corfforaethol;
- dangosyddion/mesurau allweddol y cytunwyd arnynt a chamau i'w cymryd gan y gwasanaethau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r cyfarwyddiaethau fel y'u nodwyd gan y Cynllun Corfforaethol;
- y gyllideb a ddyrannwyd er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau gwella; a
- risgiau corfforaethol.

Pan fydd angen hynny, ac yn eithriadol, mae'r CPA hefyd yn cael monitro'r cynnydd yn erbyn mentrau cenedlaethol a chydweithredol.

7.9 Mae'r Cyngor wedi datblygu ymagwedd gadarn at reoli risg. Mae'r polisi rheoli risg yn gyson â Chynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau a fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Mae'r holl risgiau a nodir yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf corfforaethol.

7.10 Mae'r risgiau'n cael eu hystyried o safbwynt y Gwasanaeth ac o safbwynt y Cyngor cyfan sy'n caniatáu i'r risgiau allweddol gael eu crynhoi mewn Cofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r mwyafrif o'r risgiau mawr yn cael eu rheoli yn un o'r rhaglenni strategol allweddol. Yn sgil newid a wnaed yn 2014-15, y Tîm Uwch-reolwyr (SMT) sy'n adolygu'r gofrestr risgiau. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei chyflwyno hefyd i'r Pwyllgor Archwilio i gael ei adolygu.

Roedd y prif risgiau y nodwyd eu bod yn wynebu'r Cyngor yn ystod 2015-16 yn cynnwys:

| Disgrifiad o'r Risg | Effaith Bosibl |
|---|---|
| Y Bil Diwygio Lles | Mae newidiadau sy'n cael eu gwneud |

| Disgrifiad o'r Risg | Effaith Bosibl |
|---|---|
| | gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn yr hawl i gael budd-daliadau'n golygu bod y galw am wasanaethau penodol yn debygol o gynyddu wrth i adnoddau'r Cyngor grebachu. |
| Defnyddio adnoddau'n effeithiol | Rhaid i'r Cyngor ystyried ei adnoddau'n ofalus iawn a gwneud penderfyniadau anodd iawn ynghylch gwario. Bydd hyn yn parhau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gan fod y rhagolygon yn dal yn dywyll ynglŷn â chyllid cyhoeddus. Os ceir prinder arbedion, fe allai'r Cyngor fethu â gwireddu ei MTFS. Gallai hynny olygu bod rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn yn annisgwyl i bontio'r bwlch yn y cyllid neu doriadau annisgwyl mewn gwasanaethau sy'n gosod pobl sy'n agored i niwed mewn risg. |
| Ad-drefnu Llywodraeth Leol | Mae hi eisoes yn anodd sicrhau'r newid trawsffurfiol y mae ei angen er mwyn gwneud arbedion yr MTFS, ar adeg pan fo'r galw am rai gwasanaethau wedi codi. Heb gyllid penodol, bydd ad-drefnu llywodraeth leol yn ychwanegu at y pwysau hyn ar ein costau gan olygu bod angen mwy o arbedion i gydbwyso'r gyllideb. Bydd hynny'n ei gwneud yn anos darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon. |
| Cefnogi pobl sy'n agored i niwed, | Bydd methu ailfodelu gwasanaethau yn cyfyngu gallu'r cyngor i warchod pobl ac ymateb i'r anghenion sydd wedi'u hasesu yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yn arwain hefyd at aros yn hirach yn yr ysbyty, mwy o angen am driniaethau drud a bywydau llai boddhaus i bobl sy'n agored i niwed. |
| Moderneiddio ysgolion | Gallai cynnydd annigonol greu effaith negyddol ar waith dysgu'r disgyblion a'u llesiant. |
| Yr hinsawdd economaidd a chyni | Gellid gweld mwy o swyddi'n cael eu colli a mwy o fusnesau'n methu yn yr economi lleol. Bydd canol trefi'n parhau i ddioddef heb eu hadfywio am eu bod yn lleoedd llai deniadol i ymweld â nhw ac yn methu cystadlu â chanolfannau cyfagos. |
| Cefnogi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a'u teuluoedd | Gallai llesiant a diogelwch plant gael eu cyfaddawdu. Gallent fethu ffynnu a methu defnyddio'u doniau i'r eithaf. |
| Gwaredu Gwastraff | Gallai methu cyrraedd targedau ailgylchu/compostio arwain at ddefnyddio adnoddau mewn modd aneffeithlon, anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi a chosbau yn erbyn y Cyngor. |

| Disgrifiad o'r Risg | Effaith Bosibl |
|---|---|
| Ffyrdd Iach o Fyw | Mae ffyrdd afiach o fyw yn creu llawer o effeithiau gan gynnwys disgwyliad oes byrrach, iechyd emosiynol gwaeth a cholli annibyniaeth. Mae cyfraddau gordewdra uchel yn arwain at gostau arwyddocaol i'r economi, y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. |
| Cynnal a chadw'r seilwaith | Mae rhwydwaith priffyrdd gwael yn arwain at fwy o hawliadau ynghylch atebolrwydd trydydd parti, colli enw da, effaith andwyol o bosibl ar yr economi ac ansawdd bywyd waeth i'r dinasyddion. |
| Hawlio cyflogau cyfartal | Mae canlyniad achos Abdulla yn golygu bod yna risg o ragor o hawliadau am gyflogau cyfartal yn erbyn y Cyngor. |
| Effaith digartrefedd | Gall digartrefedd arwain at fwy o straen, iselder ac unigedd. Mae defnyddio llety gwely a brecwast yn creu costau uchel o ran cyllid y Cyngor a llesiant yr unigolion. |
| Cydweithio â phartneriaid | Os bydd y Cyngor yn methu cydweithio'n llwyddiannus â'r partneriaid ni fydd anghenion rhai o'r bobl yn y gymuned sy'n fwyaf agored i niwed yn cael eu diwallu. |
| Cyrhaeddiad addysgol | Mae yna risgiau i lesiant emosiynol pobl ifanc, eu rhagolygon cyflogaeth, yr economi lleol ac amryw o wasanaethau'r Cyngor os bydd pobl ifanc yn ymadael ag addysg heb gael eu paratoi'n dda ar gyfer cyflogaeth. |

7.11 Ym mis Ebrill 2015 cafodd yr SMT adroddiad ar ddadansoddiad o'r bylchau mewn Iechyd a Diogelwch. Penderfynwyd y dylai'r risg gael ei huwchgyfeirio i'r gofrestr risg gorfforaethol. Mae'r risg yn disgrifio dyletswyddau'r Cyngor ac yn nodi bod yna feysydd y gellir eu gwella mewn rhai trefniadau iechyd a diogelwch.

7.12 Mae ymagwedd y Cyngor at reoli risg yn sicrhau bod y risgiau allweddol yn cael eu hystyried wrth bennu blaenoriaethau, targedau ac amcanion y Cyngor. Ymgorfforir y rhain yng Nghynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau.

7.13 Mae rheolaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chynnal yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad. Yn benodol, mae'r Rheolau ar Weithdrefnau Ariannol a'r Rheolau ar Weithdrefnau Contractau a'r cynllun dirprwyo yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol. Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am sefydlu fframwaith clir ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor ac am sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i'w gweinyddu yn y modd priodol. Fel rhan o'i fframwaith rheoli perfformiad, mae'r Cyngor yn cysylltu'r broses cynllunio strategol â phroses y gyllideb ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'i gilydd, gan hwyluso dyraniad adnoddau i'r blaenoriaethau corfforaethol. Mae'r Prif Swyddogion yn gyfrifol am reolaeth ariannol yn eu priod wasanaethau. Mae gwaith monitro ariannol misol yn cael ei wneud gan y CMB ac mae adroddiadau chwarterol yn cael eu llunio i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. Mae'r gwaith hwn yn llywio gwaith i lunio'r Datganiad Cyfrifon statudol blynyddol.

7.14 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos sylw dyladwy i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Cyhoeddodd ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020 ar 1 Ebrill 2016. Mae'r cynllun yn amlinellu ymagwedd y Cyngor at sicrhau cyfle cyfartal i gwsmeriaid, dinasyddion, preswylwyr ac ymwelwyr gan geisio sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn lle teg a llawn croeso. Mae'r cynllun wedi'i ysgrifennu ar sail yr hyn a wyddom am ein gwasanaethau ac ar farn ac anghenion dinasyddion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r bobl sy'n eu defnyddio. Mae'r Cyngor o dan ddyletswydd i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac aeth yr un mwyaf diweddar i Bwyllgor Cydraddoldebau'r Cabinet ym mis Ionawr 2016. Mae'r adroddiadau blynyddol yn adolygu ac yn myfyrio ar y gwaith blaenorol ac yn amlinellu cynnydd y Cyngor ar bob un o'i amcanion a'i themâu cydraddoldeb. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth ac Uwch-reolwyr y gwasanaethau'n gyfrifol am sicrhau bod y camau yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol yn cael eu cymryd. Mae diweddariadau'n cael eu rhoi i Bwyllgor Cydraddoldebau'r Cabinet ac i Fforwm Cydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr. Mae adroddiadau i bwyllgorau ac i'r Cyngor sy'n gofyn am benderfyniad polisi yn cael eu hategu ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

**8. Egwyddor 5 - Datblygu capasiti a galluoedd Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol (*Bod yn Sefydliad sy'n Dysgu*).**

8.1 Mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau bod gan aelodau a swyddogion y Cyngor y sgiliau, yr wybodaeth a'r capasiti y mae eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae aelodau a staff newydd yn mynd drwy broses ymsefydlu er mwyn dod yn gyfarwydd â phrotocolau, gweithdrefnau, gwerthoedd a nodau'r Cyngor.

8.2 Ceir Strategaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau Etholedig 2012-17, sy'n fframwaith i gefnogi'r aelodau etholedig yn y rolau y mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â nhw yn y Cyngor a'r tu allan iddo. Mae'r Strategaeth yn helpu'r aelodau i ddatblygu a chryfhau eu gallu i fod yn arweinwyr gwleidyddol a chymunedol hyderus ac effeithiol.

8.3 Wrth ymgymryd â'i Asesiad Corfforaethol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gwelodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod aelodau etholedig y Cyngor yn manteisio ar ystod o gyfleoedd a oedd yn eu harfogi â'r sgiliau yr oedd eu hangen i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

8.4 Mae proses arfarnu'r Cyngor yn galluogi unigolion i ddeall sut maen nhw'n cyfrannu at gyrraedd nodau'r Cyngor. Mae arfarniadau'n gyfle i unigolion a'u rheolwr adolygu'r perfformiad, cytuno ar amcanion personol a gofynion dysgu a datblygu, a fydd yn helpu i wireddu'r amcanion hynny. Mae'r arfarniadau'n digwydd rhwng Ionawr a Mehefin bob blwyddyn ac mae'r targedau'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r gwasanaethau a adlewyrchir yn y cynlluniau busnes blynyddol. Ceir Adolygiad Arfarnu Chwe-misol hefyd sy'n nodi'r cynnydd ar dargedau neu unrhyw amcanion ychwanegol y mae angen eu cynnwys.

8.5 Mae'r broses arfarnu hefyd yn ymgorffori cymwyseddau rheoli sy'n adlewyrchu'r mathau o ymddygiad y mae'r Cyngor am eu hybu a'u datblygu. Mae'r rhain yn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r disgwyliadau ac yn helpu i nodi'r anghenion o ran dysgu a datblygu a'r trefniadau rheoli perfformiad. Mae'r system arfarnu'n rhan bwysig o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor.

8.6 Mae'r Rhaglen Datblygu Aelodau'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau bod unrhyw weithgareddau hyfforddi'n briodol, yn berthnasol ac yn amserol.

8.7 Yn 2015-16 cymerodd grŵp aml-blaid o dri aelod etholedig ran yn yr academi arweinyddiaeth a gydlynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a oedd yn cynnwys tri modiwl, gan gynnwys Arwain drwy Berthnasoedd, Arwain Arloesedd a Newid, ac Arweinyddiaeth Gymunedol. Ategodd yr Academi ddatblygiad personol yr aelodau hyn hefyd a hybu gwaith cydweithredol ledled Cymru.

**9. Egwyddor 6 - Ymgysylltu â'r bobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn (*Ymgysylltu ag Eraill*).**

9.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddeall safbwyntiau'r cyhoedd a dysgu oddi wrthyn nhw gan defnyddio'u hadborth i helpu i lunio'n gwasanaethau a'n polisïau. Mae gan y Cyngor becyn ymgynghori ac ymgysylltu i helpu rheolwyr i sicrhau bod gwaith ymgynghori'n gadarn yn ogystal â dilyn Egwyddorion Cenedlaethol Cyfranogiad Cymru ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru, sydd wedi'u mabwysiadau gan y Cyngor. Mae prosesau cynllunio a phenderfynu'r Cyngor wedi'u bwriadu i gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae Strategaeth Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu'r Cyngor yn darparu fframwaith ar gyfer gwaith ymgysylltu'r Cyngor.

9.2 Mae gan y Cyngor Banel Dinasyddion sy'n cynnwys pobl 16 oed a throsodd o bob rhan o'r fwrdeistref sirol. Mae aelodau'r panel yn cytuno i gymryd rhan mewn tri neu bedwar arolwg y flwyddyn ynghylch ystod o faterion ynglŷn â gwasanaethau a pholisïau'r cyngor. Cyn hyn, mae aelodau'r Panel Dinasyddion wedi rhoi eu barn am ystod o dopigau gan gynnwys glendid y strydoedd, gwasanaeth i gwsmeriaid a'r strategaeth tai leol. Mae hyn wedi helpu'r Cyngor i ddeall barn y trigolion am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ac i wella pethau yn y dyfodol.

9.3 Yn ystod 2015-16, ymgynghorodd y Cyngor ar ystod eang o faterion gan gynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr yn cynnwys popeth):

- Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr (Blaenoriaethau Corfforaethol ac adolygu'r MTFS);
- Parcio â bathodyn glas;
- Teithio llesol 2015;
- Adolygiad gwastraff cartrefi ac ailgylchu;
- Amryw o gynigion ynghylch ysgolion.

Yn yr ymgynghoriad ynghylch Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr cafwyd 15 o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol ledled y fwrdeistref sirol, arolwg ar-lein a'r cyfle i ddefnyddio efelychydd cyllidebau a gasglodd farn y cyhoedd am sut i sicrhau'r arbedion yn y gyllideb y mae eu hangen dros holl gyfnod yr MTFS.

Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hybu ei wasanaethau ac ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys sesiynau holi ac ateb a thrafodaethau cyson fel rhan o ymarferion ymgynghori i gasglu adborth dinasyddion. Mae hyn wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus fel rhan o ymgynghoriadau ar "adolygu gwastraff cartrefi ac ailgylchu" a "Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr".

9.4 Mae gan y Cyngor weithdrefn cwynion corfforaethol ac mae'n defnyddio hon i ddod o hyd i feysydd lle nad yw ansawdd y gwasanaeth yn foddhaol, ac i gymryd camau i'w gwella. Gall cwynion gael eu gwneud yn electronig neu mewn ysgrifen ac mae'r

Cyngor wedi gosod targedau amser o ran ymateb i bob cwyn sy'n dod i law, er mwyn sicrhau atebolrwydd.

9.5 Mae holl gyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd ac eithrio pan fydd materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod. Mae'r holl agendâu, adroddiadau a chofnodion cyhoeddus ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau defnyddio cyfleuster gweddarlledu sy'n darparu llif byw ac archif ar gyfer y cyfarfodydd hynny y bernir eu bod o fudd allweddol i'r cyhoedd.

9.6 Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bellach) yn cyfuno cynrychiolwyr o sefydliadau ar draws ystod o wasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gydweithio i wella ansawdd bywyd pobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dyma aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ystod y flwyddyn:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
- Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr
- Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Heddlu De Cymru
- Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir
- Llywodraeth Cymru

Yn ystod 2015-16, ymgynghorodd yr LSB yn eang â phlant, pobl ifanc a dinasyddion lleol. Diben yr ymgynghori hwn oedd canfod pam roedd trigolion rhai ardaloedd yn teimlo'n llai diogel ac yn llai o ran o'u cymunedau ac o'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu nag eraill, ac wedyn ceisio gweithio gyda'r cymunedau hynny i ddatblygu gweithgareddau ac i lywio'r modd yr oedd y gwasanaethau'n cael eu cyflwyno, er mwyn mynd i'r afael â hyn. Cafodd pob myfyriwr o oedran ysgol uwchradd yn y fwrdeistref gyfle i gymryd rhan drwy eu gwersi TGCh. Ymatebodd dros 3000 o fyfyrwyr. Helpodd yr arolwg i ddod o hyd i'r ddwy gymuned yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr a deimlai'n lleiaf rhan o bethau. Mae rhagor o ymgynghori â'r ddwy gymuned hyn wedi dechrau.

Bydd ymglymiad dinasyddion yn dal yn un o nodweddion allweddol gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn ac a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2016.

9.7 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) y cydsyniad brenhinol ar 29 Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob awdurdod lleol, gan ddisodli'r Byrddau Gwasanaethau Lleol o 1 Ebrill 2016 ymlaen.

Pedwar aelod statudol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr yw:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

9.8 Yn y flwyddyn gyntaf, prif ffocws y PSB fydd y gofyniad statudol bod rhaid cyhoeddi'r Asesiad o Lesiant Lleol erbyn Ebrill 2017. Bydd y PSB hefyd yn gyfrifol am weithredu Sir Pen-y-bont Ynghyd, sef y Cynllun Partneriaeth Integredig Sengl ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, nes iddo gyhoeddi ei Gynllun Llesiant ym mis Ebrill 2018.

9.9 Yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2016-17 i 2019-20, dywedir bod dros 10% o'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodwyd dros y cyfnod o bedair blynedd yn deillio o gydweithio a Thrawsnewid gwasanaethau. Roedd y Cyngor wedi cytuno'n ddiweddar y dylai cydweithio ganolbwyntio ar brosiectau a oedd â'r potensial i greu'r fantais fwyaf, i wneud cyfraniad pendant at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ac arwain at fuddion pendant i'r gwasanaethau.

**10. Adolygiad o Effeithiolrwydd**

10.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethiant, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol a'r gofynion ynglŷn â llywodraethiant yn Natganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2010). Mae hyn yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol a'r prif swyddogion yn y Cyngor sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd rheoli mewnol. Mae'r Cyngor hefyd yn cael sicrwydd ynghylch ei drefniadau llywodraethiant o ffynonellau allanol ac yn benodol yr adran Archwilio Mewnol, archwilwyr allanol a rheoleiddwyr allanol eraill.

10.2 Mae'r elfennau a ganlyn yn allweddol i'r Cyngor wrth iddo fonitro ac adolygu ei lywodraethiant:

- Y Cyfansoddiad, sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn er mwyn sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i'r bobl leol. Mae hefyd yn cynnwys y Codau Ymddygiad i aelodau a gweithwyr.

- Y Cabinet (yn rhinwedd ei swydd fel Pwyllgor Gwaith) sy'n gyfrifol am ystyried y rheolaeth ariannol a'r rheolaeth berfformiad yn gyffredinol ac sy'n cael adroddiadau cynhwysfawr yn rheolaidd. Mae'r Cabinet yn gyfrifol hefyd am benderfyniadau allweddol ac am ddechrau cymryd camau cywiro ynglŷn â risg a materion rheolaeth fewnol.

- Y swyddogaeth graffu sy'n dwyn y Cabinet i gyfrif. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a Gwella sy'n gyfrifol am gadw trosolwg ar y perfformiad ariannol gan gynnwys gwerth am arian. Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau a Llywodraethiant yn cadw trosolwg ar faterion trawsbynciol. Yn ôl Cylch Gorchwyl y Pwyllgor mae'n gyfrifol am ystyried polisïau a strategaethau'r Cyngor ynghylch trefniadau cydweithio a threfniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Bydd Cadeiryddion y Pwyllgorau'n cydgysylltu â'i gilydd i sicrhau gwaith craffu effeithiol ar bynciau cydweithio, er mwyn sicrhau bod y rhaglenni gwaith yn cael eu cydlynu i atal dyblygu.

- Y Pwyllgor Archwilio sy'n cynnig ffocws ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Seilir hyn yn bennaf ar adolygu gwaith yr Archwilwyr Mewnol a chael adroddiadau gan archwilwyr allanol y Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn gan roi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor ynghylch effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol a materion llywodraethiant.

10.3 Mae gofynion ychwanegol ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys:

- ethol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio gan y Pwyllgor Archwilio ei hun yn hytrach na'i benodi gan y Cyngor;
- y gofyniad bod rhaid i Bwyllgor Archwilio gynnwys o leiaf un aelod lleyg, cynrychiolydd proffesiynol heb gysylltiadau â'r awdurdod sy'n gallu helpu yn rôl y Pwyllgor Archwilio. Mae nifer yr aelodau lleyg y mae eu hangen i helpu'r pwyllgor yn cael ei adolygu'n gyson;
- penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

10.4 Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i sicrhau bod gan bob aelod (gan gynnwys yr aelod lleyg) gyfle i sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o'i rôl. Ym mis Chwefror 2016, cynigiwyd hyfforddiant i bob aelod etholedig ynghylch Rheoli'r Trysorfa i'w helpu i graffu ar Strategaeth Rheoli Trysorfa flynyddol y Cyngor. Cydnabuwyd effeithiolrwydd yr hyfforddiant i aelodau yn arolygiad diweddaraf Estyn a nododd fod yr hyfforddiant a ddarperid ar gyfer yr aelodau etholedig i gynyddu eu dealltwriaeth a'u gallu i holi data i'w galluogi i herio perfformiad y Gyfarwyddiaeth Plant ac ysgolion wedi cael derbyniad da.

10.5 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu model CLlLC o ddisgrifiadau rolau pob aelod a chadeirydd pwyllgor gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio. Mae'r rhain wedi'u haddasu i adlewyrchu'r rolau penodol sy'n cael eu chwarae yn y Cyngor. Mae'r disgrifiadau rôl yn rhan o'r broses Adolygu Datblygiad Personol sy'n galluogi'r aelodau i ddeall eu rolau'n well, myfyrio ar sut maen nhw wedi cyflawni eu dyletswyddau yn y flwyddyn flaenorol a nodi unrhyw gymorth neu hyfforddiant arall y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd hyn yn cynyddu gallu aelodau'r Pwyllgor Archwilio i ddadansoddi, monitro a herio perfformiad effeithiol y Cyngor.

10.6 Mae swyddogaethau'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu yn ddull arall ar gyfer adolygu a herio unrhyw faterion a all effeithio ar y system rheolaeth fewnol. Mae'r Pwyllgorau Craffu'n sefydlu paneli Ymchwilio ac Arfarnu (gan gynnwys er mwyn adolygu cynigion cyllideb); mae'r rhain yn adolygu meysydd penodol yng ngwaith y Cyngor ac yn gwneud argymhellion i'r Cabinet ynghylch gwella.

10.7 Mae'r adran Archwilio Mewnol hefyd yn cynnig sicrwydd annibynnol a gwrthrychol. Mae'n mynd ati'n barhaus i archwilio gwasanaethau'r Cyngor sy'n cael eu hasesu a'u blaenoriaethu yn ôl y risg gymharol. Mae'r asesiad risg hwn yn defnyddio'r risgiau corfforaethol a'r risgiau i'r gwasanaeth a nodir fel rhan o'r broses o gynllunio gwasanaethau. Yn ystod 2015-16, wrth gyflawni ei dyletswyddau, bu'r adran Archwilio Mewnol y gweithio yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Mae'r PSIAS yn gymwys i bob rhan o sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig ac mae wedi'i seilio ar Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (CIIA). Ymgymerodd pennaeth yr adran Archwilio Mewnol a hunanasesiad i ddangos i ba raddau yr oedd y Gwasanaeth Cyffredin Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r PSIAS ac i ddod o hyd i feysydd lle roedd angen rhagor o waith er mwyn dangos ei fod yn cydymffurfio. Mae Archwilwyr Allanol y Cyngor wedi gwneud asesiad pen desg yn ddiweddar o'r gwaith cydymffurfio gan nodi mewn adroddiad llafar fod y Gwasanaeth Cyffredin Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r gofynion. Yn unol â'r Safonau ac yn ystod 2016-17, bwriedir i'r Gwasanaeth Cyffredin gael asesiad allanol, y cytunwyd arno gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

10.8 Cwblhaodd yr adran Archwilio Mewnol raglen o adolygiadau yn unol â'r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2015-16. Fel rhan o'r broses arferol o lunio adroddiadau archwilio, cafodd argymhellion eu gwneud a'u cytuno gyda'r prif swyddogion perthnasol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai effeithio ar y system rheolaeth fewnol. Mae'r trefniadau ynglŷn ag archwilio mewnol yn galluogi'r Prif Archwilydd Mewnol i roi barn ar y rheolaeth fewnol, y rheolaeth risg a'r trefniadau llywodraethiant. Yn ychwanegol, mae'r adran Archwilio Mewnol yn ymchwilio i dwyll ac yn rhagweithiol mewn gwaith canfod twyll. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r amgylchedd rheoli mewn meysydd lle mae twyll neu afreoleidd-dra wedi bod. Mae adroddiadau am wendidau o bwys yn yr amgylchedd rheoli a welir gan yr archwilwyr mewnol yn cael eu cyflwyno i'r uwch-reolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet fel y bo'n briodol.

10.9 Ar sail y gwaith archwilio a wnaed am y flwyddyn, daeth y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad y bernir bod fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yn rhesymol ac nad oedd gwendidau trawsbynciol arwyddocaol yn y rheolaeth fewnol a gâi effaith ar Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol y Cyngor. Er hynny, fe nododd rai gwendidau a gwneud cyfanswm o 58 o argymhellion, y mae'r rheolwyr wedi rhoi sicrwydd ysgrifenedig y cânt eu rhoi ar waith.

10.10 Nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i egwyddorion llywodraethiant da ac o ganlyniad i hynny ei fod wedi mabwysiadu Cod Llywodraethiant Corfforaethol (COCG) ffurfiol am y chwe blynedd diwethaf. Yn 2015-16, gwelwyd bod rheolaeth ariannol y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch llywodraethiant yn Natganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2010).

10.11 Mae'r Cyngor yn destun rhaglen flynyddol o archwiliadau allanol annibynnol ac arolygiadau statudol sy'n cyflwyno adroddiadau ar lywodraethiant, perfformiad a threfniadau cyfrifydda'r Cyngor. Yn ystod 2015-16 cafwyd dau ddarn arall o waith asesu ynglŷn â'r Cyngor, ill dau wedi'u gwneud ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, sef yr Asesiad Gwytnwch Ariannol a'r Asesiad Corfforaethol.

10.12 Cynhaliwyd yr Asesiad Gwytnwch Ariannol yn ystod Mai i Hydref 2015 gan hoelio sylw ar gynlluniau arbedion 2014-15 a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16. Ystyriodd yr asesiad a oedd gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau a chynnal ei wytnwch ariannol yn y tymor canolig (sef y cyfnod nesaf o dair i bum mlynedd fel rheol). Er y gall fod mwy o sicrwydd i'r Cyngor mewn cylch blynyddol, mae pwysau ariannol yn creu effaith y tu hwnt i gyfnod y setliad presennol. Wrth ffurfio'u barn, ystyriodd yr archwilwyr dystiolaeth o ymagwedd y Cyngor at reoli ei gyllid yn y gorffennol diweddar a thros y tymor canolig. Hoeliodd y gwaith sylw ar ateb y cwestiwn hwn: Ydy CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn rheoli gostyngiadau yn y gyllideb yn effeithiol er mwyn sicrhau gwytnwch ariannol? Ystyriwyd hefyd a oedd :

- y trefniadau cynllunio ariannol yn ategu gwytnwch ariannol yn effeithiol;
- y rheolaeth ariannol yn ategu gwytnwch ariannol yn effeithiol;
- y llywodraethiant ariannol yn ategu gwytnwch ariannol yn effeithiol.

At ei gilydd, daeth yr asesiad i'r casgliad bod y Cyngor yn wynebu heriau ariannol arwyddocaol, ond bod ei drefniadau presennol ar gyfer sicrhau gwytnwch ariannol yn gadarn.

10.13 Diben yr Asesiad Corfforaethol oedd rhoi datganiad sefyllfa ar gapasiti a gallu'r awdurdod gwella i sicrhau gwelliannau parhaus. Ystyriodd hefyd hanes yr awdurdod mewn perfformiad a deilliannau yn ogystal ag edrych ar y trefniadau

allweddol yr oedd eu hangen er mwyn cynnal gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau. Canolbwyntiodd y gwaith maes ar i ba raddau yr oedd y trefniadau'n cyfrannu at sicrhau gwell perfformiad a deilliannau yn y gwasanaeth i ddinasyddion. Ceisiodd yr Asesiad Corfforaethol ateb y cwestiwn hwn, "Ydy'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a gwell deilliannau i'r dinasyddion?"

O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn datblygu cynlluniau priodol at y dyfodol a'i fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad hwn am fod y Cyngor:

- wrthi'n ymgynghori ar themâu strategol allweddol a fwriedid i wella'i ffocws ar flaenoriaethau at y dyfodol;
- wedi sefydlu trefniadau llywodraethiant effeithiol i ategu gwelliannau a sbarduno newid;
- wedi sefydlu trefniadau rheoli perfformiad a oedd yn sbarduno gwelliannau mewn meysydd gwasanaeth allweddol, ond bod y ffordd y cyflwynir yr arfarniad perfformiad yn anghyson;
- wedi sefydlu trefniadau cryf ar gyfer rheoli arian ac asedau ond nad oedd y Cyngor eto wedi sefydlu gweledigaeth ar gyfer y modd y câi gwasanaethau adnoddau dynol a TGCh eu cyflwyno yn y dyfodol; ac
- yn cydweithio ar draws ystod eang o weithgareddau ac er ei fod yn gallu enwi deilliannau gwell o rai o'r gweithgareddau nad oedd eto'n gallu cloriannu effaith gweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

10.14 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n cyflwyno adroddiad ar bob cyngor yng Nghymru o ran nifer y cwynion sy'n dod i law ac sy'n cael eu hymchwilio. Ym mis Awst 2015 cafodd y Cyngor ei Lythyr Blynyddol ar gyfer 2014-15. Nododd y llythyr ostyngiad yn nifer y cwynon a gafwyd, sef 33 yn 2014-15 o'i gymharu â 39 yn 2013-14. Y ffigur cymaradwy o ran cyfartaledd yr awdurdodau lleol oedd 42 ar gyfer 2014-15 (40 ar gyfer 2013-14). Ni ddechreuodd yr Ombwdsmon unrhyw ymchwiliadau yn 2014-15. Er bod gostyngiad wedi bod yn nifer y cwynion ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, nododd y llythyr fod cynnydd wedi bod yn y cwynion ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Cyhoeddodd yr Ombwdsmon un adroddiad lle cafodd cwyn ei "chadarnhau" ond ni chafodd Atebion Sydyn na Setliadau Gwirfoddol eu cofnodi yn ystod y flwyddyn.

10.15 Daeth adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr 2014-15 i'r casgliad bod y Cyngor yn parhau'n realistig ynghylch yr heriau sy'n dod yn sgil yr angen i gyflwyno gwasanaethau sy'n gwella yng nghyd-destun adnoddau ariannol sy'n lleihau. Mae hyn wedi cyflymu'r ymdrech tuag at well effeithlonrwydd, gwella gwaith partneriaeth strategol, gwasanaethau mwy integredig ac ymrwymiad cynyddol i gomisiynu rhanbarthol sy'n gyson â'r paratoadau ar gyfer y ddeddf newydd, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nododd yr adolygiad fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ym mis Ionawr 2015, wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb fel rheolwr llinell dros wasanaethau cymdeithasol i blant a'r rheolaeth linell gyffredinol dros amddiffyn plant. Yn ychwanegol, mae penodi pennaeth newydd ar yr adran gofal cymdeithasol i oedolion wedi creu rhagor o gapasiti arwain ar gyfer heriau'r Cyngor.

Nododd AGGCC fod rhaglen ailfodelu a Thrawsnewid y Cyngor yn yr adran gofal cymdeithasol i oedolion yn dal i gynnig y sail ganolog ar gyfer cryfhau agenda atal a llesiant ledled Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn rhanbarthol ar draws menter gydweithredol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin (Bae'r Gorllewin). Nodwyd nifer o feysydd penodol i fynd ar eu hôl a'u gwella yng nghorff yr adroddiad

hwn. O ran gwasanaethau cymdeithasol i oedolion roedd hyn yn cynnwys gwaith parhaus i weithredu newidiadau yn y gwasanaethu yn barod ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r cynnydd a wnaed tuag at roi model gofal ychwanegol ar waith, yn ogystal â dod â'r gwasanaeth nyrsys ardal i mewn i'r ganolfan rheoli atgyfeiriadau integredig.

Nododd yr adroddiad hefyd y cynnydd a oedd wedi'i wneud mewn gwasanaethau cymdeithasol i blant, sef yn bennaf lleihau nifer y plant a oedd yn derbyn gofal a chyflwyno canolfannau diogelu. Roedd y meysydd i'w gwella'n cynnwys perfformiad a deilliannau yn sgil adolygiadau, ailddylunio'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth ac ymddygiad anodd a oedd yn derbyn gofal, monitro'r gyfradd ailgyfeirio a monitro'r Strategaeth ar gyfer gostwng nifer y plant a oedd yn derbyn gofal. Cydnabuwyd y gefnogaeth wleidyddol gryfach, gan fod gan y Cyngor ddau aelod cabinet dros y gwasanaethau, y naill ar gyfer plant a'r llall ar gyfer oedolion.

10.16 Ym mis Hydref 2012, cynhaliodd Estyn arolygiad mawr o ansawdd y gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc Pen-y-bont ar Ogwr. Nododd yr adroddiad fod gan y Cyngor fwy o gryfderau nag o feysydd i'w gwella, ond daeth i'r casgliad bod y Cyngor yn perthyn i'r categori ar gyfer gwaith dilynol. Cafwyd ymweliadau dilynol ym mis Mawrth a Rhagfyr 2014. Daeth Estyn i'r casgliad yn ei lythyr i'r Cyngor ym mis Ionawr 2015 ei fod o'r farn bod y Cyngor wedi gwneud digon o gynnydd ynglŷn â'r argymhellion yn sgil yr arolygiad ym mis Hydref 2012 a bod Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru o'r farn felly nad oedd angen i Estyn fonitro'r awdurdod mwyach a'i fod yn codi'r angen am ragor o waith dilynol.

## 11. Materion Llywodraethiant Arwyddocaol

11.1 Ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, mae cynghorau lleol yn wynebu heriau sydd heb eu gweld o'r blaen yn sgil gostyngiadau yn y cyllid oddi wrth y Llywodraeth a chynnydd yn y galw am wasanaethau hanfodol. Rhwng 2016-17 a 2019-20, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd rhaid gwneud gostyngiadau yn y gyllideb o £35.5 miliwn. Mae toriadau o'r maint hwn yn y gyllideb yn gryn her a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd llawer o benderfyniadau anodd ynghylch pa wasanaethau a all gael eu cynnal. Bydd yn golygu na fydd "busnes yr un fath ag arfer" yn ddigon, waeth pa mor dda y bo'r rheoli. Yr her yw ystyried modelau darparu eraill ar gyfer gwasanaethau ar draws y Cyngor a bydd hyn yn hanfodol er mwyn lleddfu effaith toriadau a helpu i barhau i ddarparu'r gwasanaethau sydd â blaenoriaeth. Wrth i'r Cyngor barhau i weld ei adnoddau'n crebachu, cynnydd yn y galwadau a dulliau darparu newydd ac arloesol, mae angen sicrhau bod yr amgylchedd rheoli, gan gynnwys llywodraethiant a rheoli risg, yn parhau'n gadarn, yn gymesur ac mor effeithlon ac effeithiol ag y bo modd.

11.2 Mae'r Cyngor yn dal yn ddiysgog yn ei ymrwymiad i wella a dod o hyd i ffyrdd i ddarparu gwasanaethau lleol, gan sicrhau gwell deilliannau i'r trigolion a sicrhau arbedion a fydd yn sicrhau y gall gyflwyno cyfres o gyllidebau cytbwys.

11.3 Ar sail y gwaith archwilio mewnol ac allanol a gwblhawyd ar gyfer y flwyddyn 2015-16 does dim materion rheoli trawsbynciol arwyddocaol a fyddai'n effeithio ar Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol y Cyngor. Mae'r gwendidau a welwyd yn benodol i wasanaethau ac mae'r argymhellion a wnaed er mwyn gwella'r amgylchedd rheoli cyffredinol wedi'u derbyn ac yn cael eu rhoi ar waith neu i'w rhoi ar waith.

**12. Ardystio'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol**

Bydd camau i fynd i'r afael â'r materion a cyfeirir atynt yn adran 11 uchod ac i'w lliniaru yn cael eu cymryd er mwyn gwella ymhellach ar ein trefniadau llywodraethiant.

**Llofnod:**

**Swyddog Adran 151**……………………………………**Dyddiad** 29/09/16

**Prif Swyddog Gweithredol**……………………………………**Dyddiad** 29/09/16

**Arweinydd y Cyngor**……………………………………**Dyddiad** 29/09/16

# Datganiad Polisïau Cyfrifydda

## 1. Egwyddorion cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2016. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn unol ag arferion cyfrifydda priodol. Mae'r arferion hyn ar gael yn y *Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y Cod) 2015-16 a *Chod Ymarfer Adroddiadau ar Wasanaethau* a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Cost hanesyddol yn bennaf yw'r confensiwn cyfrifydda a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon, wedi'i addasu drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

## 2. Croniadau incwm a gwariant

Cyfrifir am y gweithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, ac nid pan fydd taliadau arian yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Yn benodol:

- Mae refeniw o werthu nwyddau'n cael ei gydnabod pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo risgiau a gwobrau arwyddocaol y berchnogaeth i'r prynwr a phan fo'n debyg y bydd y buddion economaidd neu'r potensial ar gyfer gwasanaeth sy'n perthyn i'r trafodiad yn llifo i'r Awdurdod.
- Mae refeniw o ddarparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod pan all y Cyngor fesur, yn ddibynadwy, y ganran o'r trafodiad sydd wedi'i chwblhau a phan fo'n debyg y bydd y buddion economaidd neu'r potensial ar gyfer gwasanaeth sy'n perthyn i'r trafodiad yn llifo i'r Awdurdod.
- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan geir bwlch rhwng y dyddiad y daw cyflenwadau i law a'r dyddiad y cânt eu defnyddio, maen nhw'n cael eu cario fel stoc ar y Fantolen.
- Mae treuliau ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu derbyn (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gwn weithwyr y Cyngor) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan gaiff y gwasanaethau eu derbyn yn hytrach na phan gaiff y taliadau eu gwneud.
- Cyfrifir llogau sydd i ddod i law ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau fel incwm a gwariant yn y drefn honno ar sail y gyfradd log berthnasol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach nag ar sail y llifoedd arian a bennwyd neu y penderfynwyd arnynt gan y contract.
- Pan fo incwm a gwariant wedi'u nodi ond nad oes arian parod wedi dod i law neu wedi'i dalu, mae dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen. Os oes amheuaeth na fydd dyledion yn cael eu talu, mae balans y dyledwyr yn cael ei ysgrifennu ac mae tâl yn cael ei godi ar refeniw ar gyfer yr incwm na fydd yn cael ei gasglu.

## 3. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Annisgwyl ac Asedau Annisgwyl

Darpariaethau

Mae darpariaethau'n cael eu gwneud pan fo digwyddiad wedi bod sy'n gosod y Cyngor o dan rwymedigaeth y mae'n debyg y bydd angen ei setlo drwy drosglwyddo buddion economaidd, ond lle nad yw amser y trosglwyddo'n sicr. Er enghraifft, gallai'r Cyngor fod yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at setliad neu at dalu iawndal.

Mae darpariaethau'n cael eu codi fel traul ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a'u mesur ar sail yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant sy'n angenrheidiol er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd y risgiau a'r ansicrwydd perthnasol i ystyriaeth.

Pan fydd taliadau'n cael eu gwneud yn y pen draw, maen nhw'n cael eu codi ar y ddarpariaeth a drefnwyd yn y fantolen. Adolygir amcangyfrifon o setliadau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a phan ddaw'n debycach na fydd angen trosglwyddo buddion economaidd (neu pan wneir setliad is na'r disgwyl), mae'r ddarpariaeth yn cael ei gwrth-droi a'i chredydu'n ôl i'r cyfrif refeniw perthnasol.

Pan ddisgwylir i barti arall dalu rhan neu'r cyfan o'r taliad sy'n angenrheidiol er mwyn setlo darpariaeth (e.e. yn sgil hawliad yswiriant), dim ond os yw hi bron iawn yn sicr y daw'r ad-daliad i law os bydd y Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth y bydd hyn yn cael ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol.

Rhwymedigaethau Annisgwyl

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Cyngor na fydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau ond os ceir, neu os na cheir, digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o dan reolaeth lwyr yr awdurdod. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi hefyd o dan amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debyg y bydd angen defnyddio adnoddau neu nad oes modd mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd ddibynadwy.

Nid yw rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ond maen nhw'n cael eu datgelu mewn nodyn ar y cyfrifon.

Asedau Annisgwyl

Mae ased digwyddiadol yn codi pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi ased posibl i'r Cyngor na fydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau ond os ceir, neu os na cheir, digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o dan reolaeth lwyr y Cyngor.

Nid yw asedau digwyddiadol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ond maen nhw'n cael eu datgelu mewn nodyn ar y cyfrifon pan fo'n debyg y bydd buddion economaidd neu botensial ar gyfer gwasanaeth yn llifo i mewn.

**4. Cronfeydd wrth gefn**

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol yn gronfeydd wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol neu i dalu am ddigwyddiadau. Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu creu drwy ddyrannu symiau allan o Gronfa Balans y Cyngor yn y Datganiad ar Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan ysgwyddir gwariant sydd i'w ariannu o gronfa wrth gefn, mae'n cael ei godi ar gyfrif refeniw'r gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Wedyn mae'r gronfa wrth gefn yn cael ei dyrannu'n ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oes tâl net yn erbyn y cyfrif refeniw ar gyfer y gwariant.

Mae cronfeydd penodol yn cael eu cadw i reoli prosesau cyfrifydda ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, buddion i weithwyr a buddion ymddeol ac nid yw'r cronfeydd hyn yn gyfystyr ag adnoddau defnyddiadwy i'r Cyngor. Ceir rhagor o esboniad ar y cronfeydd hyn yn y polisïau perthnasol.

**5. Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau**

P'un a ydyn nhw'n cael eu talu ar gyfrif, fesul rhandaliad neu yn ôl-syllol, mae Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd partïon yn cael eu cydnabod fel taliadau syn ddyledus i'r Cyngor pan geir sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau ynglŷn â'r taliadau, ac
- y daw'r grant / cyfraniad i law.

Nid yw symiau a gydnabyddir fel symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael eu credydu i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant nes bod yr amodau ynglŷn â'r grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni. Mae amodau'n ofynion sy'n pennu bod gofyn i'r buddion economaidd at y dyfodol neu'r potensial ar gyfer gwasanaeth a ymgorfforir yn yr ased a geir drwy ddefnyddio'r grant neu'r cyfraniad gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y'u pennir, neu mae'n rhaid i'r buddion economaidd at y dyfodol neu'r potensial ar gyfer gwasanaeth gael eu dychwelyd i'r trosglwyddwr.

Mae arian a roddir fel grantiau a chyfraniadau y mae'r amodau ynglŷn â nhw heb eu bodloni yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fydd yr amodau wedi'u bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu clustnodi a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

Pan gaiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, maen nhw'n cael eu gwrth-droi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Os yw'r grant heb ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, mae'n cael ei osod yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio. Os yw wedi'i ddefnyddio, mae'n cael ei osod yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae symiau yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ar ôl cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

## 6. Buddion Gweithwyr

Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion byrdymor gweithwyr yw'r rhai sydd i fod i gael eu setlo cyn pen 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn. Maen nhw'n cynnwys buddion fel cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol â thâl, absenoldeb salwch â thâl a bonysau i weithwyr cyfredol ac maen nhw'n cael eu cydnabod fel traul ar wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r Cyngor. Mae croniad yn cael ei wneud ar gyfer cost hawl gwyliau a enillir gan weithwyr ond nad yw'n cael ei chymryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac y caiff y gweithwyr ei chario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r croniad yn cael ei godi ar y Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond ei wrth-droi wedyn drwy gyfrwng y Datganiad ar Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel bod buddion gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau yn digwydd ynddi.

Buddion Terfynu Swydd

Buddion terfynu swydd yw'r symiau sy'n daladwy ar ôl penderfyniad yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad gan y swyddog i dderbyn o'i wirfodd fod ei swydd yn dod i ben ac fe'u codir ar sail croniadau ar y llinell Costau Heb eu Dosbarthu yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant pan fydd modd dangos bod y Cyngor wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu wedi ymrwymo i gynnig i annog swyddogion i dderbyn o'u gwirfodd fod eu swyddi'n dod i ben.

Pan fo buddion terfynu swydd yn golygu gwella pensiynau, mae'r darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r swm sy'n daladwy i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn gan yr Awdurdod gael ei godi ar Falans Cronfa'r Cyngor, ac nid y swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifydda perthnasol. Yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cyfrifon, mae'n ofynnol i ddyraniadau gael eu gwneud i'r Gronfa Bensiwn ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu ar ffurf gwelliannau pensiwn, gan osod yn lle'r rhain ddebydau am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddion ar ôl Cyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn gwahanol. Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion sydd wedi'u diffinio i'r aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), sy'n cael eu hennill wrth weithio i'r Cyngor.

- *Cynllun Pensiwn yr Athrawon*, a weinyddir gan Teachers' Pensions ar ran yr Adran Addysg (DfE). Mae trefniadau'r cynllun hwn yn golygu nad oes modd i'r rhwymedigaethau ar gyfer y buddion gael eu nodi'n unswydd ar gyfer yr Awdurdod. Gan hynny, mae'r cynllun yn cael ei gyfrif fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig a does dim rhwymedigaeth ar gyfer talu buddion yn y dyfodol yn cael ei gydnabod yn y Fantolen. Mae cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy i Teachers' Pensions yn ystod y flwyddyn yn cael eu codi ar y llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

- *Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol* – mae'r gweithwyr eraill yn aelodau o Gronfa Cynllun Pensiwn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrif fel pe bai'n gynllun buddion diffiniedig:-
- Mae rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull unedau amcanestynedig, sef asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir ar gyfer buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, ar sail rhagdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, etc ac amcanestyniadau o ddarpar enillion y gweithwyr presennol.
- Mae'r rhwymedigaethau'n cael eu disgowntio i'w gwerth yn ôl y prisiau presennol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt.
- Mae asedau'r gronfa bensiwn sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:-
  - i. Gwarannoedd wedi'u dyfynnu – pris y cynnig cyfredol
  - ii. Gwarannoedd heb eu dyfynnu – amcangyfrif proffesiynol
  - iii. Eiddo – gwerth y farchnad
- Mae'r newid yn y rhwymedigaeth bensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul cydrannau fel a ganlyn:-
  - iv. Cost y gwasanaeth cyfredol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – sy'n cael ei dyrannu yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant i'r gwasanaethau yr oedd y gweithwyr yn gweithio iddynt
  - v. Cost gwasanaeth y gorffennol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygiad neu gwtogiad yn y cynllun y mae ei effaith yn ymwneud â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn y blynyddoedd blaenorol – sy'n cael ei debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant fel rhan o'r Costau Heb eu Dosbarthu
  - vi. Llog net ar y rhwymedigaeth (ased) fuddiol ddiffiniedig net, hynny yw cost y llog net i'r awdurdod – y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth (ased) fuddiol ddiffiniedig net sy'n codi yn sgil treigl amser ac a godir ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant – cyfrifir hyn drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth (ased) fuddiol ddiffiniedig ar ddechrau'r cyfnod – gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth (ased) fuddiol ddiffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i'r cyfraniadau a'r buddion a dalwyd.
  - vii. Ailfesuriadau sy'n cynnwys:-

- yr enillion ar asedau'r cynllun – heb gynnwys symiau a gynhwysir yn y llog net ar y rhwymedigaeth (ased) fuddiol ddiffiniedig – sy'n cael eu codi ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn ac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
- enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth bensiwn net sy'n codi am fod digwyddiadau heb gyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaed adeg y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am fod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau – sy'n cael eu codi ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
  - viii. Cyfraniadau i'r gronfa bensiwn – arian parod sy'n cael ei dalu fel cyfraniad y cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel traul.

- O ran buddion ymddeol, mae'r darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r swm sy'n daladwy i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn gan y Cyngor gael ei godi ar Falans Cronfa'r Cyngor, ac nid y swm a gyfrifir yn ôl y

safonau cyfrifydda perthnasol. Yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cyfrifon, mae hyn yn golygu bod yna drosglwyddiadau i'r Gronfa Bensiwn ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol, gan osod yn lle'r rhain ddebydau am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel hyn yn mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod cyfrif buddion ymddeol ar sail llifoedd arian yn hytrach nag ar ffurf buddion sydd wedi'u hennill gan y gweithwyr.

- Mae gan y Cyngor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud taliadau dewisol ar gyfer buddion ymddeol os ceir ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod staff (gan gynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i wneud y dyfarniad a chyfrifir y rhain gan ddefnyddio'r un polisïau ag a ddefnyddir ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 7. TAW

Nid yw incwm a gwariant yn cynnwys unrhyw symiau sy'n ymwneud â TAW, gan fod yr holl TAW a gesglir yn daladwy i adran Tollau a Chyllid Ei Mawrhydi a chan fod yr holl TAW a delir yn gallu cael ei hadennill oddi wrth yr adran honno.

## 8. Gorbenion a gwasanaethau cymorth

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cymorth yn cael eu codi ar wasanaethau sy'n manteisio ar y cyflenwad neu'r gwasanaeth yn unol â'r egwyddorion ar gostio yn y *Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Wasanaethau 2015-16 (SeRCOP*) gan CIPFA. Ar gyfer 2015-16, mae'r rhan fwyaf o gostau gwasanaethau cymorth wedi'u dyrannu yn ôl amryw o ddulliau. Y pwysicaf ymhlith y rhain yw:

- defnydd gwirioneddol y gwasanaeth cymorth
- amcangyfrifon o leoliad y staff, a'r rheiny wedi'u hategu weithiau gan systemau ffurfiol i gofnodi amser
- dyraniadau wedi'u seilio ar symiau ariannol neu ffisegol perthnasol (e.e. niferoedd gweithwyr, nifer y llwythi a ddosbarthwyd etc)

Nid yw gwasanaethau cymorth a ddiffinnir fel y Craidd Corfforaethol a Democrataidd a Chostau Heb eu Dosbarthu i'w codi ar wasanaethau uniongyrchol yn unol â *SeRCOP*.

- Mae'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd yn gostau sy'n ymwneud â statws y Cyngor fel sefydliad democrataidd aml-swyddogaeth.
- Costau heb eu dosbarthu yw costau'r buddion dewisol a ddyfernir i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar ac unrhyw golledion am amhariad sydd i'w codi ar Asedau a Gedwir i'w Gwerthu.

Mae'r ddau gategori hyn wedi'u diffinio yn *SeRCOP* ac yn cael eu cyfrif fel penawdau ar wahân yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant fel rhan o'r Gwariant Net ar Wasanaethau Parhaus.

## 9. Eiddo, Peiriannau ac Offer

Mae asedau sydd a sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu cadw i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag

un flwyddyn ariannol yn cael eu dosbarthu fel Eiddo, Peiriannau ac Offer. Mae asedau sydd ran o'r ffordd drwy gael eu creu ar ddiwedd y flwyddyn ac nad ydynt mewn cyflwr a all gael ei ddefnyddio eto yn cael eu dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Llunio.

**Cydnabod**

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer yn cael ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debyg y bydd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial ar gyfer gwasanaeth sy'n perthyn i'r eitem yn llifo i'r Awdurdod a bod modd i gost yr eitem gael ei mesur mewn modd dibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal potensial ased i roi buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial ar gyfer gwasanaeth ond nad yw'n ychwanegu ato (sef trwsio a chynnal-a-chadw) yn cael ei godi fel traul pan fydd yn cael ei ysgwyddo.

**Mesur**

Mae asedau'n cael eu mesur yn unol â'r gost ar y dechrau, sef:

- y pris prynu
- unrhyw gostau sydd i'w priodoli i'r broses o ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriedir gan y rheolwyr

Bernir mai eu gwerth teg yw cost asedau a geir heblaw drwy eu prynu, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffael (hynny yw, na fydd yn arwain at amrywiad yn llifoedd arian y Cyngor). Yn yr achos hwn, pan geir ased drwy gyfnewid, cost caffael yr ased yw swm cario'r ased sy'n cael ei ildio gan y Cyngor.

Wedyn mae asedau'n cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur a ganlyn:

- asedau seilwaith a chymuned - y gost hanesyddol ddibrisiedig
- asedau gormodol – gwerth teg, a hynny ar ei ddefnydd 'uchaf a gorau' yn unol ag IFRS13
- asedau a gedwir i'w gwerthu – yr isaf o blith gwerth teg a gwerth y farchnad llai cost y gwerthu
- pob ased arall – gwerth teg, a bennir fel y swm a gâi ei dalu am yr ased yn ei ddiben presennol (gwerth diben presennol – EUV).

Os nad oes tystiolaeth wedi'i seilio ar y farchnad ynglŷn â'r gwerth oherwydd natur arbenigol yr ased, defnyddir y gost amnewid dibrisiedig (DRC) fel amcangyfrif o'r gwerth teg.

Pan fydd bywydau defnyddiol asedau heblaw eiddo yn fyr neu pan fo'u gwerthoedd yn isel (neu'r ddau), defnyddir sail y gost hanesyddol dibrisiedig yn ddirprwy yn lle gwerth teg.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg yn cael eu prisio'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond o leiaf bob pum mlynedd. Bydd cynnydd yn y prisiad yn cael ei ateb gan gredyd yn y Gronfa Ailbrisio er mwyn cydnabod enillion sydd heb eu gwireddu.

Pan welir gostyngiadau yng gwerth asedau, cyfrifir y rhain drwy wneud y canlynol:

- pan geir balans o enillion ailbrisiad ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio, mae swm cario'r ased yn cael ei ysgrifennu yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan na cheir balans yn y Gronfa Ailbrisio neu pan geir balans annigonol, mae swm cario'r ased yn cael ei ysgrifennu yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

Mae'r Gronfa Ailbrisio'n cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef y dyddiad y cafodd ei rhoi ar waith yn ffurfiol. Mae enillion a gododd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cydgrynhoi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

**Amhariad**

Mae asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes arwydd y gall fod amhariad arnynt. Os ceir arwyddion ac os amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn sylweddol, amcangyfrifir faint o'r ased a all gael ei adfer ac, os yw hyn yn llai na swm cario'r ased, mae colled amhariad yn cael ei gydnabod ar gyfer y diffyg.

Pan welir colledion amhariad, maen nhw'n cael eu cyfrif drwy wneud y canlynol:

- pan geir balans o enillion ailbrisiad ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio, mae swm cario'r ased yn cael ei ysgrifennu yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan na cheir balans yn y Gronfa Ailbrisio neu pan geir balans annigonol, mae swm cario'r ased yn cael ei ysgrifennu yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

Pan fydd colled amhariad yn cael ei wrthdroi wedyn, mae'r gwrthdroad yn cael ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer y dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi pe bai'r golled heb gael ei chydnabod.

**Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant ar bob ased Eiddo, Peiriannau ac Offer drwy fynd ati'n systemataidd i ddyrannu eu symiau dibrisiant dros eu hoes ddefnyddiol. Ceir eithriad ar gyfer asedau heb fywyd defnyddiol meidrol a all gael ei fesur (hynny yw tir rhydd-ddaliol ac asedau cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt ar gael eto i'w defnyddio (hynny yw, asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau a ganlyn:

- adeiladau – dibrisiant ar sail llinell syth yn ôl yr amcangyfrif o oes yr ased (yn amrywio o flwyddyn i 79 o flynyddoedd) ar sail eu gwerth ar ddechrau'r flwyddyn ac eithrio yn achos tir, nad yw'n cael ei ddibrisio.
- cerbydau, peiriannau, celfi ac offer – dibrisiant ar sail llinell syth yn ôl yr amcangyfrif o oes yr ased (yn amrywio o dair blynedd i ddeng mlynedd).
- seilwaith – dibrisiant ar sail llinell syth dros 30 mlynedd ar bontydd a 15 mlynedd ar ffyrdd.

Os yw eitem o Eiddo, Peiriannau ac Offer yn cynnwys cydrannau mawr y mae eu cost yn arwyddocaol o'i chymharu â chyfanswm cost yr eitem, mae'r cydrannau'n cael eu dibrisio ar wahân yn ôl yr oes weddilliol.

Mae enillion ailbrisio'n cael eu dibrisio hefyd, gan drosglwyddo swm sy'n gyfartal â'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant y gwerth cyfredol sy'n cael ei godi ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi ar sail eu cost hanesyddol bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

**Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a Gedwir i'w Gwerthu**

Pan ddaw hi'n debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, mae'n cael ei ailddosbarthu'n Ased a Gedwir i'w Werthu. Mae'r ased yn cael ei ailbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu yn unol ag IFRS 13 ar Werth Teg, tybir eu bod gwerth yn y gallai'r ased yn cael ei werthu mewn trafodyn marchnad drefnus. Pan geir gostyngiad wedyn yn y gwerth teg llai'r costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei gosod yn y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Mae enillon yn y gwerth teg yn cael eu cydnabod hyd at swm unrhyw golledion blaenorol a gydnabuwyd yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn unig. Does dim dibrisiant yn cael ei godi ar Asedau a Gedwir i'w Gwerthu.

Os na fydd asedau yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu'n Asedau a Gedwir i'w Gwerthu mwyach, maen nhw'n cael eu hailddosbarthu yn ôl yn asedau anghyfredol a'u prisio yn ôl p'un bynnag yw'r isaf o blith eu swm cario cyn cael eu dosbarthu'n asedau a gedwir i'w gwerthu (wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi'u cydnabod pe na baent wedi'u dosbarthau fel Asedau a Gedwir i'w Gwerthu) a'u swm adenilladwy ar y dyddiad y penderfynir peidio â'u gwerthu.

Nid yw asedau sydd i'w gadael neu sydd i'w sgrapio yn cael eu hailddosbarthu'n Asedau a Gedwir i'w Gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomisiynu, mae swm cario'r ased yn y Fantolen (boed Eiddo, Peiriannau ac Offer ynteu Asedau a Gedwir i'w Gwerthu) yn cael ei ysgrifennu i ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant fel rhan o'r enilliad neu'r golled wrth ei waredu. Mae derbyniadau drwy waredu (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant hefyd fel rhan o'r enilliad neu'r golled wrth waredu (hynny yw, eu netio yn erbyn gwerth cario'r ased adeg ei waredu). Mae unrhyw enillion ailbrisio a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Mae symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad o fwy na £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'n ofynnol i'r derbyniadau gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf, ac wedyn dim ond ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf newydd neu eu neilltuo i leihau angen isorweddol yr Awdurdod i gymryd benthyciadau (y gofyniad cyllido cyfalaf) y gallant gael eu defnyddio. Mae derbyniadau'n cael eu priodoli i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth gwarediadau sydd wedi'u hysgrifennu i ffwrdd yn cael eu codi yn erbyn y dreth gyngor, gan fod darpariaeth lawn ar gyfer cost asedau sefydlog yn

cael ei gwneud o dan drefniadau gwahanol ar gyfer cyllido cyfalaf. Mae'r symiau'n cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

**10. Asedau Treftadaeth**

Asedau treftadaeth yw'r asedau hynny y bwriedir iddynt gael eu cadw mewn ymddiriedaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Mae asedau treftadaeth yn cael eu cydnabod a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbrisio) yn unol â pholisïau cyfrifydda'r awdurdod ar eiddo, peiriannau ac offer. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei regalia dinesig fel ased treftadaeth, ac mae'r eitemau hyn yn cael eu nodi yn y Fantolen yn ôl y prisiad yswiriant, sydd wedi'i seilio ar eu gwerth ar y farchnad.

Mae symiau cario asedau treftadaeth yn cael eu hadolygu pan geir tystiolaeth o amhariad ar yr asedau treftadaeth, e.e. pan fo eitem wedi dirywio'n ffisegol neu wedi'i thorri neu pan geir amheuon ynghylch ei dilysrwydd. Mae unrhyw amhariad yn cael ei gydnabod a'i fesur yn unol â pholisïau cyffredinol y Cyngor ar amhariadau. Os bydd y Cyngor yn gwaredu ased treftadaeth, cyfrifir yr enillion yn unol â darpariaethau cyffredinol y Cyngor ynghylch gwaredu Eiddo, Peiriannau ac Offer. Datgelir yr enillion o'r gwarediad ar wahân yn y nodiadau ar y datganiadau ariannol a'u cyfrif yn unol â'r gofynion cyfrifydda statudol ynglŷn â gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf.

**11. Codi asedau anghyfredol ar refeniw**

Mae gwasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu'n cael eu debydu â'r symiau a ganlyn er mwyn cofnodi gwir gost cadw asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiant sydd i'w briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- colledion ailbrisio ac amharu ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth pan nad oes enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio y gall y colledion gael eu hysgrifennu i ffwrdd yn eu herbyn.

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi treth gyngor er mwyn ariannu dibrisiant, colledion ailbrisio neu amharu nac amorteiddiad. Er hynny, mae'n ofynnol iddo wneud darpariaeth ddarbodus flynyddol o'r refeniw i gyfrannu at y gostyngiad yn ei anghenion benthyca cyffredinol. Manylir ar hyn yn Natganiad Blynyddol y Cyngor ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf, a gwahaniaethir rhwng gwariant cyfalaf a gefnogir, gwariant cyfalaf nas cefnogir, a Phrydlesau Arian / PFI. Gan hynny, mae dibrisiant, colledion ailbrisio ac amharu ac amorteiddiadau'n cael eu disodli gan y *Ddarpariaeth Refeniw Isaf* (MRP) hon drwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

**12. Gwariant Refeniw a Ariennir ag Adnoddau Cyfalaf o dan Statud**

Mae gwariant a ysgwyddwyd yn ystod y flwyddyn a all gael ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol wedi'i godi fel gwariant ar y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant yn y flwyddyn. Mae'r enghreifftiau o wariant o'r fath yn cynnwys grantiau gwella cartrefi, grantiau gwella trefi, dymchweliadau ac astudiaethau

dichonoldeb tir. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu talu cost y rhain o'r adnoddau cyfalaf presennol neu drwy fenthyciadau, mae trosglwyddiad yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gwrth-droi'r symiau wedyn fel nad oes effaith ar lefel y dreth gyngor.

**13. Prydlesau**

Mae prydlesau'n cael eu dosbarthu fel prydlesau arian pan fo telerau'r brydles yn trosglwyddo'r holl risgiau a gwobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, y peiriannau neu'r offer o'r prydleswr i'r prydlesai. Dosberthir pob prydles arall yn brydles gweithredu.

Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, mae elfen y tir ac elfen yr adeiladau'n cael eu hystyried ar wahân i gael eu dosbarthu.

Mae trefniadau nad oes iddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am arian yn cael eu cyfrif o dan y polisi hwn os yw cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar y modd y defnyddir yr asedau penodol.

**Y Cyngor fel Prydlesai**

Prydlesau arian

Cydnabyddir Eiddo, Peiriannau ac Offer a ddelir o dan brydlesau arian ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles yn ôl eu gwerth teg, o'i fesur ar gais y prydlesai (neu werth presennol isafswm taliadau'r brydles, os yw hynny'n is). I gyd-fynd â'r ased a gydnabyddir ceir rhwymedigaeth i dalu i'r prydleswr. Mae costau uniongyrchol cychwynnol y Cyngor yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased. Mae premiymau sy'n cael eu talu wrth ddechrau prydles yn cael eu defnyddio i ysgrifennu rhwymedigaeth y brydles i lawr. Mae rhenti digwyddiadol yn cael eu codi fel treuliau yn y cyfnodau y maent yn codi ynddo.

Mae taliadau prydlesau'n cael eu dyrannu rhwng:

- tâl am gaffael y buddiant yn yr eiddo, y peiriannau neu'r offer – a ddefnyddir er mwyn ysgrifennu rhwymedigaeth y brydles i lawr, a
- thâl cyllid (sy'n cael ei ddebydu i'r adran Incwm Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant).

Cyfrifir Eiddo, Peiriannau ac Offer a gydnabyddir o dan brydlesau arian gan ddefnyddio'r polisïau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredinol ar gyfer asedau o'r fath, cyhyd ag y codir dibrisiant dros gyfnod y brydles os yw hwnnw'n fyrrach na'r amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr ased (pan nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r awdurdod ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi treth gyngor i dalu am ddibrisiant neu golledion ailbrisio neu amharu sy'n codi ar asedau a brydlesir. Yn hytrach, mae cyfraniad blynyddol darbodus yn cael ei wneud o'r cronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â'r gofynion statudol. Gan hynny, mae dibrisiant a cholledion ailbrisio ac amharu'n cael eu disodli gan gyfraniad refeniw ym Malans Cronfa'r Cyngor, drwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesau Gweithredu

Mae rhenti a delir o dan brydlesau gweithredu'n cael eu codi ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant fel traul i'r gwasanaethau sydd ar eu hennill o ddefnyddio'r eiddo, y peiriannau neu'r offer a brydlesir. Mae'r taliadau'n cael eu gwneud ar sail llinell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hynny'n cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. os oes cyfnod di-rent ar ddechrau'r brydles).

**Y Cyngor fel Prydleswr**

Prydlesau Gweithredu

Pan fo'r Awdurdod yn caniatáu prydles weithredu dros eiddo neu eitem o beirianwaith neu offer, mae'r ased yn cael ei gadw yn y Fantolen. Mae incwm rhentol yn cael ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Gwneir credydau ar sail llinell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hynny'n cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. os oes premiwm yn cael ei dalu ar ddechrau'r brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol a ysgwyddir wrth negodi a threfnu'r brydles yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased perthnasol a'u codi fel traul dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhentol.

**14. Rhwymedigaethau Ariannol**

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu mesur i ddechrau yn ôl y gwerth teg a'u cario yn ôl eu cost amorteiddiedig. Mae taliadau blynyddol ar yr adran Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant ar gyfer llog sy'n daladwy yn cael eu seilio ar swm cario'r offeryn, wedi'i luosi â'r gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r Benthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a welir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n dal ar ôl i'w ad-dalu ynghyd ag unrhyw logau cronedig a llogau a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn unol a chytundeb y benthyciad.

Mae gan y Cyngor dri benthyciad Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Cymerwr Benthyciadau (LOBOs) gyda chyfraddau llog fesul gris. Mae cyfradd log weithredol wedi'i defnyddio ar gyfer y rhain fel mai symiau sydd wedi'u hailfesur a geir ar gyfer y LOBOs ar y Fantolen.

Pan fo premiymau a disgowntiau ar ad-daliadau cynnar wedi'u codi ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, mae'r rheoliadau'n caniatáu i'r effaith ar Gronfa'r Cyngor gael ei rhannu dros flynyddoedd y dyfodol. Mae gan yr Awdurdod bolisi o rannu'r enilliad neu'r golled dros y cyfnod a oedd yn dal ar ôl ar y benthyciad yr oedd y premiwm i'w dalu ar ei gyfer neu y cafodd y disgownt ei ad-dalu ar ei gyfer. Mae cysoniad y symiau sy'n cael eu codi ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant â'r tâl net y mae ei angen yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli drwy drosglwyddiad i mewn neu allan o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

**15. Asedau Ariannol**

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn asedau sydd â thaliadau sy'n sefydlog neu a all gael eu pennu ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol. Maent yn cael eu mesur i ddechrau yn ôl y gwerth teg a'u

cario yn ôl eu cost amorteiddiedig. Mae credydau blynyddol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer llog derbyniadwy wedi'i seilio ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn.

**16. Stocrestrau a Chontractau Hirdymor**

Mae stocrestrau wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl yr isaf o blith y gost neu'r gwerth gwireddadwy net. Mae gwaith sydd ar y gweill yn destun prisiadau dros dro ar ddiwedd y flwyddyn ac yn cael ei gofnodi yn y Fantolen yn ôl y gost plws unrhyw elw y mae'n rhesymol ei briodoli i'r gwaith.

Cyfrifir contractau hirdymor ar sail codi tâl ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau gyda gwerth y gwaith a'r gwasanaethau a gafwyd o dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

**17. Mentrau Cyllid Preifat (PFI)**

Mae contractau PFI yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, lle mae'r cyfrifoldeb dros drefnu bod yr eiddo, y peiriannau a'r offer y mae eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn trosglwyddo i gontractiwr y PFI. Gan y bernir bod yr Awdurdod yn rheoli'r gwasanaethau a ddarperir o dan y cynllun PFI a chan y bydd perchnogaeth yr eiddo, y peiriannau a'r offer yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd y contractau heb dâl ychwanegol, mae'r Awdurdod yn cario'r asedau a ddefnyddir o dan y contractau yn ei Fantolen fel rhan o Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Cafodd y gydnabyddiaeth wreiddiol i'r asedau hyn ei chydbwyso drwy gydnabod rhwymedigaeth am y symiau sy'n ddyledus i weithredwr y cynllun i dalu am y buddsoddiad cyfalaf.

Mae Asedau Anghyfredol a gydnabyddir ar y Fantolen yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn yr un modd ag eiddo, peiriannau ac offer sy'n perthyn i'r Awdurdod.

Dadansoddir y symiau sy'n daladwy i weithredwyr y PFI bob blwyddyn fel a ganlyn:-

- gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – wedi'i ddebydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant
- cost cyllido – tâl llog ar y rhwymedigaeth sy'n dal ar ôl ar y Fantolen, wedi'i ddebydu i'r adran Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant
- taliad at y rhwymedigaeth – wedi'i ddefnyddio i ysgrifennu'r rhwymedigaeth ar y Fantolen tuag at weithredwr y PFI i lawr.

Mae yna MRP ar gyfer asedau PFI. Mae Polisi MRP Blynyddol y Cyngor wedi barnu bod y tâl hwn yn gyfartal â rhwymedigaeth y brydles ariannol wedi'i hysgrifennu i lawr am y flwyddyn.

Credydau'r PFI
Mae grantiau'r Llywodraeth a dderbyniwyd ar gyfer cynlluniau PFI, sy'n uwch na'r lefelau gwariant cyfredol, yn cael eu cario ymlaen fel cronfa a glustnodwyd i ariannu gwariant yn y dyfodol.

**18. Trefniadau ar y cyd**

Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau gweinyddol dros Gyflenwadau'r Bwrdeistrefi Sirol ac Amlosgfa Llangrallo. Mae datganiadau ariannol annibynnol yn dal i gael eu paratoi a'u hadolygu ar gyfer y ddau gyd-bwyllgor hyn. Nid yw gweithgareddau'r cyd-drefniadau hyn yn cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor fel un endid a hynny ar sail materoldeb yr asedau a'r boblogaeth.

**19. Incwm o'r Dreth Gyngor**

Dangosir yr holl incwm o'r Dreth Gyngor yn Natganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant yr Awdurdod a chynhwysir praeseptau'r praeseptwyr mawr (Heddlu De Cymru) fel gwariant.

**20. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newid mewn Polisïau Cyfrifydda ac Amcangyfrifon a Gwallau**

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid yn y polisïau cyfrifydda neu er mwyn cywiro gwall o sylwedd. Cyfrifir newidiadau yn yr amcangyfrifon cyfrifydda ymlaen llaw, hynny yw yn y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd y dyfodol yr effeithir arnynt gan y newid, ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Mae gwallau o sylwedd a welir yn ffigurau cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro wedyn drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymaradwy y cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fydd hynny'n ofynnol oherwydd arferion cyfrifydda priodol y bydd polisïau cyfrifydda'n cael eu newid, neu pan fydd y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan fydd newid yn cael ei wneud, mae'n cael ei roi ar waith yn ôl-syllol (oni nodir fel arall) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymaradwy y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i ddefnyddio drwy'r amser.

Mae newid yn yr ymdriniaeth â thrafodion gweithrediadau masnachu yn golygu bod angen Addasiad Cyfnod Blaenorol yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Does dim effaith ar Fantolen na Datganiad Llif Arian 2014-15. Mae'r newidiadau yn y polisi'n deillio o gyfarwyddyd ar y Cod Ymarfer mai dim ond gweithrediadau masnachu arwyddocaol y mae angen eu datgelu ar wahân. Ni fernir bod yr un o weithrediadau masnachu'r Cyngor yn arwyddocaol ac felly mae pob trafodiad yn cael ei gynnwys erbyn hyn yng Nghost Net y Gwasanaethau. Nid yw'r newid hwn yn y polisi cyfrifydda'n arwain at unrhyw effaith gyffredinol yn y Cyfanswm Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

**21. Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod**

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuon mewn sefydliadau ariannol a all gael eu had-dalu heb gosb o roi rhybudd heb fod yn fwy na 24 awr. Mae gwerthoedd sy'n gyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn dim mwy na mis neu lai ar ôl dyddiad eu caffael ac sy'n hawdd eu troi'n symiau hysbys o arian parod heb ddim ond risg ddibwys o newid yn eu gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a gwerthoedd sy'n gyfwerth ag arian parod yn net o orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar gais ac sy'n ffurfio rhan annatod o reolaeth arian parod yr Awdurdod.

**22. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon. Gellir enwi dau fath o ddigwyddiadau:

- y rhai sy'n rhoi tystiolaeth o amodau a oedd ar gael ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r digwyddiadau hyn
- y rhai sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r digwyddiadau hyn, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn creu effaith o sylwedd, datgelir natur y digwyddiadau yn y nodiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r heffaith ariannol.

Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl dyddiad awdurdodi cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon yn cael eu hadlewyrchu ynddo.

**23. Trosi Arian Tramor**

Pan fo'r Cyngor wedi gwneud trafodiad mewn arian tramor, mae'r trafodiad yn cael ei drosi i sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar y dyddiad y daeth y trafodiad i rym. Pan fo symiau mewn arian tramor yn dal heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn, maen nhw'n cael eu haildrosi yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd ar waith yn y fan a'r lle ar 31 Mawrth. Mae'r enillion neu'r colledion sy'n deillio o hyn yn cael eu cydnabod yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

**24. Eiddo Buddsoddi**

Eiddo buddsoddi yw'r eiddo hwnnw sy'n cael ei ddefnyddio i ennill rhenti a/neu er mwyn i'r cyfalaf ddodwy yn unig. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os caiff yr eiddo ei ddefnyddio mewn unrhyw fodd i hwyluso gwaith i gyflwyno gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu os yw'n cael ei gadw i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddi'n cael ei fesur i ddechrau yn ôl y gost ac wedyn yn ôl y gwerth teg, ar sail y swm y gellid cyfnewid yr eiddo amdano rhwng partïon gwybodus ar hyd braich. Nid yw eiddo'n cael ei ddibrisio ond mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn yn ôl amodau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. mae enillion a cholledion ailbrisio'n cael eu gosod ar y linell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Mae'r un ymdriniaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer enillion a cholledion wrth waredu'r eiddo hwn.

Rhoddodd y Cyngor gyfarwyddiadau i'r priswyr allanol Cooke & Arkwright ddarparu prisiadau ar 31 Rhagfyr ar gyfer holl bortffolio buddsoddi'r Cyngor yn unol â'r IFRS13. Pan nad oes modd i werthoedd teg Eiddo Buddsoddi, Asedau Gormodol ac Asedau a Gedwir i'w Gwerthu gael eu mesur ar sail prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol (sef mewnbynnau Lefel 1), mae eu gwerth teg yn cael ei mesur gan ddefnyddio'r technegau prisio a ganlyn:

Mewnbynnau Lefel 2: prisiau a ddyfynnir ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ar ddyddiad y prisiad

Mewnbynnau Lefel 3: prisiadau wedi'u seilio ar y prisiadau mwyaf diweddar, wedi'u haddasu i'r prisiad cyfredol drwy ddefnyddio mynegeiad ac adolygiad o amhariadau

Cafodd y rhan fwyaf o'r eiddo buddsoddi ei brisio yn ôl mewnbynnau Lefel 2 a chafodd rhywfaint ei brisio y ôl mewnbynnau Lefel 3.

Mae rhenti sy'n dod i law ar gyfer eiddo buddsoddi yn cael eu credydu i'r llinell Incwm Cyllido a Buddsoddi ac yn arwain at enilliad ar gyfer Balans Cronfa'r Cyngor. Er hynny, nid yw'r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbrisio ac amharu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Gan hynny mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwrth-droi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn a'u gosod yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos unrhyw enillion o werthiannau sy'n fwy na £10,000) yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

**25. Lwfansau Ymrwymiadau Gostwng Carbon**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd rhan mewn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni o'r enw Ymrwymiad Gostwng Carbon (CRC). Mae'n ofynnol i'r Cyngor brynu ac ildio lwfansau, yn ôl-syllol ar hyn o bryd, ar sail allyriadau, sef y carbon deuocsid a gynhyrchir wrth i ynni gael ei ddefnyddio. Wrth i garbon deuocsid gael ei allyrru (hynny yw, wrth i ynni gael ei ddefnyddio), mae rhwymedigaeth a thraul yn cael eu cydnabod. Caiff y rhwymedigaeth ei gollwng drwy ildio lwfansau. Mae'r rhwymedigaeth yn cael ei mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n angenrheidiol er mwyn talu'r rhwymedigaeth, fel rheol yn ôl pris marchnad y nifer o lwfansau y mae eu hangen er mwyn ateb y rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd. Mae'r gost i'r Cyngor yn cael ei chydnabod a'i hadrodd yng nghostau'r gwasanaethau ac mae'n cael ei dyrannu i'r gwasanaethau ar sail yr ynni a ddefnyddir.

**26. Ysgolion yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn cadarnhau mai'r awdurdod lleol biau'r rhan fwyaf o'r rheolaeth dros ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol (sef y categorïau hynny o ysgol a nodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd). Mae'r Cod hefyd yn pennu bod asedau, rhwymedigaethau a llifoedd arian yr ysgolion hyn yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol yr awdurdod lleol (ac nid yn y Cyfrifon Grŵp). Gan hynny, mae trafodion, llifoedd arian a balansau'r ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o'r datganiadau ariannol fel pe baen nhw'n perthyn i'r Cyngor.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

# Datganiadau Ariannol Craidd 2015-16

## Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn am y Blynyddoedd yn diweddu 31 Mawrth 2015 a 2016

| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfeydd a Glustnodwyd £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Derbyniadau Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Defnyddiadwy £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Annefnyddiadwy £'000 | Cyfanswm Cronfeydd yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2014 a gariwyd ymlaen** | **7,395** | **37,899** | **10,245** | **509** | **56,048** | **103,396** | **159,444** |
| **Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn 2014-15** | | | | | | | |
| **Gwarged neu (ddiffyg) ar y ddarpariaeth gwasanaethau** | (70,036) | | | | (70,036) | | (70,036) |
| **(Gwariant) ac Incwm Cynhwysfawr Arall** | | | | | - | 5,292 | 5,292 |
| **Cyfanswm (Gwariant) ac Incwm Cynhwysfawr** | **(70,036)** | **-** | **-** | **-** | **(70,036)** | **5,292** | **(64,744)** |
| Addasiadau rhwng y sil gyfrifydda a'r sail ariannu o dan y rheoliadau (Nodyn 4) | 73,646 | | 4,289 | (356) | 77,579 | (77,579) | - |
| **Cynnydd (Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau I Grpnfeydd a Glustnodwyd** | **3,610** | **-** | **4,289** | **(356)** | **7,543** | **(72,287)** | **(64,744)** |
| **Trosglwyddiadau I Gronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 31)** | (3,555) | 3,555 | - | - | - | - | - |
| **Cynnydd (Gostyngiad) yn 2014-15** | **55** | **3,555** | **4,289** | **(356)** | **7,543** | **(72,287)** | **(64,744)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015 a gariwyd ymlaen** | **7,450** | **41,454** | **14,534** | **153** | **63,591** | **31,109** | **94,700** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015 a gariwyd ymlaen** | **7,450** | **41,454** | **14,534** | **153** | **63,591** | **31,109** | **94,700** |
| **Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn 2015-16** | | | | | | | |
| **Gwarged neu (ddiffyg) ar y ddarpariaeth gwasanaethau** | (2,956) | | | | (2,956) | | (2,956) |
| **(Gwariant) ac Incwm Cynhwysfawr Arall** | | | | | - | 50,309 | 50,309 |
| **Cyfanswm (Gwariant) ac Incwm Cynhwysfawr** | **(2,956)** | **-** | **-** | **-** | **(2,956)** | **50,309** | **47,353** |
| Addasiadau rhwng y sil gyfrifydda a'r sail ariannu o dan y rheoliadau (Nodyn 4) | 6,569 | | 3,818 | 30 | 10,417 | (10,417) | - |
| **Cynnydd (Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau I Grpnfeydd a Glustnodwyd** | **3,613** | **-** | **3,818** | **30** | **7,461** | **39,892** | **47,353** |
| **Trosglwyddiadau I Gronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 31)** | (3,459) | 3,459 | - | - | - | - | - |
| **Cynnydd (Gostyngiad) yn 2015-16** | **154** | **3,459** | **3,818** | **30** | **7,461** | **39,892** | **47,353** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016 a gariwyd ymlaen** | **7,604** | **44,913** | **18,352** | **183** | **71,052** | **71,001** | **142,053** |

## Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant 2015-16

| 2014-15 restated | | | | 2015-16 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | Nodiadau |
| 217,863 | (29,573) | 188,290 | Gwasanaethau Plant ac Addysg | 164,237 | (29,578) | 134,659 | |
| 61,067 | (15,951) | 45,116 | Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 58,490 | (17,260) | 41,230 | |
| 25,620 | (7,067) | 18,553 | Gwasanaethau Priffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 23,934 | (7,098) | 16,836 | |
| 58,704 | (55,802) | 2,902 | Gwasanaethau Tai | 61,999 | (59,701) | 2,298 | |
| 32,633 | (5,950) | 26,683 | Gwasanaethau Canalog i'r Cyhoedd | 31,108 | (5,115) | 25,993 | |
| 17,215 | (2,568) | 14,647 | Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig | 11,486 | (1,831) | 9,655 | |
| 16,099 | (4,132) | 11,967 | Gwasanaethau Amgylcheddol a Chysylltiedig | 16,073 | (4,259) | 11,814 | |
| 14,749 | (9,433) | 5,316 | Gwasanaethau Cynllunio | 12,336 | (9,166) | 3,170 | |
| 4,928 | (404) | 4,524 | Craidd Corfforaethol a Democrataidd | 4,479 | (445) | 4,034 | |
| 560 | - | 560 | Costau Heb eu Dosbarthu | 590 | - | 590 | |
| **449,438** | **(130,880)** | **318,558** | **Cost Gwasanaethau** | **384,732** | **(134,453)** | **250,279** | |
| | | | **Gwariant Gweithredu Arall** | | | | |
| 11,199 | - | 11,199 | Taliadau Praeseptau | 11,944 | - | 11,944 | **5** |
| 6,894 | - | 6,894 | Ardollau Taladwy | 6,823 | - | 6,823 | **5** |
| 718 | | 718 | (Enillion)/colled ar waredu asedau (sefydlog) anghyfredol | 2,181 | | 2,181 | |
| **18,811** | **-** | **18,811** | **Gwariant Gweithredu Arall** | **20,948** | **-** | **20,948** | |
| | | | **Gwariant ac Incwm Cyllido a Buddsoddi** | | | | |
| 4,577 | - | 4,577 | Llog sy'n daladwy ar ddyled | 4,546 | - | 4,546 | |
| 167 | - | 167 | Elfen y llog mewn prydlesau cyllid (prydlesai) | 69 | - | 69 | |
| 1,471 | - | 1,471 | Llog sy'n daladwy at daliadau unedol PFI | 1,434 | - | 1,434 | **12** |
| 10,090 | - | 10,090 | llog net ar Rwymedigaeth Buddion Diffiniedig Net | 8,450 | - | 8,450 | **36** |
| - | (853) | (853) | Llog Buddsoddiadua a Llog Arall sy'n Dderbyniadwy | - | (903) | (903) | |
| - | (647) | (647) | Newidiadau yng ngwerth teg eiddo buddsoddi | - | (1,082) | (1,082) | |
| | | | (Enillion)/colled ar gyfrifon masnachu (heb fod yn gymwys I wasanaeth) | | | | **6** |
| **16,305** | **(1,500)** | **14,805** | **Gwariant ac Incwm Cyllido a Buddsoddi** | **14,499** | **(1,985)** | **12,514** | |
| | | | **Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol** | | | | |
| | (150,943) | (150,943) | RSG | | (148,002) | (148,002) | **7** |
| | (43,794) | (43,794) | NNDR | | (40,274) | (40,274) | **10** |
| | (73,164) | (73,164) | Y Dreth Cyngor | | (77,487) | (77,487) | **9** |
| | (12,825) | (12,825) | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gydnabuwyd | | (13,622) | (13,622) | **8** |
| | (1,412) | (1,412) | Grantiau'r llywodraeth heb gysylltiad â gwasanaethau | | (1,400) | (1,400) | **8** |
| **-** | **(282,138)** | **(282,138)** | **Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol** | **-** | **(280,785)** | **(280,785)** | |
| **484,554** | **(414,518)** | **70,036** | **(Gwarged) neu ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **420,179** | **(417,223)** | **2,956** | |
| | (74,036) | (74,036) | (Gwarged) neu ddiffyg ar ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | | (19,595) | (19,595) | |
| 48,654 | | 48,654 | Colledion amhariad ar asedau anghyfredol a godwyd ar y Gronfa Ailbrisio | 3,614 | | 3,614 | |
| 20,090 | | 20,090 | (Enillion)/colledion Actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | (34,330) | | (34,330) | **36** |
| | | **(5,292)** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | **(50,311)** | |
| | | **64,744** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | **(47,355)** | |

## Mantolen y Blynyddoedd yn diweddu 31 Mawrth 2015 a 2016

| 31 Mawrth 2015 £'000 | | 31 Mawrth 2016 £'000 | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | **Eiddo, Peiriannau ac Offer** | | **22** |
| 354,330 | - tir ac adeiladau eraill | 377,815 | |
| 7,927 | - cerbydau, peiriannau, celfi ac offer | 10,198 | |
| 83,373 | - seilwaith | 77,261 | |
| 4,808 | - asedau cymunedol | 4,808 | |
| 15,848 | - asedau sy'n cael eu hadeiladu | 6,299 | |
| 9,767 | - asedau gormodol nad ydynt yn cae eu cadw i'w gwerthu | 8,256 | |
| 73 | **Asedau Treftadaeth** | 73 | **24** |
| | **Eiddo Buddsoddi** | | |
| 4,103 | - Eiddo buddsoddi | 5,185 | **23** |
| | **Buddsoddiadau Hirdymor** | | |
| - | Buddsoddiadau Hirdymor | 2,007 | |
| | **Dyledwyr Hirdymor** | | |
| 17 | Blaensymiau Tai | 12 | **25** |
| 261 | Finance Leases | 133 | **25** |
| **480,507** | **Asedau Hirdymor** | **492,047** | |
| 11,027 | **Buddsoddiadau Byrdymor** | 14,543 | **37** |
| 7,478 | **Asedau sy'n cael eu cadw i'w gwerthu** | 4,035 | **27** |
| 463 | **Stocrestrau** | 419 | |
| 29,272 | **Dyledwyr Byrdymor** | 27,346 | **26** |
| 6,573 | **Arian parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod** | 7,182 | **37** |
| **54,813** | **Asedau Cyfredol** | **53,525** | |
| (879) | **Benthyciadau Byrdymor** | (960) | **37** |
| (43,458) | **Credydwyr Byrdymor** | (32,772) | **28** |
| - | **Darpariaethau sy'n ddyledus mewn 1 flwyddyn** | (1,118) | |
| **(44,337)** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | **(34,850)** | |
| (2,424) | **Darpariaethau** | (2,362) | **29** |
| (97,444) | **Benthyciadau Hirdymor** | (97,434) | **37** |
| | **Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill** | | |
| (20,847) | PFI a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill | (21,759) | **30** |
| (273,010) | Rhwymedigaeth Bensiynau Net | (245,270) | **32b** |
| (2,558) | **Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd o flaen llaw** | (1,844) | |
| **(396,283)** | **Rhwymedigaethau Hirdymor** | **(368,669)** | |
| **94,700** | **Asedau Net** | **142,053** | |
| | **Cronfeydd Defnyddiadwy** | | **31** |
| 7,450 | - Cronfa'r Cyngor | 7,604 | |
| 41,454 | - Cronfeydd a Glustnodwyd | 44,913 | **31b** |
| 14,534 | - Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | 18,352 | **31a** |
| 153 | - Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio | 183 | |
| | **Cronfeydd Annefnyddiadwy** | | **32** |
| 115,916 | - Cronfa Ailbrisio | 127,291 | **32a** |
| (273,010) | - Cronfa Bensiynau | (245,270) | **32b** |
| 196,059 | - Cyfrif Addasu Cyfalaf | 192,078 | **32c** |
| (3,632) | - Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (739) | **32d** |
| (4,224) | - Cyfrif Absenoldebau Iawndaledig Cronnol Byrdymor | (2,359) | **32e** |
| **94,700** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | **142,053** | |

## Datganiad Llif Arian ar 31 Mawrth 2015 a 2016

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 70,036 | (Gwarged) / diffyg Net ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | 10,247 | |
| (96,271) | Addasiadau i'r diffyg net ar y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau gwerthoedd heb fod yn arian parod | (26,314) | 40 |
| 12,825 | Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwyswyd yn y diffyg net ar y ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido | 14,904 | |
| **(13,410)** | **Llifoedd Arian Parod Net p Weithgareddau Gweithredu** | **(1,163)** | 41 |
| 23,972 | Gweithgareddau Buddsoddi | 23,391 | 42 |
| (12,666) | Gweithgareddau Cyllido | (22,837) | 43 |
| **(2,104)** | **Cynnydd Net mewn Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod** | **(609)** | |
| (4,469) | Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod ar ddechrau'r Cyfnod Adrodd | (6,573) | |
| **(6,573)** | **Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd** | **(7,182)** | |

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac arian parod cyfatebol y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian a chyfwerthoedd arian parod drwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Oherwydd adolygiad o'r fethodoleg ar gyfer paratoi'r datganiad 2015-16, y datganiad y flwyddyn flaenorol wedi gorfod cael ei hailddatgan. Mae'r addasiadau oedd i gael gwared ar rai eitemau nad ydynt yn arian parod ac ailddosbarthu rhai eitemau. Fodd bynnag, roedd gan y rhain addasiadau unrhyw effaith ar y llinell waelod.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol Craidd 2015-16

## Cynnwys y Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol Craidd


| Nod yn | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Safonau Cyfrifydda sydd wedi'u Cyhoeddi, heb eu Mabwysiadu | 63 |
| 2. | Dyfarniadau Critigol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifydda | 63 |
| 3. | Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill Amcangyfrifon | 63 |
| 4. | Addasiadau rhwng Sail Gyfrifydda a Sail Ariannu o dan y Rheoliadau | 65 |
| 5. | Praeseptau ac ardollau | 68 |
| 6. | Gweithgareddau masnachu | 68 |
| 7. | Grant Cynnal Refeniw | 68 |
| 8. | Grantiau'r Llywodraeth | 68 |
| 9. | Y dreth gyngor | 69 |
| 10. | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) | 70 |
| 11. | Prydlesau | 70 |
| 12. | Y Fenter Cyllid Preifat (PFI) | 71 |
| 13. | Adran 33 o Ddeddf yr NHS (Cymru) 2006 | 72 |
| 14. | Darpariaeth Refeniw Isaf | 72 |
| 15. | Tâl y Swyddogion | 73 |
| 16. | Lwfansau'r Aelodau | 77 |
| 17. | Costau Archwilio Allanol | 77 |
| 18. | Cymdeithion, Is-gwmnïau, Cyd-fentrau a Gweithrediadau ar y Cyd | 77 |
| 19. | Cyfrifydda'r Ysgolion | 79 |
| 20. | Trafodion Partïon Cysylltiedig | 79 |
| 21. | Symiau yr Adroddwyd arnynt at Ddibenion Penderfyniadau ar Ddyrannu Adnoddau | 81 |
| 22. | Asedau Sefydlog Diriaethol | 86 |
| 23. | Eiddo Buddsoddi | 91 |
| 24. | Asedau Treftadaeth | 91 |
| 25. | Dyledwyr Hirdymor | 91 |
| 26. | Dyledwyr Byrdymor | 92 |
| 27. | Asedau a Gedwir i'w Gwerthu | 92 |
| 28. | Credydwyr Byrdymor | 92 |
| 29. | Darpariaethau | 93 |
| 30. | PFI a Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 93 |
| 31. | Cronfeydd Defnyddiadwy | 94 |
| 32. | Cronfeydd Annefnyddiadwy | 98 |
| 33. | Cronfeydd Ymddiriedolaeth | 102 |
| 34. | Cyfrifon Escrow | 103 |
| 35. | Cyfraniadau Datblygwyr | 103 |
| 36. | Rhwymedigaethau pensiwn, datgeliadau IAS 19 | 104 |
| 37. | Datgeliadau Offerynnau Ariannol | 109 |
| 38. | Digwyddiadau ar ôl y Fantolen | 121 |
| 39. | Datganiad Llif Arian - Addasiadau ar gyfer Symudiadau Gwerthoedd heblaw Arian Parod | 121 |
| 40. | Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Gweithredu | 122 |
| 41. | Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Buddsoddi | 122 |
| 42. | Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Cyllido | 123 |
| | Geirfa | 124 |

**1. Safonau cyfrifydda sydd wedi'u Cyhoeddi, heb eu Mabwysiadu eto**

O dan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 (y Cod), mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r effaith a gâi newid cyfrifydda a fydd yn ofynnol yn ôl safon newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond sydd heb ei mabwysiadu eto. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys ynglŷn â mabwysiadu'r safonau newydd neu ddiwygiedig a ganlyn yng Nghod 2015-16:

- IAS 19 – Buddion Cyflogeion
- Diwygiad i IFRS 11 Trefniadau ar y Cyd (Cyfrifon ar gyfer Caffael Buddiannau mewn Gweithrediadau ar y Cyd)
- Diwygiad i IAS 16 Eiddo, Peiriannau ac Offer ac IAS 38 Asedau Annirweddol (Egluro Dulliau Derbyniol ar gyfer Dibrisio ac Amorteiddio)
- Gwelliannau Blynyddol i Gylch 2010-2012 yr IFRSs
- Gwelliannau Blynyddol i Gylch 2012-2014 yr IFRSs
- Diwygiad i IAS 1 Cyflwyno Datganiad Ariannol
- Newidiadau yn fformat y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn a chyflwyno'r dadansoddiad Gwariant a Chyllid newydd
- Newidiadau yn fformat y Cyfrif Cronfeydd Pensiwn a'r Datganiad Asedau Net

Nid yw'r Cyngor yn credu y câi unrhyw un o'r uchod effaith berthnasol ar yr wybodaeth a roddir yn y Datganiadau hyn. Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Asedau Seilwaith Trafnidiaeth yn dod yn effeithiol o 1 Ebrill 2016 ymlaen ond nid yw'n golygu bod angen unrhyw addasiad ôl-syllol yng nghyfrifon 2015-16. O dan y ddarpariaeth hon, bydd categori newydd o asedau, sef Asedau'r Rhwydwaith Priffyrdd, yn cael ei greu a chaiff hwn ei fesur yn ôl cost amnewid ddibrisiedig.

**2. Dyfarniadau Critigol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifydda**

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifydda uchod, bu'n rhaid i'r Cyngor wneud dyraniadau penodol ynghylch trafodion cymhleth neu'r rhai a oedd yn cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Dyma'r dyfarniadau critigol a wnaed yn y Datganiad Cyfrifon:

Ceir llawer o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllid llywodraeth leol yn y dyfodol. Er hynny, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol eto i roi arwydd y gallai asedau'r Cyngor gael eu hamharu o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r ddarpariaeth gwasanaethau.

Bernir mai'r Cyngor sy'n rheoli'r gwasanaethau a ddarperir o dan y cytundeb allanol ynglŷn â darparu Ysgol Gyfun ym Maesteg a hefyd yn rheoli gwerth gweddilliol yr ysgol ar ddiwedd y cytundeb. Mae'r polisïau cyfrifydda ar gyfer cynlluniau PFI a chontractau tebyg wedi'u cymhwyso at y trefniant ac mae'r ysgol (a brisiwyd yn £24.4 miliwn) wedi'i chydnabod fel Eiddo, Peiriannau ac Offer ar Fantolen y Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o fuddiannau mewn endidau eraill. Ar 1 Hydref 2015, trosglwyddwyd gwasanaethau diwylliannol o'r Cyngor i fudiad dielw sydd erbyn hyn yn masnachu fel 'Ymddiriedolaeth Awen'. Rheolir yr Ymddiriedolaeth gan Fwrdd Ymddiriedolwyr a bydd yn cyflwyno gwasanaethau diwylliannol ar ran y Cyngor am ffi reoli. Yn sgil asesiad o holl

fuddiannau'r Cyngor mewn endidau eraill, nid yw'r trefniadau'n ddigon sylweddol i haeddu llunio datganiadau ariannol wedi'u cydgrynhoi wrth adolygu gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Cod, mae ystod o ddatgeliadau naratif wedi'u gwneud mewn adrannau eraill o'r cyfrifon.

**3. Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill Amcangyfrifon**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau wedi'u hamcangyfrif sydd wedi'u seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynghylch y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Mae amcangyfrifon yn cael eu gwneud gan gymryd i ystyriaeth brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Er hynny, am nad oes modd pennu'r balansau'n sicr, fe allai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2016 y ceir risg arwyddocaol o addasiad sylweddol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sy'n dod fel a ganlyn:

**Eiddo, Peiriannau ac Offer**
Cafodd portffolio'r Cyngor o Dir ac Adeiladau Ysgol ei ailbrisio ar 31 Rhagfyr 2015. Cafodd yr holl asedau eraill eu prisio wrth y ddesg ar sail DRC ar 31 Mawrth 2015 yn sgil ailbrisiad llawn ar 1 Ebrill 2014. Mae gwerth yr asedau hyn wedi'i seilio ar gyfrifiadau a thechnegau amcangyfrif gan ddilyn canllawiau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), ac yn unol â'r IFRS.

**Dibrisiant Eiddo, Peiriannau ac Offer**
Mae asedau'n cael eu dibrisio dros oes ddefnyddiol sy'n dibynnu ar ragdybiaethau ynghylch lefel y gwaith trwsio a chynnal a geir ar gyfer yr asedau unigol. Gallai'r hinsawdd economaidd gyfredol arwain at orfod gwario llai ar waith trwsio a chynnal, gan godi amheuon ynghylch yr oes ddefnyddiol a ddyrannwyd i asedau. Os caiff oes ddefnyddiol asedau ei gwtogi, mae dibrisiant yn cynyddu a bydd swm cario'r asedau'n gostwng.

**Eiddo Buddsoddi, Asedau Gormodol ac Asedau a Gedwir i'w Gwerthu**

Amcangyfrifon gwerth teg

Rhoddodd y Cyngor gyfarwyddiadau i'r priswyr allanol Cooke & Arkwright ddarparu prisiadau ar 31 Rhagfyr 2015 ar gyfer holl bortffolio buddsoddi'r Cyngor. Cafodd y rhain eu prisio yn unol â'r IFRS13.

Pan nad oes modd i werthoedd teg Eiddo Buddsoddi, Asedau Gormodol ac Asedau a Gedwir i'w Gwerthu gael eu mesur ar sail prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol (sef mewnbynnau Lefel 1), mae eu gwerth teg yn cael ei mesur gan ddefnyddio'r technegau prisio a ganlyn:

1. Ar gyfer mewnbynnau Lefel 2, prisiau a ddyfynnir ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ar ddyddiad y Fantolen

2. Ar gyfer mewnbynnau Lefel 3, prisiadau wedi'u seilio ar y prisiadau mwyaf diweddar, wedi'u haddasu i'r prisiad cyfredol drwy ddefnyddio mynegeiad ac adolygiad o amhariadau.

Os oes modd, mae'r mewnbynnau yn y technegau prisio hyn yn cael eu seilio ar y data sydd ar gael i'w weld, ond pan nad yw hyn yn bosibl, rhaid gwneud dyfarniad a mesur er mwyn sefydlu gwerthoedd teg. Mae'r dyfarniadau hyn fel rheol yn cynnwys ystyriaethau fel

ansicrwydd a risg. Gallai newid yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir effeithio ar y gwerth teg. Defnyddiodd y priswyr allanol y technegau prisio mwyaf priodol i bennu'r gwerth teg.

**Rhwymedigaeth Pensiynau**
Mae'r amcangyfrifon o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth ynglŷn â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, ar ba gyfradd y darogenir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau yn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaeth a'r enillion a ddisgwylir ar asedau cronfeydd pensiwn. Mae ffyrm o actiwarïaid ymgynghorol yn cael ei defnyddio i roi cyngor arbenigol i'r Cyngor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio.

**Nodiadau ar y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn**

**4. Addasiadau rhwng Sail Gyfrifydda a Sail Ariannu o dan y Rheoliadau**

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wnaed yng nghyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabuwyd gan yr Awdurdod yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifydda priodol ar gyfer yr adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r Cyngor i dalu gwariant refeniw a chyfalaf yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn disgrifio'r cronfeydd wrth gefn y gwnaed yr addasiadau ar eu cyfer.

**Balans Cronfa'r Cyngor**

Dyma'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau'r awdurdod gael eu talu iddi ac y mae holl rwymedigaethau'r Cyngor i'w talu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gall rheolau statudol ddarparu'n wahanol. Mae'r rheolau hyn hefyd yn cael pennu ym mha flwyddyn ariannol y dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor, heb gyd-fynd o reidrwydd â'r arferion cyfrifydda priodol. Gan hynny, mae Balans Cronfa'r Cyngor yn crynhoi'r adnoddau y mae gan y Cyngor bŵer statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiadau cyfalaf (neu'r diffyg neu'r adnoddau y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu hadennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Cronfa Derbyniadau Cyfalaf**

Mae'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf yn cadw'r enillion yn sgil gwaredu tir neu asedau eraill, y mae'r statud yn eu cyfyngu rhag cael eu defnyddio heblaw i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae balans y gronfa'r dangos yr adnoddau sydd heb eu defnyddio at y dibenion hyn eto ar ddiwedd y flwyddyn.

**Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio**

Mae'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio yn cadw'r grantiau a'r cyfraniadau a gafwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Cyngor wedi bodloni'r amodau ar eu cyfer a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r arian gael ei ad-dalu fel arall, ond sydd heb eu defnyddio eto i dalu am wariant. Mae'r balans yn cael ei gyfyngu gan delerau'r grantiau ynglŷn â'r gwariant cyfalaf y gellir ei ddefnyddio ar ei gyfer a/neu ynglŷn â'r flwyddyn ariannol y caniateir hynny ynddi.

Mae'r tablau isod yn manylu ar yr addasiadau ar gyfer 2014-15 at ddibenion cymharu a'r addasiadau ar gyfer 2015-16:-

# Datganiad Cyfrifon 2015-16

| 2015-16 | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Symudiad un y Cronfeydd Annefnyddiadwy £'000 | Cronfa Ailbrisio £'000 | Cronfa Bensiynau Wrth Gefn £'000 | Cyfrif Addasu Cyfalaf £'000 | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol £'000 | Absenoldebau lawndaledig Brydymor £'000 | Symudiad yn y Cronfeydd Annefnyddiadwy £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau rhwng y sail cyfrifydda a'r sail cyllido o dan y rheoliadau** | | | | | | | | | | |
| **Addasiadau yn cynnwys y cyfrif addasiadau cyfalaf yn bennaf** | | | | | | | | | | |
| **Gwrth-droi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad cynhwysfawr incwm a gwariant** | | | | | | | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol | 23,082 | | | **23,082** | | | (23,082) | | | **(23,082)** |
| Colledion ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | 3,258 | | | **3,258** | | | (3,258) | | | **(3,258)** |
| Symudiad yng ngwerth marchnad iddo buddsoddi | (1,082) | | | **(1,082)** | | | 1,082 | | | **1,082** |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a ddefnyddiwyd | (13,606) | | | **(13,606)** | | | 13,606 | | | **13,606** |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf o dan statud | 696 | | 14 | **710** | | | (710) | | | **(710)** |
| Symiau asedau anghyfredol a ysgrifennwyd i ffwrdd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o'r enilliad/colled ar waredu i'r cyfrif cynhwysfawr incwm a gwariant | 6,140 | | | **6,140** | (2,142) | | (3,998) | | | **(6,140)** |
| Addasiad rhwng y CAA a'r gronfa ailbrisio ar gyfer dibrisiant sy'n ymwneud â'r balans ailbrisio yn hytrach na'r gost hanesyddol | | | | | (2,464) | | 2,464 | | | **-** |
| **Mewnosod eitemau sydd heb eu debydu neu eu credydau i'r datganiad cynhwysfawr incwm a gwariant** | | | | | | | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiadau cyfalaf | (8,513) | | | **(8,513)** | | | 8,513 | | | **8,513** |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balans cronfa'r Cyngor | (1,262) | | | **(1,262)** | | | 1,262 | | | **1,262** |
| **Addasiadau yn cynnwys y cyfrif grantiau cyfalaf heb eu defnyddio yn bennaf** | | | | **-** | | | | | | **-** |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf heb eu defnyddio a gredydwyd i'r datganiad cynhwysfawr incwm a gwariant | (16) | | 16 | **-** | | | | | | **-** |
| Cymhwyso grantiau ar gyfer cyllid cyfalaf a drosglwyddwyd i'r cyfrif addasu cyfalaf | | | | **-** | | | | | | **-** |
| **Addasiadau yn cynnwys y gronfa derbyniadau cyfalaf yn bennaf** | | | | | | | | | | |
| Trosglwyddo enillion gwerthiannau arian parod a gredydwyd fel rhan o'r enilliad/colled wrth waredu i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | (3,959) | 3,959 | | **-** | | | | | | **-** |
| Defnyddio'r gronfa derbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd | | (146) | | **(146)** | | | 146 | | | **146** |
| | | 5 | | **5** | | | (5) | | | **(5)** |
| **Addasiadau yn cynnwys y Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn bennaf** | | | | | | | | | | |
| Swm y gwahaniaeth rhwng costau cyllid a godwyd ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant a'r costau cyllid sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | (2,893) | | | **(2,893)** | | | | 2,893 | | **2,893** |
| **Addasiadau yn cynnwys y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn bennaf** | | | | | | | | | | |
| Gwrth-droi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | 26,600 | | | **26,600** | | (26,600) | | | | **(26,600)** |
| Cyfraniad y cyflogwr at gynlluniau pensiwn | (20,010) | | | **(20,010)** | | 20,010 | | | | **20,010** |
| **Addasiadau yn cynnwys y Cyfrif absenoldebau Cronedig yn bennaf** | | | | | | | | | | |
| Swm y gwahaniaeth rhwng tâl swyddogion a godwyd ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant ar sail croniadau a'r tâl sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | (1,865) | | | **(1,865)** | | | | | 1,865 | **1,865** |
| **Cyfanswm addasiadau 2015-16** | **6,570** | **3,818** | **30** | **10,418** | **(4,606)** | **(6,590)** | **(3,980)** | **2,893** | **1,865** | **(10,418)** |

| 2014-15 | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Symudiad un y Cronfeydd Annefnyddiadwy £'000 | Cronfa Ailbrisio £'000 | Cronfa Bensiynau Wrth Gefn £'000 | Cyfrif Addasu Cyfalaf £'000 | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol £'000 | Absenoldebau Iawndaledig Brydymor £'000 | Symudiad yn y Cronfeydd Annefnyddiadwy £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau rhwng y sail cyfrifydda a'r sail cyllido o dan y rheoliadau** | | | | | | | | | | |
| **Addasiadau yn cynnwys y cyfrif addasiadau cyfalaf yn bennaf** | | | | | | | | | | |
| **Gwrth-droi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad cynhwysfawr incwm a gwariant** | | | | | | | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol | 28,008 | | | **28,008** | | | (28,008) | | | **(28,008)** |
| Colledion ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | 59,716 | | | **59,716** | | | (59,716) | | | **(59,716)** |
| Symudiad yng ngwerth marchnad iddo buddsoddi | (646) | | | **(646)** | | | 646 | | | **646** |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a ddefnyddiwyd | (12,817) | | | **(12,817)** | | | 12,817 | | | **12,817** |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf o dan statud | 774 | | (340) | **434** | | | (434) | | | **(434)** |
| Symiau asedau anghyfredol a ysgrifennwyd i ffwrdd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o'r enilliad/colled ar waredu i'r cyfrif cynhwysfawr incwm a gwariant | 7,014 | | | **7,014** | (5,574) | | (1,440) | | | **(7,014)** |
| Addasiad rhwng y CAA a'r gronfa ailbrisio ar gyfer dibrisiant sy'n ymwneud â'r balans ailbrisio yn hytrach na'r gost hanesyddol | | | | | (2,695) | | 2,695 | | | **-** |
| **Mewnosod eitemau sydd heb eu debydu neu eu credydau i'r datganiad cynhwysfawr incwm a gwariant** | | | | | | | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiadau cyfalaf | (8,020) | | | **(8,020)** | | | 8,020 | | | **8,020** |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balans cronfa'r Cyngor | (1,803) | | | **(1,803)** | | | 1,803 | | | **1,803** |
| **Addasiadau yn cynnwys y cyfrif grantiau cyfalaf heb eu defnyddio yn bennaf** | | | | **-** | | | | | | **-** |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf heb eu defnyddio a gredydwyd i'r datganiad cynhwysfawr incwm a gwariant | (8) | | 8 | **-** | | | | | | **-** |
| Cymhwyso grantiau ar gyfer cyllid cyfalaf a drosglwyddwyd i'r cyfrif addasu cyfalaf | | | (24) | **(24)** | | | 24 | | | **24** |
| **Addasiadau yn cynnwys y gronfa derbyniadau cyfalaf yn bennaf** | | | | | | | | | | |
| Trosglwyddo enillion gwerthiannau arian parod a gredydwyd fel rhan o'r enilliad/colled wrth waredu i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | (6,296) | 6,296 | | **-** | | | | | | **-** |
| Defnyddio'r gronfa derbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd | | (2,019) | | **(2,019)** | | | 2,019 | | | **2,019** |
| | | 12 | | **12** | | | (12) | | | **(12)** |
| **Addasiadau yn cynnwys y Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn bennaf** | | | | | | | | | | |
| Swm y gwahaniaeth rhwng costau cyllid a godwyd ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant a'r costau cyllid sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | (1,688) | | | **(1,688)** | | | | 1,688 | | **1,688** |
| **Addasiadau yn cynnwys y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn bennaf** | | | | | | | | | | |
| Gwrth-droi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | 26,800 | | | **26,800** | | (26,800) | | | | **(26,800)** |
| Cyfraniad y cyflogwr at gynlluniau pensiwn | (17,780) | | | **(17,780)** | | 17,780 | | | | **17,780** |
| **Addasiadau yn cynnwys y Cyfrif absenoldebau Cronedig yn bennaf** | | | | | | | | | | |
| Swm y gwahaniaeth rhwng tâl swyddogion a godwyd ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant ar sail croniadau a'r tâl sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 392 | | | **392** | | | | | (392) | **(392)** |

### Nodiadau ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant

**5. Praeseptau ac ardollau**

Praeseptau yw'r symiau sy'n cael eu talu i awdurdodau nad ydynt yn bilio (e.e. cynghorau cymuned) er mwyn iddyn nhw dalu eu costau. Ardollau yw'r symiau sy'n daladwy pan fydd gwasanaethau'n gweithio ar draws ardaloedd sy'n cynnwys mwy nag un awdurdod, naill ai ar sail gwasanaeth ar y cyd, lle mae un awdurdod yn gweinyddu'r gwasanaeth a'r awdurdodau eraill yn cyfrannu at y costau, neu gan gyrff allanol sy'n codi ardoll ar yr awdurdodau priodol. Roedd y symiau a dalwyd fel a ganlyn:

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| | **Praeseptau** | |
| 9,625 | Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru | 10,207 |
| 1,574 | Cynghorau cymuned | 1,737 |
| **11,199** | **Is-gyfanswm** | **11,944** |
| | | |
| | **Ardollau** | |
| 6,585 | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru | 6,484 |
| 208 | Gwasanaeth y Crwner | 223 |
| 95 | Gwasanaeth Archifau | 96 |
| (13) | Cyd-bwyllgor Amlosgfa Margam | 1 |
| 19 | Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe | 19 |
| **6,894** | **Is-gyfanswm** | **6,823** |
| **18,093** | **Cyfanswm** | **18,767** |

**6. Gweithgareddau masnachu**

Fel y dywedwyd yn y nodyn ar Addasiadau Cyfnod Blaenorol, does gan y Cyngor ddim gweithrediadau masnachu arwyddocaol y dylid cael cyfrifon ar wahân ar eu cyfer.

**7. Grant Cynnal Refeniw**

Dyma brif ffynhonnell cyllid tuag at wariant refeniw oddi wrth Lywodraeth Cymru ac mae'r swm sydd i'w dderbyn yn cael ei bennu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Y swm a daeth i law yn 2015-16 oedd £148.0 miliwn (£150.9 miliwn ar gyfer 2014-15).

**8. Grantiau'r Llywodraeth**

Ar ben y Grant Cynnal Refeniw, cafodd y Cyngor y grantiau penodol a ganlyn oddi wrth y Llywodraeth:-

| 2014-15<br>£'000 | Specific Grants credited to Services | 2015-16<br>£'000 |
|---|---|---|
| 49,512 | Cymhorthdal Budd-dal Tai | 49,536 |
| 6,307 | Grant Ôl-16 DCELLS | 6,502 |
| 4,146 | Grant Cyfnod Sylfaen/Grant Gwella Addysg | 5,213 |
| 7,384 | Plant – Arall | 5,672 |
| 825 | Llesiant – Arall | 1,687 |
| 3,171 | Eraill | 4,845 |
| 6,152 | Cefnogi Pobl | 5,816 |
| 388 | Chwaraeon, Chwarae a Lles Egnïol | 401 |
| 2,806 | Grant Gostyngiadau Teithio | 2,973 |
| 3,025 | Dechrau'n Deg | 3,178 |
| 2,854 | Grant Gwastraff Cynaliadwy | 2,796 |
| 807 | Gweinyddu Budd-dal Tai/Budd-dal Treth Gyngor | 708 |
| 390 | Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol | |
| 1,511 | Cymunedau yn Gyntaf | 1,478 |
| 1,840 | Teuluoedd yn Gyntaf | 1,898 |
| **91,118** | **Cyfanswm** | **92,703** |

| 2014-15<br>£'000 | Grantiau Eraill y Llywodraeth a gredydwyd i Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 2015-16<br>£'000 |
|---|---|---|
| 1,412 | Grant Cytundeb Gwelliannau | 1,400 |
| 12,825 | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | 13,622 |
| **14,237** | **Cyfanswm** | **15,022** |
| **105,355** | **Cyfanswm** | **107,725** |

Cynhwysir incwm grant yn y golofn incwm gros gyda gwasanaethau ac eithrio'r Grant Cytundeb Gwella a grantiau a chyfraniadau cyfalaf.

## 9. Y Dreth Gyngor

Mae'r Dreth Gyngor yn deillio o'r taliadau sy'n cael eu codi yn ôl gwerth eiddo preswyl, sydd wedi'i ddosbarthu'n ddeg band prisio sy'n amcangyfrif gwerthoedd 1 Ebrill 2005 at y diben penodol hwn. Mae'r taliadau'n cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio swm yr incwm y mae ei angen ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, pob Cyngor Cymuned ac Awdurdod Heddlu De Cymru a rhannu hynny â sail y Dreth Gyngor. Sail y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr anheddau ym mhob band wedi'i addasu yn ôl cyfran er mwyn troi'r rhif yn rhif sy'n cyfateb i Fand D a'i addasu ar gyfer disgowntiau – 51,071.48 o anheddau ar gyfer 2015-16 (50,566.20 yn 2014-15). £1,482.94 yw swm cyfartalog eiddo ym Mand D yn 2015-16 (£1,413.33 yn 2014-15 ar gyfartaledd) ac mae hyn yn cael ei luosi â'r gyfran a bennir ar gyfer y band penodol i roi'r swm unigol sy'n ddyledus.

Cafodd biliau'r Dreth Gyngor eu seilio ar y lluosyddion a ganlyn ar gyfer bandiau A* i I ac roedd nifer yr anheddau ym mhob band fel a ganlyn:

| Band | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lluosydd** | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 |
| **Anheddau trethadwy** | 25 | 10,088 | 14,761 | 13,804 | 9,805 | 7,022 | 3,973 | 1,363 | 283 | 86 |

Dyma ddadansoddiad o'r enillion net o'r Dreth Gyngor:

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 73,164 | Treth Gyngor Gasgladwy | 77,487 |
| | Llai: | |
| (1,574) | Taladwy i Gynghorau Cymuned | (1,737) |
| (9,625) | Taladwy i Heddlu De Cymru | (10,207) |
| (1,159) | Darpariaeth ar gyfer peidio â thalu'r Dreth Gyngor (Cynnydd) / Gostyngiad | 386 |
| **60,806** | **Enillion Net o'r Dreth Gyngor** | **65,929** |

## 10. Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Trefnir yr NNDR ar sail genedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru'n pennu'r gyfradd yn bunt sydd i'w chodi ac, yn unol ag effeithiau trefniadau pontio, bydd busnesau lleol yn talu ardrethi sy'n cael eu cyfrifo drwy luosi eu gwerth trethiannol â'r gyfradd yn y bunt. 48.2c oedd hyn yn 2015-16 (47.3c yn 2014-15). Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r ardrethi sy'n ddyledus oddi wrth y trethdalwyr yn ei ardal ond mae'n talu'r enillion i gronfa'r NNDR sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cymru. Wedyn mae Llywodraeth Cymru'n ailddosbarthu'r symiau taladwy yn ôl i'r awdurdodau ar sail swm penodedig am bob pen o'r boblogaeth.

Mae'r Cyngor yn cael cyfraniad yn uniongyrchol o gronfa'r NNDR. Dylai'r incwm hwn gael ei adlewyrchu ar wahân yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. £40.274 miliwn oedd y swm hwn yn 2015-16 (£43.794 miliwn yn 2014-15).

## 11. Prydlesau

Y Cyngor fel Prydlesai

Prydlesau arian (heblaw'r Fenter Cyllid Preifat)

O dan IFRS, cafodd nifer o brydlesau ynglŷn â cherbydau, peiriannau ac offer eu hailddosbarthu o'r blaen fel prydlesau arian, a'u cario fel Eiddo, Peiriannau ac Offer yn y Fantolen. Yn 2012-13, gwnaeth y Cyngor gontract ar gyfer rheoli ei gyfleusterau hamdden a oedd yn cynnwys contract ynglŷn â buddsoddiad cyfalaf mawr sy'n cael ei ariannu drwy'r ffi reoli yn y contract. Roedd yr elfen hon yn y ffi reoli yn cael ei thrin fel prydles arian, ond fe dalodd y Cyngor y rhwymedigaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan adael dim rhwymedigaeth at y dyfodol, fel y nodir yn y tablau isod.

| 31 Mawrth 2015 £'000 | | 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|
| 807 | Contract Hamdden – buddsoddiad cyfalaf | - |
| **807** | **Cyfanswm** | **-** |

Prydlesau Gweithredu

Dyma isafswm y taliadau sy'n ddyledus yn y dyfodol ar brydlesau nad oes modd ei ddileu:-

| 31 Mawrth 2015 £'000 | | 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|
| 1,058 | Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 787 |
| 2,469 | Hwyrach na blwyddyn | 2,021 |
| 8,034 | Hwyrach a phum mlynedd | 7,583 |
| **11,561** | **Cyfanswm** | **10,391** |

Y gwariant a godwyd yn y flwyddyn ar y meysydd gwasanaeth oedd £0.851 miliwn a oedd yn cynnwys isafswm taliadau ar brydlesau o £0.404 miliwn a £0.447 miliwn ar gyfer rhenti digwyddiadol (£0.975 miliwn yn 2014-15 a oedd yn cynnwys £0.401 miliwn o isafswm taliadau prydles a £0.574 miliwn o renti digwyddiadol).

Y Cyngor fel Prydleswr

Prydlesau Gweithredu

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo allan at ddibenion economaidd i ddarparu llety fforddiadwy i fusnesau lleol. Dyma'r rhenti a dderbynnir yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredu:-

| 31 Mawrth 2015 £'000 | | 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|
| 39 | Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 48 |
| 170 | Hwyrach na blwyddyn | 120 |
| 824 | Hwyrach a phum mlynedd | 800 |
| **1,033** | **Cyfanswm** | **968** |

## 12. Y Fenter Cyllid Preifat (PFI)

Yn ystod blwyddyn ariannol 2008-09, dechreuodd y Cyngor dalu, o dan drefniant y Fenter Cyllid Preifat (PFI), am ddarparu ysgol uwchradd ym Maesteg, sef trefniant a wnaed yn 2007-08 ac a fydd yn rhedeg tan fis Awst 2033. Ceir ymrwymiad o £30.5 miliwn (Gwerth Presennol Net) dros oes y contract, sydd i'w ariannu drwy gyfuniad o Gredydau PFI, y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru, ac adnoddau'r Cyngor/adnoddau Dirprwyedig Ysgolion.

Rhennir Cyfanswm y taliad unedol yn elfen tâl gwasanaeth, elfen ar gyfer ad-dalu'r rhwymedigaeth ac elfen ar gyfer llogau. Dangosir y taliadau isod:-

| 2014-15 £'000 | Tâl Unedol | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 635 | Elfen Tâl Gwasanaeth | 636 |
| 1,471 | Elfen Llog | 1,434 |
| 476 | Rhwymedigaeth Prydles Ariannol | 513 |
| **2,582** | **Cyfanswm** | **2,583** |

Gwneir y taliadau hyn dros oes y contract PFI ac mae'r amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd dilynol i'w gweld isod yn ôl y prisiau cyfredol:-

| Tâl Unedol | 2016-17<br>£'000 | 2017-18 to 2021-22<br>£'000 | 2022-23 to 2026-27<br>£'000 | 2027-28 to 2031-32<br>£'000 | 2032-33 to 2033-34<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Elfen Tâl Gwasanaeth | 502 | 2,511 | 2,511 | 2,511 | 997 |
| Elfen Llog | 1,395 | 6,264 | 4,702 | 2,436 | 147 |
| Rhwymedigaeth Prydles Ariannol | 552 | 3,470 | 5,032 | 7,298 | 2,435 |
| **Cyfanswm** | **2,449** | **12,245** | **12,245** | **12,245** | **3,579** |

Mae'r Cyngor yn talu costau'r Taliad Unedol o'i adnoddau ei hun ac o gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae proffil yr arian oddi wrth Lywodraeth Cymru'n gostwng bob blwyddyn nes y daw cyfnod y contract i ben ac mae'r taliad unedol sydd i'w dalu gan y Cyngor yn cynyddu bob blwyddyn dros yr un cyfnod. Mae hyn yn arwain at "ormodedd" o adnoddau ar gyfer PFI o'i gymharu â thaliadau yng nghyfnod cychwynnol y contract. Mae'r cyfrifon gormodol hyn yn cael eu neilltuo mewn cronfa a glustnodwyd i ariannu rhan olaf cyfnod y contract pan fo'r taliadau blynyddol yn fwy na'r adnoddau blynyddol.

Ar 31 Mawrth 2016, balans y gronfa a glustnodwyd ar gyfer cyfartalu'r PFI oedd £3.706 miliwn (£3.407 miliwn ar 31 Mawrth 2015).

## 13. Adran 33 o Ddeddf yr NHS (Cymru) 2006

Mae rhywfaint o drefniadau ffurfiol ar gyfer cyfuno cyllidebau rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a manylir ar y rhain isod:-

| 2014-15 | | | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm gros y bartneriaeth<br>£'000 | Gwariant gros y bartneriaeth<br>£'000 | Cyfraniad yr awdurdod<br>£'000 | Partner | Diben y bartneriaeth | Incwm gros y bartneriaeth<br>£'000 | Gwariant gros y bartneriaeth<br>£'000 | Cyfraniad yr awdurdod<br>£'000 |
| 608 | 608 | 325 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg | Darpariaeth Gwasanaethau Integredig yn defnyddio Cronfa Gyffredin. Darparu cyfleoedd dydd i bobl sy'n ymadfer ar ôl problemau iechyd meddwl. | 615 | 615 | 328 |
| 2,261 | 2,686 | 492 | CBS Rhondda Cynon Taf<br>CBS Merthyr Tudful<br>BILI Cwm Taf<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg | Comisiynu integredig o gronfa gyffredin i gaffael offer cymunedol penodol i bobl gymwys yn ardal weinyddol y bartneriaeth. Rhondda Cynon Taf yw'r partner arweiniol. | 2,654 | 2,625 | 569 |
| 0 | 0 | 0 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg | Darpariaeth gwasanaethau integredig yn defnyddio cronfa gyffredin i ddarparu gwasanaethau cymorth cymunedol | 4,414 | 4,414 | 2,346 |

## 14. Darpariaeth Refeniw Isaf

Mae'r statud yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) ddarbodus ar gyfer ad-dalu dyledion allanol. Yn unol â'r gofyniad hwn, mae'r ddarpariaeth ar gyfer 2015-16 wedi'i chyfrifo fel y'i gwelir yn y tabl isod. Mae wedi'i seilio ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) agoriadol y Cyngor.

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 177,033 | CFR 1 Ebrill | 176,010 |
| | Addasiad ar gyfer yr Amlosgfa * | (177) |
| 108 | Addasiad HALO | 124 |
| (19,776) | Ysgol PFI | (19,300) |
| (816) | Canolfan Arloesi | (770) |
| (41) | Prydlesau Ariannol | - |
| (1,078) | Rhwymedigaeth Gyfalaf y Contract Hamdde | (1,086) |
| (82) | Addasiad Ffactor A | (82) |
| (3,946) | Addasiad asedau arwyddocaol | (3,813) |
| (24,845) | Benthyciadau â Chymorth Addasiad CFR Para 19 2008/Addasiad Benthyciadau heb Gymorth | (24,974) |
| **126,557** | **CFR wedi'i Addasu** | **125,932** |
| | | |
| 5,062 | MRP Sylfaenol 4% | 5,037 |
| 132 | MRP ased arwyddocaol | 132 |
| 476 | Ysgol PFI – Tâl MRP | 513 |
| 47 | Tâl MRP y Ganolfan Arloesi | 51 |
| 41 | Tâl MRP Prydlesau Ariannol | - |
| 117 | Tâl MRP Halo | 1,086 |
| - | Tâl MRP yr Amlosgfa | 49 |
| 2,145 | Unsupported Borrowing MRP | 1,646 |
| **8,020** | **Cyfanswm MRP** | **8,514** |

Mae'r addasiad i'r CFR agoriadol yn ymwneud â gwahanu benthyciadau ar gyfer Amlosgfa Llangrallo. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi penderfynu talu MRP ychwanegol er mwyn talu balans y benthyciadau yn gynt. Gan hynny, o ran tryloywder, mae hyn wedi'i ddangos ar wahân yn y tabl isod yn wahanol i 2015-16.

**15. Tâl y Swyddogion**

Mae angen pedwar datgeliad gwahanol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â naill ai Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, neu God CIPFA.

**<u>Datgeliad 1 – Cymhareb Tâl y Prif Weithredwr i dâl canolrifol holl weithwyr y corff</u>**

Yn achos Pen-y-bont ar Ogwr, y gymhareb yw 6.64 a'r cyflog canolrifol yw £19,742, hynny yw mae tâl y Prif Weithredwr 6.64 gwaith yn fwy na thâl canolrifol gweithwyr y Cyngor. Y gymhareb gymaradwy yn 2014-15 oedd 6.49 a'r cyflog cymaradwy oedd £19,317.

**<u>Datgeliad 2 : Tabl Tâl Swyddogion dros £60k</u>**

Mae nifer y gweithwyr (gan gynnwys athrawon) yr oedd eu tâl, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn, yn £60,000 neu ragor am y flwyddyn fel a ganlyn:

| 2014-15 gan gynnwys Costau Dileu Swyddi | Band Tâl | Nifer y gweithwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Symudiad yn y Bandiau | 2015-16 gan gynnwys Costau Dileu Swyddi | 2015-16 heb gynnwys Costau Dileu Swyddi | Nifer yr Athrawon yn y Ffigurau heb gynnwys Dileu Swyddi | Nifer y Swyddogion heblaw Athrawon yn y Ffigurau heb gynnwys Dileu Swyddi |
| 18 | £60,000 - £64,999 | 5 | **23** | 18 | 15 | 3 |
| 14 | £65,000 - £69,999 | 5 | **19** | 15 | 15 | - |
| 6 | £70,000 - £74,999 | (1) | **5** | 4 | 4 | - |
| 5 | £75,000 - £79,999 | 2 | **7** | 6 | 1 | 5 |
| 3 | £80,000 - £84,999 | 6 | **9** | 3 | 1 | 2 |
| 1 | £85,000 - £89,999 | 1 | **2** | 1 | 1 | - |
| 4 | £90,000 - £94,999 | - | **4** | 2 | 2 | - |
| 4 | £95,000 - £99,999 | (3) | **1** | 1 | - | 1 |
| 4 | £100,000 - £104,999 | 4 | **8** | 6 | 2 | 4 |
| - | £105,000 - £109,999 | - | **-** | - | - | - |
| - | £110,000 - £114,999 | 1 | **1** | - | - | - |
| - | £115,000 - £119,999 | 2 | **2** | - | - | - |
| - | £120,000 - £124,999 | - | **-** | - | - | - |
| 1 | £125,000 - £129,999 | (1) | **-** | - | - | - |
| - | £130,000 - £134,999 | 1 | **1** | 1 | - | 1 |
| - | £160,000 - £164,999 | 1 | **1** | - | - | - |
| **60** | | **23** | **83** | **57** | **41** | **16** |

**Nodyn 1**: Mae hyn yn cadarnhau bod yna 57 unigolion sydd â thâl o £60,000 neu ragor, gan gynnwys:-

a) 41 o Brifathrawon a Dirprwy Brifathrawon, a
b) 12 o Uwch-reolwyr yn y Cyngor, gan gynnwys yr Uwch-swyddogion a dangosir yn Natgeliad 3 isod, a Phenaethiaid Gwasanaeth.

## Datgeliad 3 : Tabl Tâl Uwch-swyddogion (gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn)

| Teitl Swydd | Cyflog | | Cyfraniadau Pensiwn | | Cyfanswm y Tal gan gynnwys Cyfraniadau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 15-16 | 14-15 | 15-16 | 14-15 | 15-16 | 14-15 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (gweler Nodyn 1 i | 131,091 | 128,169 | 27,529 | 26,051 | 158,620 | 154,220 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gweddnewid | 102,355 | 99,646 | 21,494 | 20,726 | 123,849 | 120,372 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau | 104,068 | 101,857 | 21,854 | 21,186 | 125,922 | 123,043 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 102,355 | 99,646 | 21,494 | 20,726 | 123,849 | 120,372 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau a Swyddog Adran 151 | 104,068 | 104,068 | 21,854 | 21,646 | 125,922 | 125,714 |
| Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol | 96,002 | 93,661 | 20,160 | 19,482 | 116,162 | 113,143 |

## Nodiadau

Nodyn 1: Nid yw cyflog y Prif Swyddog Gweithredol yn cynnwys taliadau am ddyletswyddau etholiadau. Daeth y rhain i gyfanswm o £5,250 am yr Etholiad Seneddol, dau etholiad lleol a phum etholiad cyngor cymuned

Nodyn 2: Mae cyfraniadau pensiwn yn cyfeirio at y taliadau gwirioneddol a wnaed

**Datgeliad 4: Tabl ar Becynnau Ymadael**

Mae nifer y pecynnau ymadael gyda chyfanswm y gost fesul band (£oedd) a chyfanswm cost y swyddi a ddilëwyd yn orfodol ac fel arall wedi'u nodi yn y tabl isod:

| Band Cost y Pecynnau Ymadael (gan gynnwys taliadau Arbennig) | Dileu Swyddi'n Orfodol | | Ymadawiadau Eraill y Cytunwyd arnynt | | Cyfanswm Nifer y Pecynnau Ymadael fesul Band Cost | | Cyfanswm Cost y Pecynnau Ymadael fesul Band Cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 15-16 | 14-15 | 15-16 | 14-15 | 15-16 | 14-15 | 15-16 £ | 14-15 £ |
| £0 - £20,000 | 38 | 73 | 31 | 45 | 69 | 118 | 604,894 | 955,813 |
| £20,001 - £40,000 | 11 | 21 | 41 | 27 | 52 | 48 | 1,458,778 | 1,391,579 |
| £40,001 - £60,000 | 10 | 7 | 9 | 5 | 19 | 12 | 953,031 | 563,059 |
| £60,001 - £80,000 | 1 | 1 | 2 | - | 3 | 1 | 204,767 | 67,383 |
| £80,001 - £100,000 | 1 | - | 2 | - | 3 | - | 266,552 | - |
| £100,001 - £120,000 | - | - | | 1 | - | 1 | | 112,117 |
| £120,001 - £140,000 | - | - | 1 | 1 | 1 | 1 | 139,431 | 125,483 |
| | **61** | **102** | **86** | **79** | **147** | **181** | **3,627,453** | **3,215,434** |

## 16. Lwfansau'r Aelodau

O ganlyniad i'r adroddiad ym mis Rhagfyr 2011 gan Banel Tâl Annibynnol Cymru, daeth system newydd o daliadau 'cyflog' i aelodau i rym yn llawn o 16 Mai 2012 ymlaen. Erbyn hyn mae gan y Cyngor 'Gyflog Sylfaenol' i'r holl aelodau, 'Cyflog Uwch' a Chyflog Dinesig.

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 515 | Cyflog Sylfaenol (pob Aelod) | 544 |
| 524 | Uwch-gyflog | 508 |
| 40 | Civic Salary | 37 |
| **1,079** | **Cyfanswm** | **1,089** |

Mae manylion llawn y trefniadau 'cyflog' ar gael ar wefan y Cyngor, ac mae manylion holl enillion yr aelodau hefyd yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ar wefan y Cyngor.

## 17. Costau archwilio allanol

Yn 2015-16 ysgwyddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y ffioedd a ganlyn ar gyfer archwilio ac arolygu allanol:

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 196 | Archwilio'r Datganiad Ariannol | 196 |
| 98 | Archwilio'r Perfformiad | 97 |
| **294** | **Gwasanaethau Archwilio Allanol** | **293** |
| 1 | Statutory Inspection | - |
| 47 | Hawliau a Ffurflenni Grantiau | 47 |
| **342** | **Cyfanswm** | **340** |

## 18. Cymdeithion, Is-gwmnïau, Cyd-fentrau a Gweithrediadau ar y Cyd

### Cymdeithion, Is-gwmnïau a Chyd-fentrau

Does gan y Cyngor ddim buddiannau mewn is-gwmnïau, cymdeithion a chyd-fentrau, fel y'u diffinnir gan God CIPFA.

**Capita Glamorgan Consultancy Ltd**

Mae Capita Glamorgan Consultancy Ltd yn fenter ar y cyd rhwng Capita Symonds a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae 14.7% o'r cyfrannau yn y cwmni'n perthyn i'r Cyngor, sydd â hawliau pleidleisio cyfwerth â hynny ar y Bwrdd. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau yn aelod o'r Bwrdd. Yn ystod 2015-16, codwyd £867,435 (2014-15: £817,204) ar y Cyngor mewn perthynas â nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyfalaf.

**Gweithrediadau ar y Cyd**

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn nifer o Weithrediadau ar y Cyd ac, yn unol â Chod CIPFA, mae'n cydnabod yr holl refeniw a chostau, ac unrhyw asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn ei gyfrifon fel endid sengl. Mae'r Gweithrediadau ar y Cyd yn cynnwys:-

**Cyd-bwyllgor Archifau Morgannwg**
Mae Swyddfa Cofnodion Morgannwg yn cael ei rheoli a'i gweinyddu gan Gyd-bwyllgor Archifau Morgannwg o dan bwerau a roddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Yn ystod 2015-16, cyfrannodd y Cyngor swm o £95,436 at y Cyd-bwyllgor (£95,437 yn 2014-15). Cyfrifwyd hyn mewn cyfrannedd, ar sail y boblogaeth. Mae datganiadau ariannol y Cyd-bwyllgor ar gael ar wefan Cyngor Dinas Caerdydd (www.cardiff.gov.uk)

**Amlosgfa Llangrallo**
Mae Amlosgfa Llangrallo o dan reolaeth Cyd-bwyllgor o Aelodau o CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Rhondda Cynon Taf a CBS Bro Morgannwg. Mae'r Amlosgfa'n hunan-ariannu drwy gyfrwng incwm ac nid yw'r partneriaid yn gwneud cyfraniadau. Mae Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor hwn ar gael ar wefan CBS Pen-y-bont ar Ogwr (www.bridgend.gov.uk).

**Amlosgfa Margam**
Mae Amlosgfa Margam o dan reolaeth Cyd-bwyllgor o Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sy'n rheoli'r Amlosgfa. Cyfraniad Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr at Amlosgfa Margam yn 2015-16 oedd £1,312 (2014-14 – ad-daliad o £14,416). Mae Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor hwn ar gael ar wefan CBS Castell-nedd Port Talbot (www.npt.gov.uk)

**Cyflenwadau'r Bwrdeistrefi Sirol**
Rhoddodd Cyflenwadau'r Bwrdeistrefi Sirol y gorau i fasnachu ar 31 Mawrth 2016. Tan hynny, roedd yn cael ei weinyddu gan y Cyngor gan gyflenwi nwyddau megis deunyddiau swyddfa. Roedd yn Gyd-bwyllgor ac iddo aelodau o CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Rhondda Cynon Taf, CBS Merthyr Tudful a CBS Caerffili. Roedd y gwasanaeth yn cael ei ariannu drwy gyfrwng incwm o werthiannau ac nid oedd y partneriaid yn gwneud cyfraniadau ychwanegol. Caiff unrhyw warged/diffyg ei rannu rhwng yr awdurdodau partner ar ôl cael ei gadarnhau. Mae datganiadau ariannol olaf y Cyd-bwyllgor hwn ar gael ar wefan CBS Pen-y-bont ar Ogwr (www.bridgend.gov.uk).

**Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De**
Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) yn darparu amrediad o wasanaethu gwella ysgolion yn ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Cyfraniad Pen-y-bont ar Ogwr at y trefniant ar y cyd am y flwyddyn oedd £692,350 (2014-15 - £630,119).

**Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)**
Trefniant ar y cyd yw hwn rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr (yr awdurdod arweiniol), CBS Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Dinas a Sir Abertawe. Yn ystod 2015-16, cyfraniad CBS Pen-y-bont ar Ogwr at y cyd-wasanaeth oedd £278,973. Cyn 1 Ebrill 2015 roedd y gwasanaeth yn cael ei ariannu'n llawn â grant gan Lywodraeth Cymru ac oherwydd hynny cyfraniad net Pen-y-bont ar Ogwr yn 2014-15 oedd £dim.

**Cyd-wasanaeth Mabwysiadu**
Cyd-wasanaeth yw hwn rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Dinas a Sir Abertawe a chafodd ei sefydlu o 1 Ebrill 2015 ymlaen. Cyfraniad Pen-y-bont ar Ogwr at y gwasanaeth yn 2015-16 oedd £593,512 (2014-15 - £dim)

**Gwasanaeth Rheoleiddio Cyffredin**
Trefniant ar y cyd yw hwn rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Dinas Caerdydd a CBS Bro Morgannwg ar gyfer darparu cyd-wasanaeth rheoleiddio. Cafodd ei sefydlu yn 2015-16 a chyfraniad Pen-y-bont ar Ogwr at y cyd-wasanaeth oedd £1,761,998 (2014-15 - £dim)

**Cyd-wasanaeth Cynnal Cerbydau**
Symudodd CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Heddlu De Cymru i safle ar y cyd yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflawni eu gwasanaethau cynnal cerbydau. Cyfraniad CBS Pen-y-bont ar Ogwr at Heddlu De Cymru ar gyfer y cyd-gyfleuster oedd £110,773 (2014-15 – £dim)

**Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd Cynnar Bae'r Gorllewin**
Dyma drefniant ar y cyd rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr (yr arweinydd), CBS Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Dinas a Sir Abertawe ar gyfer darparu gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ac ymyrryd cynnar i blant a phobl ifanc. Cyfraniad Pen-y-bont ar Ogwr at y cyd-wasanaeth am y flwyddyn oedd £366,621 (2014-15 - £311,921)

**Gorfodaeth Parcio Sifil**
Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu'r gwaith Gorfodaeth Parcio Sifil ar ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr a CBS Bro Morgannwg. Mae cost y ddarpariaeth i CBS Bro Morgannwg yn cael ei chodi arnynt yn llawn, a chyfanswm y gost oedd £174,280 (2014-15 - £167,135).

**Trefniadau ar y cyd o dan Adran 33 o Ddeddf yr NHS (Cymru) 2006**
Mae gan y Cyngor drefniadau ar y cyd hefyd o dan Adran 33 o Ddeddf yr NHS (Cymru) 2006 sy'n cynnwys rhannu cronfeydd. Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn nodyn 13 i'r cyfrifon.

## 19. Cyfrifydda'r Ysgolion

Mae Cod CIPFA ar gyfer 2014-15 yn pennu bod asedau, rhwymedigaethau a llifoedd arian ysgolion yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol yr awdurdodau lleol (ac nid yn y Cyfrifon Grŵp). Mae'r canllawiau perthynol yn argymell ategu hyn â chrynodeb o nifer yr ysgolion a gynhwyswyd yn y cyfrifon endid sengl, ynghyd â chrynodeb o'r gyllideb, y gwariant, a'r balansau (gwargedion). Dangosir hyn yn y tabl isod.

| 2014-15 Balansau Cau £'000 | Mathau o Ysgolion | Niferoedd yn y catergori | 2015-16 Cyllideb £'000 | 2015-16 Gwariant £'000 | 2015-16 Balansau Cau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1,571 | Ysgolion Cynradd | 50 | 44,610 | 43,078 | 1,532 |
| 402 | Ysgolion Uwchradd | 9 | 41,861 | 41,699 | 162 |
| 437 | Ysgolion Arbennig | 2 | 7,482 | 7,022 | 460 |
| **2,410** | **Cyfanswm** | **61** | **93,953** | **91,799** | **2,154** |

## 20. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodion perthnasol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli'r cyngor neu i ddylanwadu arno neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu i'r darllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Cyngor fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n ddirwystr gyda'r Cyngor.

**Llywodraeth Cymru**
Mae gan Lywodraeth Cymru gryn ddylanwad dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor – hi sy'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Cyngor yn gweithio ynddo, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan y Cyngor gyda phartïon eraill (e.e. biliau'r dreth gyngor). Nodir y grantiau a gafwyd oddi wrth adrannau'r llywodraeth yn Nodiadau 4 a 5 uchod.

**Aelodau**
Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a pholisïau gweithredu'r Cyngor. Mae buddiannau allanol yr Aelodau'n cael eu cadw mewn cofrestr, sydd ar gael i'w harchwilio ar wefan y Cyngor. Dangosir cyfanswm Lwfansau'r Aelodau a dalwyd yn 2015-16 yn Nodyn 16. Rhoddwyd grantiau i sefydliadau yr oedd eu huwch-reolwyr yn cynnwys Aelodau gan gynnwys Groundwork Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot £dim yn 2015-16 (£43,748 yn 2014-15), Cyngor ar Bopeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr £190,339 (£210,624 yn 2014-15) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr £244,375 yn 2015-16 (£139,795 yn 2014-15). Ym mhob achos, cafodd y grantiau eu gwneud ar ôl ystyriaeth briodol i ddatganiadau ynglŷn a buddiannau. Ni chymerodd yr aelodau perthnasol ran mewn unrhyw drafodaethau neu benderfyniadau ynglŷn â'r grantiau.

**Prif swyddogion**
Yn ystod 2015-16 eisteddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau ar Fwrdd Capita Glamorgan Consultancy Ltd. Mae 14.7% o'r cyfrannau yn y cwmni'n perthyn i'r Cyngor sydd â hawliau pleidleisio cyfwerth â hynny ar y Bwrdd. Yn ystod 2015-16 codwyd £867,435 (2014/15: £817,204) ar y Cyngor mewn perthynas â nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyfalaf.

**Cyd-bwyllgorau**

**Cyd-bwyllgor Archifau Morgannwg**
Rheolir Swyddfa Cofnodion Morgannwg a'i weinyddu gan Gyd-bwyllgor Archifau Morgannwg o dan bwerau a roddir gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Yn ystod 2015-16, cyfrannodd y Cyngor swm o £95,436 i'r Cyd-bwyllgor (£95,437 yn 2014-15). Cyfrifwyd hyn mewn cyfrannedd, ar sail y boblogaeth. Mae datganiadau ariannol y Cyd-bwyllgor hwn ar gael ar wefan CS Caerdydd (www.cardiff.gov.uk)

**Amlosgfa Llangrallo**
Mae Amlosgfa Llangrallo o dan reolaeth Cyd-bwyllgor o Aelodau o CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Rhondda Cynon Taf a CBS Bro Morgannwg. Yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cyd-bwyllgor hwn ar gael ar wefan CBS Pen-y-bont ar Ogwr (www.bridgend.gov.uk).

**Amlosgfa Margam**
Mae Amlosgfa Margam o dan reolaeth Cyd-bwyllgor o Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sy'n rheoli'r Amlosgfa. Yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cyd-bwyllgor hwn ar gael ar wefan CBS Castell-nedd Port Talbot (www.npt.gov.uk)

**Cyflenwadau'r Bwrdeistrefi Sirol**
Rhoddodd Cyflenwadau'r Bwrdeistrefi Sirol y gorau i fasnachu ar 31 Mawrth 2016. Tan hynny, roedd yn cael ei weinyddu gan y Cyngor gan gyflenwi nwyddau megis deunyddiau

swyddfa. Roedd yn Gyd-bwyllgor ac iddo aelodau o CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Rhondda Cynon Taf, CBS Merthyr Tudful a CBS Caerffili. Mae datganiadau ariannol olaf y Cyd-bwyllgor hwn ar gael ar wefan CBS Pen-y-bont ar Ogwr (www.bridgend.gov.uk).

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**
Mae gan y Cyngor nifer o drefniadau i rannu cyllidebau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn unol â'r manylion yn Nodyn 13. Mae hefyd yn talu ffi reoli i Ymddiriedolaeth Awen, sy'n sefydliad dielw, am wasanaethau diwylliannol.

## 21. Symiau yr Adroddwyd arnynt at Ddibenion Penderfyniadau ar Ddyrannu Adnoddau

Y dadansoddiad a bennir gan y *Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Wasanaethau* yw'r un dadansoddiad incwm a gwariant fesul gwasanaeth ar wyneb y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Er hynny, cabinet y Cyngor sy'n gwneud y penderfyniadau am ddyrannu adnoddau a hynny ar sail adroddiadau ar gyllidebau wedi'u dadansoddi ar draws y Cyfarwyddiaethau. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu paratoi ar sail wahanol i'r polisïau cyfrifydda a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol. Yn benodol:

- nid oes taliadau'n cael eu gwneud mewn perthynas â gwariant cyfalaf (ond mae dibrisiant, colledion ailbrisio ac amharu sy'n fwy na'r balans ar y Gronfa Ailbrisio ac amorteiddiadau'n cael eu codi ar y gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant)
- mae cost buddion ymddeol yn cael ei seilio ar lifoedd arian (talu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr) yn hytrach na chost gwasanaeth cyfredol buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn
- ceir cyllidebau canolog ar gyfer gwariant ar rai gwasanaethau cymorth ac nid yw'n cael ei godi ar y Cyfarwyddiaethau.

Mae incwm a gwariant prif Gyfarwyddiaethau'r Cyngor a gofnodir yng nghyllidebau'r flwyddyn gymaradwy (2014-15) fel a ganlyn:

## Datganiad Cyfrifon 2015-16

| Incwm a Gwariant y Cyfarwyddiaethau 2014-15 Ailddatganwyd | Addysg a Thrawsnewid £'000 | Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol £'000 | Cymunedau £'000 | Gwasanaethau Eraill £'000 | Cyflanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd, taliadau ac incwm arall y gwasanaeth | (18,645) | (14,901) | (14,992) | (18,353) | **(66,891)** |
| Grantiau'r Llywodraeth | (22,968) | (2,554) | (14,815) | (50,781) | **(91,118)** |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **(41,613)** | **(17,455)** | **(29,807)** | **(69,134)** | **(158,009)** |
| Treuliau Gweithwyr | 111,040 | 25,826 | 18,237 | 21,191 | **176,294** |
| Treuliau gweithredu eraill | 55,569 | 34,888 | 37,952 | 68,474 | **196,883** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y treuliau gweithredu** | **166,609** | **60,714** | **56,189** | **89,665** | **373,177** |
| | | | | | |
| **Cost Net y Gwasanaethau** | **124,996** | **43,259** | **26,382** | **20,531** | **215,168** |

| Incwm a Gwariant y Cyfarwyddiaethau 2015-16 | Addysg a Thrawsnewid £'000 | Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol £'000 | Cymunedau £'000 | Gwasanaethau Eraill £'000 | Cyflanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd, taliadau ac incwm arall y gwasanaeth | (16,271) | (16,145) | (14,587) | (16,692) | **(63,695)** |
| Grantiau'r Llywodraeth | (22,470) | (3,309) | (14,953) | (51,773) | **(92,505)** |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **(38,741)** | **(19,454)** | **(29,540)** | **(68,465)** | **(156,200)** |
| Treuliau Gweithwyr | 103,694 | 32,315 | 15,583 | 18,588 | **170,180** |
| Treuliau gweithredu eraill | 40,429 | 47,362 | 37,709 | 68,805 | **194,305** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y treuliau gweithredu** | **144,123** | **79,677** | **53,292** | **87,393** | **364,485** |
| | | | | | |
| **Cost Net y Gwasanaethau** | **105,382** | **60,223** | **23,752** | **18,928** | **208,285** |

### Cysoniad Incwm a Gwariant y Cyfarwyddiaethau â Chost y Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant

Mae'r cysoniad isod yn dangos sut mae'r ffigurau yn y dadansoddiad o incwm a wariant y Cyfarwyddiaethau yn perthyn i'r symiau a gynhwyswyd yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant am y flwyddyn gymaradwy:-

| **Cysoniad Incwm a Gwariant y Cyfarwyddiaethau â Chost y Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant** | **2015-16 £'000** | **2014-15 £'000** |
|---|---|---|
| Cost y Gwasanaethau yn y Dadansoddiad Gwasanaethau | **208,285** | **215,168** |
| Ychwanegu gwasanaethau heb eu cynnwys yn y rif ddadansoddiad | 21,366 | 18,931 |
| Ychwanegu symiau heb eu hadrodd i'r rheolwyr | 22,049 | 86,017 |
| Tynnu symiau a adroddwyd i'r rheolwyr ac nas cynhwyswyd yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | (1,423) | (1,558) |
| **Cost Net y Gwasanaethau yn Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant** | **250,277** | **318,558** |

### Cysoniad â Dadansoddiad Goddrychol

Mae'r cysoniad hwn yn dangos sut mae'r ffigurau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant y Cyfarwyddiaethau yn perthyn i ddadansoddiad goddrychol o'r Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau a gynhwyswyd yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant :-

| Cysoniad â Dadansoddiad Goddrychol 2015-16 | Dadansoddiad y Cyfarwyddiaethau £'000 | Gwasanaethau nad ydynt yn y Dadansoddiad £'000 | Heb eu hadrodd I'r rheolwyr £'000 | Heb eu cynnwys yn yr Incwm a'r Gwariant £'000 | Cost net y Gwasanaethau £'000 | Symiau Corfforaethol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd, taliadau ac incwm arall y gwasanaeth | (63,695) | - | - | - | **(63,695)** | - | **(63,695)** |
| Gwarged neu ddiffyg ar gymdeithion a chyd-fentrau | - | - | - | - | **-** | - | **-** |
| Llogau ac incwm o fuddsoddiadau | - | - | - | - | **-** | (903) | **(903)** |
| Incwm o'r dreth gyngor | - | - | - | - | **-** | (77,487) | **(77,487)** |
| Grantiau a chyfraniadau'r Llywodraeth | (92,505) | (198) | - | - | **(92,703)** | (203,298) | **(296,001)** |
| **Cyfanswm yr incwm** | **(156,200)** | **(198)** | **-** | **-** | **(156,398)** | **(281,688)** | **(438,086)** |
| | | | | - | | | |
| Treuliau gweithwyr | 170,180 | 1,834 | (3,726) | - | **168,288** | 8,450 | **176,738** |
| Treuliau eraill y gwasanaeth | 194,305 | 19,732 | (1,262) | (1,423) | **211,352** | | **211,352** |
| Aildaliadau Gwasanaethau Cymorth | - | - | - | - | **-** | | **-** |
| Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariadau | - | - | 27,037 | - | **27,037** | | **27,037** |
| Taliadau Llog | - | - | - | - | **-** | 6,049 | **6,049** |
| Praeseptau ac Ardollau | - | - | - | | **-** | 18,766 | **18,766** |
| Enilliad neu Golled wrth Waredu Asedau Anghyfredol | - | - | - | | **-** | 1,100 | **1,100** |
| **Cyfanswm y gwariant** | **364,485** | **21,566** | **22,049** | **(1,423)** | **406,677** | **34,365** | **441,042** |
| | | | | | | | |
| **Gwarged neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau** | **208,285** | **21,368** | **22,049** | **(1,423)** | **250,279** | **(247,323)** | **2,956** |

| Cysoniad â Dadansoddiad Goddrychol 2014-15 ailddatganwyd | Dadansoddiad y Cyfarwyddiaethau £'000 | Gwasanaethau nad ydynt yn y Dadansoddiad £'000 | Heb eu hadrodd I'r rheolwyr £'000 | Heb eu cynnwys yn yr Incwm a'r Gwariant £'000 | Cost net y Gwasanaethau £'000 | Symiau Corfforaethol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd, taliadau ac incwm arall y gwasanaeth | (66,891) | - | - | | **(66,891)** | | **(66,891)** |
| Gwarged neu ddiffyg ar gymdeithion a chyd-fentrau | - | - | - | - | **-** | - | **-** |
| Llogau ac incwm o fuddsoddiadau | - | - | - | - | **-** | (853) | **(853)** |
| Incwm o'r dreth gyngor | - | - | - | - | **-** | (73,164) | **(73,164)** |
| Grantiau a chyfraniadau'r Llywodraeth | (91,118) | - | - | - | **(91,118)** | (208,974) | **(300,092)** |
| **Cyfanswm yr incwm** | **(158,009)** | **-** | **-** | **-** | **(158,009)** | **(282,991)** | **(441,000)** |
| | | | | | | | |
| Treuliau gweithwyr | 176,294 | 2,738 | (678) | - | **178,354** | 10,090 | **188,444** |
| Treuliau eraill y gwasanaeth | 196,883 | 16,193 | (1,803) | (1,558) | **209,715** | - | **209,715** |
| Aildaliadau Gwasanaethau Cymorth | - | - | - | - | **-** | - | **-** |
| Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariadau | - | - | 88,498 | - | **88,498** | - | **88,498** |
| Taliadau Llog | - | - | - | - | **-** | 6,215 | **6,215** |
| Praeseptau ac Ardollau | - | - | - | - | **-** | 18,092 | **18,092** |
| Enilliad neu Golled wrth Waredu Asedau Anghyfredol | - | - | - | - | **-** | 72 | **72** |
| **Cyfanswm y gwariant** | **373,177** | **18,931** | **86,017** | **(1,558)** | **476,567** | **34,469** | **511,036** |
| | | | | | | | |
| **Gwarged neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau** | **215,168** | **18,931** | **86,017** | **(1,558)** | **318,558** | **(248,522)** | **70,036** |

# Nodiadau ar y Fantolen

## 22. Asedau Sefydlog Diriaethol

a) Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2016 roedd ymrwymiadau o ryw £12.518 miliwn yn bodoli ar waith cyfalaf a ddechreuwyd cyn y dyddiad hwnnw, y gwelir y manylion amdano yn y tabl isod.

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 894 | Ysgol Gyfun Ogwr | 65 |
| 5,049 | Ysgol Gynradd Coety / Parc Derwen | 200 |
| 107 | Adfywio Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 36 |
| - | Lleoedd Llewyrchus a Llawn Addewid | 3,350 |
| 840 | Amlosgwyr Amlosgfa Llangrallo | |
| 1,209 | Adnewyddu Celtic Court | |
| 2,744 | System Wybodaeth Gofal Cymunedol | |
| 730 | Gwneud y Defnydd Gorau o Le | |
| 35 | Lewistown Flying Start Provision | |
| **11,608** | **Cyfanswm** | **3,651** |

b) Nodiadau ar Asedau Sefydlog

Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr unig Ysgol Wirfoddol a Reolir sydd ganddo ar ei Fantolen, sef Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai. Nid yw'r pedair ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir na'r ysgol gyfun wirfoddol a gynorthwyir yn asedau i'r Cyngor ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y Fantolen.

# Datganiad Cyfrifon 2015-16

| c) Crynodeb o Eiddo, Peiriannau ac Offer (PPE) | Tir ac adeiladau eraill £'000 | Cerbydau, Peiriannau ac Offer £'000 | Seilwaith £'000 | Asedau Cymunedol £'000 | Asedua Gormodol £'000 | Asedau'n cael eu Hadeiladu £'000 | Cyfanswm yr Asedau PPE £'000 | Asedau PFI a gynhwyswyd yn y PPE £'000 | Prydlesau Ariannol yn y PPE £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | | | |
| At 1 Ebrill 2015 | 364,373 | 10,500 | 201,351 | 4,845 | 9,906 | 16,456 | **607,431** | 23,948 | 1,876 |
| Ychwanegiadau | 4,362 | 3,945 | 4,595 | 142 | | 8,597 | **21,641** | - | 124 |
| Dibrisiant ac Amhariadau Cronedig a ysgrifennwyd allan i'r GCA | (11,618) | | | | (24) | | **(11,642)** | (1,404) | |
| Cynyddiadau/(gostyngiadau) ailbrisio heb eu cydnabod yn y Gronfa Ailbrisio | 15,285 | | | | 651 | 46 | **15,982** | 1,598 | |
| Cynyddiadau/(gostyngiadau) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged/Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | (3,188) | | | | 1,000 | 2 | **(2,186)** | - | |
| Dileu Cydnabyddiaeth – gwaredu | (3,609) | (40) | | | (539) | | **(4,188)** | | |
| Asedau a ailddosbarthwyd (i)/o Asedau a Gedwir i'w Gwerthu | (457) | | | | | (61) | **(518)** | - | - |
| Symudiadau eraill mewn Cost neu Brisiad | 21,620 | (1,181) | | (142) | (2,738) | (18,740) | **(1,181)** | - | (2,000) |
| **At 31 Mawrth 2016** | **386,768** | **13,224** | **205,946** | **4,845** | **8,256** | **6,300** | **625,339** | **24,142** | **-** |
| **Dibrisiant ac Amhariadau Cronedig** | | | | | | | | | |
| At 1 Ebrill 2015 | (10,043) | (2,573) | (117,978) | (37) | (139) | (608) | **(131,378)** | (601) | (1,068) |
| Tal Dibrisiant am y flwyddyn | (9,936) | (1,674) | (10,477) | | (90) | - | **(22,177)** | (807) | (14) |
| Dibrisiant ac Amhariadau Cronedig a ysgrifennwyd allan i'r gwarged / diffyg ar y ddarpariaeth gwasanaethau | 11,618 | | | | 23 | | **11,641** | 1,404 | |
| Colledion Ailbrisio/(Gwrthdroadau) a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio | (678) | | (230) | | | | **(908)** | | |
| Dileu Cydnabyddiaeth – gwaredu | 664 | 40 | | | 206 | | **910** | - | - |
| Asedau a ailddosbarthwyd Asedau a Gedwir i'w Gwerthu | 19 | | | | | 11 | **30** | | |
| Symudiadau Eraill | (597) | 1,181 | | | | 596 | **1,180** | **-** | **1,082** |
| **At 31 Mawrth 2016** | **(8,953)** | **(3,026)** | **(128,685)** | **(37)** | **-** | **(1)** | **(140,702)** | **(4)** | **-** |
| **Y Fantolen ar 1 Ebrill 2015** | **354,330** | **7,927** | **83,373** | **4,808** | **9,767** | **15,848** | **476,053** | **23,347** | **808** |
| **Y Fantolen ar 31 Mawrth 2016** | **377,815** | **10,198** | **77,261** | **4,808** | **8,256** | **6,299** | **484,637** | **24,138** | **-** |

# Datganiad Cyfrifon 2015-16

| c) Crynodeb o Eiddo, Peiriannau ac Offer (PPE) | Tir ac adeiladau eraill £'000 | Cerbydau, Peiriannau ac Offer £'000 | Seilwaith £'000 | Asedau Cymunedol £'000 | Asedua Gormodol £'000 | Asedau'n cael eu Hadeiladu £'000 | Cyfanswm yr Asedau PPE £'000 | Asedau PFI a gynhwyswyd yn y PPE £'000 | Prydlesau Ariannol yn y PPE £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | | | |
| At 1 Ebrill 2014 | 449,969 | 15,110 | 196,356 | 4,574 | 11,266 | 16,115 | **693,390** | 22,744 | 2,284 |
| Ychwanegiadau | 5,752 | 4,184 | 5,356 | - | - | 7,537 | **22,829** | - | 108 |
| Dibrisiant ac Amhariadau Cronedig a ysgrifennwyd allan i'r GCA | (57,585) | (8,765) | - | - | (736) | - | **(67,086)** | (1,366) | (126) |
| Cynyddiadau/(gostyngiadau) ailbrisio heb eu cydnabod yn y Gronfa Ailbrisio | 25,244 | - | - | - | 818 | - | **26,062** | 7,016 | (57) |
| Cynyddiadau/(gostyngiadau) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged/Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | (59,287) | - | - | (196) | (233) | - | **(59,716)** | (4,446) | (333) |
| Dileu Cydnabyddiaeth – gwaredu | (1,469) | (29) | | - | (55) | | **(1,553)** | | - |
| Asedau a ailddosbarthwyd (i)/o Asedau a Gedwir i'w Gwerthu | (4,235) | - | - | - | (2,260) | - | **(6,495)** | - | - |
| Symudiadau eraill mewn Cost neu Brisiad | 5,984 | - | (361) | 467 | 1,106 | (7,196) | **-** | - | - |
| **At 31 Mawrth 2015** | **364,373** | **10,500** | **201,351** | **4,845** | **9,906** | **16,456** | **607,431** | **23,948** | **1,876** |
| **Dibrisiant ac Amhariadau Cronedig** | | | | | | | | | |
| At 1 Ebrill 2014 | (51,867) | (9,908) | (107,697) | (37) | (597) | - | **(170,106)** | (1,195) | (1,143) |
| Tal Dibrisiant am y flwyddyn | (14,754) | (1,382) | (10,211) | - | (268) | - | **(26,615)** | (772) | (51) |
| Dibrisiant ac Amhariadau Cronedig a ysgrifennwyd allan i'r gwarged / diffyg ar y ddarpariaeth gwasanaethau | 57,585 | 8,765 | - | - | 736 | **-** | **67,086** | 1,366 | 69 |
| Colledion Ailbrisio/(Gwrthdroadau) a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio | (702) | - | - | - | - | - | **(702)** | - | 57 |
| Colledion Ailbrisio/(Gwrthdroadau) a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | (1,175) | (48) | (170) | - | - | - | **(1,393)** | - | - |
| Dileu Cydnabyddiaeth – gwaredu | 351 | - | - | - | - | - | **351** | - | - |
| Asedau a ailddosbarthwyd Asedau a Gedwir i'w Gwerthu | 1 | - | | | | | **1** | | |
| Symudiadau Eraill | 518 | **-** | 100 | - | (10) | (608) | **-** | **-** | **-** |
| **At 31 Mawrth 2015** | **(10,043)** | **(2,573)** | **(117,978)** | **(37)** | **(139)** | **(608)** | **(131,378)** | **(601)** | **(1,068)** |
| **Y Fantolen ar 1 Ebrill 2014** | **398,102** | **5,202** | **88,659** | **4,537** | **10,669** | **16,115** | **523,284** | **21,549** | **1,141** |
| **Y Fantolen ar 31 Mawrth 2015** | **354,330** | **7,927** | **83,373** | **4,808** | **9,767** | **15,848** | **476,053** | **23,347** | **808** |

c) Prisio Asedau Anghyfredol

Mae Asedau Anghyfredol wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar y sail brisio a nodir yn y Datganiad Polisïau Cyfrifydda. Cafodd yr eiddo rhydd-ddaliol a lesddaliol yn ystâd ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei brisio ar 31 Rhagfyr 2015, a chafodd yr holl Asedau Sefydlog eraill eu hailbrisio'n llawn ar 1 Ebrill 2014 ond eu diwygio drwy gyfrwng ymarfer pen desg ar 31 Mawrth 2015. Gwnaed y prisiadau hyn gan Syrfewyr y Cyngor yn unol â'r Nodiadau Ymarfer a Chyfarwyddyd ar Ddatganiadau ar Brisio Asedau gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

d) Ffynonellau cyllid ar gyfer Gwariant Cyfalaf

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 6,889 | Benthyciadau | 7,084 |
| 15,996 | Grantiau'r Llywodraeth | 12,001 |
| 2,019 | Derbyniadau cyfalaf | 146 |
| 1,803 | Cyfraniad refeniw | 1,262 |
| 108 | Rhwymedigaeth Gyfalaf y Contract Byw'n Iach | 124 |
| 1,647 | Cyfraniad arall | 5,682 |
| **28,462** | **Cyfanswm** | **26,299** |

e) Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf o dan Statudau

Mae'r rhain yn ymwneud â gwariant cyfalaf nad yw'n arwain at ased anghyfredol diriaethol. Maen nhw'n cynnwys grantiau adnewyddu a chyfraniadau at wariant cyfalaf a ysgwyddir gan bartïon eraill.

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 5,113 | Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud | 4,658 |
| **5,113** | **Cyfanswm** | **4,658** |

f) Y gofyniad cyllido cyfalaf a chyllido gwariant cyfalaf

| 2014-15 £'000 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 177,033 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol | 176,010 |
| | **Buddsoddiad Cyfalaf** | |
| 22,721 | Eiddo, Peiriannau, Offer | 21,517 |
| 520 | Eiddo Buddsoddi | - |
| 5,113 | Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud | 4,658 |
| 108 | Gwariant Cyfalaf y Contract Byw'n Iach | 124 |
| | | |
| | **Ffynhonnell Cyllid** | |
| (17,643) | Grantiau a chyfraniadau | (17,681) |
| (2,019) | Derbyniadau Cyfalaf a defnyddiwyd | (141) |
| (1,803) | Cyfraniadau Refeniw | (1,262) |
| (5,194) | Darpariaeth Refeniw Isaf | (5,169) |
| (2,145) | MRP Benthyciadau heb Gymorth | (1,646) |
| (117) | MRP y Contract Byw'n Iach | (1,086) |
| (41) | MRP Prydlesau Ariannol | - |
| (47) | MRP y Ganolfa Arloesi | (51) |
| - | MRP yr Amlosgaf | (49) |
| (476) | MRP yr Ysgol PFI | (513) |
| **176,010** | **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Cau** | **174,711** |
| | **Esboniad y Symudiadau yn y Flwyddyn** | |
| (1,262) | Gostyngiad yn yr Angen Isorweddol i Fenthyca (gyda chymorth ariannol y llywodraeth) | (1,306) |
| 812 | Cynnydd yn yr Angen Isorweddol i Fenthyca (heb gymorth ariannol y llywodraeth) | 1,528 |
| (97) | Asedau a gafwyd o dan brydlesau ariannol | (1,013) |
| (476) | Asedau a gafwyd o dan Gontract PFI | (513) |
| **(1,023)** | **Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf** | **(1,304)** |

g) Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ymlaen llaw o dan gytundebau cynllunio adran 106:-

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 2,558 | Cyfraniadau Datblygwyr – elfen gyfalaf | 1,844 |
| **2,558** | **Cyfanswm** | **1,844** |

## 23. Eiddo Buddsoddi

Mae'r eitemau incwm a thraul a ganlyn wedi'u cyfrif yn y llinell Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant:

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 573 | Incwm Rhentol o Eiddo Buddsoddi | 568 |
| (281) | Costau Gweithredu Uniongyrchol yn codi o Eiddo Buddsoddi | (378) |
| **292** | **Enilliad/(colled) Net** | **190** |

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi dros y flwyddyn:-

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 3,011 | **Balans ar 1 Ebrill** | 4,103 |
| 520 | Derbyniadau | - |
| (75) | Gwarediadau | - |
| 647 | Enilliad/(colled) Net o addasiadau gwerth teg | 1,082 |
| **4,103** | **Balans ar 31 Mawrth** | **5,185** |

## 24. Asedau Treftadaeth

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 73 | Regalia Dinesig | 73 |
| **73** | **Balans ar 31 Mawrth** | **73** |

## 25. Dyledwyr Hirdymor

Manylir ar ffigur y Dyledwyr Hirdymor isod. Mae'n cynnwys gwerth benthyciadau hirdymor a roddwyd gan y Cyngor i gyn-denantiaid ac i gartrefi preifat am forgeisiau a Phrydles Cyllid ar gyfer cerbydau sy'n gysylltiedig â'r contract gwastraff.

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 17 | Morgaisiau | 12 |
| 261 | Cerbydau'r Contract Gwastraff a brydleswyr i'r contractwr | 133 |
| **278** | **Balans ar 31 Mawrth** | **145** |

## 26. Dyledwyr Byrdymor

Dyma'r arian sy'n ddyledus i'r Cyngor ar ôl gwneud darpariaeth ar gyfer dyledion y mae'n bosibl na chânt eu hadennill. Rhestrir y prif ddyledwyr isod:

| 2014-15 £'000 | Dyledwyr Byrdymor | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 12,818 | Cyrff y Llywodraeth Ganolog | 12,177 |
| 4,774 | Awdurdodau Lleol Eraill | 4,468 |
| 1,277 | Cyrff y GIG | 809 |
| 10,403 | Endidau ac unigolion eraill | 9,892 |
| **29,272** | **Balans ar 31 Mawrth** | **27,346** |

Mae'r Cyngor yn casglu taliadau NNDR ar ran Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2016, roedd y Cyngor wedi talu mwy o arian parod nag yr oedd wedi'i gasglu a chynhwyswyd y gormodedd hwn yn y Fantolen fel dyledwr o £0.650 miliwn. Y swm cyfatebol ar gyfer 2014-15 oedd dyledwr o £0.199 miliwn a oedd yn cynrychioli'r arian a oedd heb ei dalu eto gan Lywodraeth Cymru.

## 27. Asedau a Gedwir i'w Gwerthu

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 6,721 | Balans ar 1 Ebrill | 7,478 |
| | Asedau nwydd eu dosbarthu fel Asedau a Gedwir i'w Gwerthu: | |
| 6,494 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | 488 |
| | Asedau a ddad-ddosbarthwyd fel Asedau a Gedwir i'w Gwerthu | |
| | Eiddo, Peiriannau ac Offer | - |
| | Enilliad/(Colled) Ailbrisio | (1,069) |
| (5,737) | Asedau a Werthwyd | (2,862) |
| **7,478** | **Enilliad/(colled) Net** | **4,035** |

## 28. Credydwyr Byrdymor

Dyma'r arian sy'n ddyledus i'r Cyngor ac fe'i ddadansoddir fel a ganlyn:

| 2014-15 £'000 | Credydwyr Byrdymor | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| (2,594) | Cyrff y Llywodraeth Ganolog | (5,832) |
| (6,228) | Awdurdodau Lleol Eraill | (4,998) |
| (39) | Cyrff y GIG | (338) |
| (34,597) | Endidau ac unigolion eraill | (21,604) |
| **(43,458)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(32,772)** |

## 29. Darpariaethau

Mae gan y Cyngor ddwy ddarpariaeth yn unol â'r manylion isod:

| 2014-15 £'000 | | Gwariant £'000 | Cynnydd £'000 | 2015-16 £'000 | <1yr £'000 | >1yr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2,098 | Yswiriant (BCBC) | | 1,047 | 3,145 | 783 | 2,362 |
| 326 | Ymrwymiad Lleihau Carbon | (304) | 313 | 335 | 335 | - |
| **2,424** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(304)** | **1,360** | **3,480** | **1,118** | **2,362** |

Darpariaeth Yswiriant (Hunan-gyllido / MMI)

Cronfa Hunan-yswirio

Mae gan y Cyngor gronfa hunan-yswirio. Mae'r Ddarpariaeth Yswiriant hon wedi'i neilltuo er mwyn talu'r gost a amcangyfrifir i'r Cyngor yn sgil rhwymedigaethau polisi heb eu talu am y blynyddoedd hyd at 2015-16 ar gyfer Rhwymedigaeth Cyflogwr, Rhwymedigaeth Gyhoeddus ac Eiddo. Er hynny, ansicr yw union gost hawliadau unigol ac amser y taliadau. Mae gan y Cyngor hefyd gronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer yswiriant sy'n gweithredu fel clustog ychwanegol ar gyfer y gronfa yn ychwanegol at gyfanswm y rhwymedigaeth sydd heb ei dalu, er mwyn caniatáu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl, yn waeth na'r dirywiad a ragwelir yn y cronfeydd cyfredol ac yn uwch na'r colledion a ragwelir yn y dyfodol o ran amlder a chost.

Municipal Mutual Insurance (MMI) Limited

Cyn i lywodraeth leol gael ei had-drefnu, Municipal Mutual Insurance Limited oedd yn darparu yswiriant hen Gyngor Bwrdeistref Sirol Ogwr a Chyngor Sir Morgannwg Ganol. Pan aeth y cwmni hwnnw i anawsterau ariannol difrifol, daeth y ddau gyngor yn gredydwyr o dan y Cynllun Trefnu, gan dderbyn rhwymedigaeth i ddychwelyd cyfran o'r hawliadau a dalwyd gan MMI yn hanesyddol i MMI pe bai'r Cynllun yn cael ei ysgogi. Cafodd Cynllun Trefnu MMI ei 'ysgogi' gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 13 Tachwedd 2012.

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad i Leihau Carbon

Mae'r ddarpariaeth hon yn cynrychioli'r rhwymedigaeth i brynu lwfansau'r Ymrwymiad i Leihau Carbon (CRC) ar gyfer allyriadau carbon deuocsid yn ystod 2015-16. Caiff y taliad ei wneud drwy brynu lwfansau'n ôl-syllol yn haf 2016.

## 30. PFI a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill

| 2014-15 £'000 | | Ychwanegiadau yn y Flwyddyn £'000 | Gostyngiad yn y Flwyddyn £'000 | Wedi'i symid i Gredydwyr Byrdymor £'000 | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 18,787 | Rhwymedigaeth Prydles PFI Ysgol Maesteg | - | | (552) | 18,235 |
| 719 | Rhwymedigaeth Ariannol y Ganolfan Arloesi | | | (55) | 664 |
| 450 | Contract Gwastraff | | | (50) | 400 |
| 47 | Escrow (Clwb Pêl-droed) | 13 | | | 60 |
| - | Benthyciad Llywodraeth Cymru – Cwm Llyfni | 2,400 | | | 2,400 |
| 844 | Rhwymedigaeth Gyfalaf y Contract Byw'n Iach | | (844) | | - |
| **20,847** | **Balans ar 31 Mawrth** | **2,413** | **(844)** | **(657)** | **21,759** |

Mae Rhwymedigaeth Prydles Cyllid y PFI yn cyfateb i werth teg yr ased sefydlog ar gyfer yr ysgol PFI ar y dyddiad y daeth yr ased i Fantolen y Cyngor, sef £21.898 miliwn (Gorffennaf 2008). Caiff hyn ei ysgrifennu i lawr dros oes y contract PFI yn unol â gwerth y taliad unedol a gymerir fel yr elfen prydlesu cyfalaf bob blwyddyn. Ar gyfer 2015-16, £513,000 oedd y swm a ysgrifennwyd i lawr ac mae £552,000 wedi'i drosglwyddo i Gredydwyr Byrdymor gan adael rhwymedigaeth hirdymor sydd heb ei thalu o £18.235 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Cydnabuwyd Rhwymedigaeth Ariannol y Ganolfan Arloesi o £0.917 miliwn yn 2009-10 fel benthyciad o ran ei sylwedd. Mae hyn yn cael ei ysgrifennu i lawr dros y 14 blynedd o'r benthyciad sydd ar ôl. £51,000 oedd y swm a ysgrifennwyd i lawr yn 2015-16 a chafodd £55,000 ei drosglwyddo i Gredydwyr Byrdymor gan arwain at rwymedigaeth ariannol o £0.664 miliwn ar 31 Mawrth 2016.

Cydnabuwyd ychwanegiad newydd yn ystod 2012-13 i adlewyrchu'r gwaith cyfalaf sy'n cael ei wneud gan Halo Leisure Services Ltd yng Nghanolfan Hamdden Pen-y-bont ar Ogwr fel ran o gontract y Bartneriaeth Byw'n Iach a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2012. Ad-dalwyd y rhwymedigaeth yn ystod y flwyddyn ac felly does dim rhwymedigaeth yn parhau ar 31 Mawrth 2016.

Mae rhwymedigaeth y Contract Gwastraff i'w ad-dalu fesul rhandaliad o £50,000 y flwyddyn.

Mae rhwymedigaeth hirdymor y clwb pêl-droed yn gronfa a gynhelir ac a gynyddir er mwyn caniatáu ar gyfer adfer dau o'r caeau 3G ym Mryntirion a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr – Pen-coed yn laswellt ar ddiwedd eu hoes ddefnyddiol.

## 31. Cronfeydd Defnyddiadwy

Mae'r nodiadau a ganlyn yn manylu ar Gronfeydd Defnyddiadwy'r Cyngor:-

### a) Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy

Dyma'r derbyniadau cyfalaf sydd ar gael i gyllido gwariant cyfalaf yn y dyfodol.

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| 10,245 | Balans ar 1 Ebrill | 14,534 |
| 6,296 | Derbyniadau Cyfalaf a Dderbyniwyd | 3,959 |
| 12 | Ad-daliadau Morgais (Cronfa'r Cyngor) | 5 |
| (2,019) | Derbyniadau a ddefnyddiwyd i ariannu gwariant cy | (146) |
| **14,534** | **Balans ar 31 Mawrth** | **18,352** |

### b) Cronfeydd Refeniw

Manylir isod ar y cronfeydd refeniw yn y Fantolen ar 31 Mawrth 2016 ynghyd â disgrifiadau o'r hyn y maent yn ei gynrychioli:-

| Balans Agoriadol 2014-15 £'000 | Symudiad 2014/15 £'000 | Balans Cau 2014/15 £'000 | Cronfa Wrth Gefn | Gwariant 2015/16 2015-16 | Ychwaneg-iadau 2015/16 2015-16 | Balans Cau 2015/16 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **7,395** | 55 | **7,450** | **Balans Cronfa'r Cyngor** | | **154** | **7,604** |
| **2,467** | (57) | **2,410** | **Balans Dirprwyedig Ysgolion** | **(256)** | | **2,154** |
| **3,051** | 356 | **3,407** | **Cronfa Cyfartalu PFI Ysgol Maesteg** | | **299** | **3,706** |
| | | | **Balansau a Glustnodwyd:-** | | | |
| 348 | 354 | 702 | Cynllun Rheoli Asedau | (430) | 1,219 | **1,491** |
| - | 10 | 10 | Cronfa Rheoli Adeiladu | - | 2 | **12** |
| 987 | (687) | 300 | Cronfa Cynnal Adeiladau | (30) | 86 | **356** |
| 300 | 327 | 627 | Cronfa Dichonolrwydd Cyfalaf | (208) | 212 | **631** |
| 5,513 | 921 | 6,434 | Cyfraniad y Rhaglen Gyfalaf | (2,538) | 1,937 | **5,833** |
| 555 | - | 555 | Strategaeth Meysydd Parcio | (84) | 152 | **623** |
| 2,069 | 329 | 2,398 | Rheoli Newid | (448) | | **1,950** |
| - | - | - | Gwarchodfa Diogelwch Cymunedol | - | 31 | **31** |
| 196 | (165) | 31 | Cysylltu Teuluoedd | (31) | | **-** |
Mae'r ffigur uchod o £5.771 miliwn ar gyfer symiau masnach byrdymor derbyniadwy (dyledwyr) yn cyfeirio at nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u rhoi a dangosir dadansoddiad o oedran dyled y dyledwyr hyn yn yr adran ar Risg Credyd. Mae'r ffigur hwn wedi'i gynnwys yn y ffigur Dyledwyr Byrdymor o £27.472 miliwn yn y Fantolen sydd hefyd yn cynnwys dyledwyr nad ydynt yn ateb y diffiniad o rwymedigaeth ariannol ac mae Nodyn 26 yn rhoi gwybodaeth fanylach am ffigur y Cyfanswm Dyledwyr Byrdymor.

O dan IFRS 13, mae gwerth teg ased ariannol yn cael ei ddiffinio bellach fel y pris a geid am werthu ased mewn trafodiad trefnus rhwng aelodau o farchnad ar y dyddiad mesur. Dim ond ar gyfer rhwymedigaethau ariannol hirdymor y mae angen i werthoedd teg gael eu datgelu gan y rhagdybir bod gwerth ein hofferynnau byrdymor, gan gynnwys symiau masnach derbyniadwy yn debyg i'r swm cario ac felly nid oes gwerthoedd teg wedi'u datgelu uchod.

Cafwyd dau fuddsoddiad hirdymor newydd yn 2015-16. Buddsoddwyd £2 miliwn am flwyddyn ym mis Hydref 2015, ond cafodd hyn ei drosglwyddo i fuddsoddiadau byrdymor yn y Fantolen ar 31 Mawrth 2016 ac felly mae wedi'i gynnwys yn y tabl uchod. Cafwyd buddsoddiad o £2 miliwn hefyd am ddwy flynedd a wnaed ym mis Tachwedd 2015 ac felly y ffigur ar gyfer Buddsoddiadau Hirdymor yn y Fantolen yw £2.007 miliwn (dim balans ar 31 Mawrth 2015) a'r gwerth teg (Lefel 2 yn hierarchaeth gwerth teg yn unol â'r rhwymedigaethau uchod) yw £2.011 miliwn sydd wedi'i gyfrifo drwy ddisgowntio yn ôl cyfradd y farchnad ar gyfer offeryn tebyg sydd â chyfnod cyfatebol cyn aeddfedu.

Mae Dyledwyr Hirdymor yn cae eu cario yn y Fantolen sy'n asedau ariannol, sef Blaensymiau Tai (£12,552.73) sy'n cynnwys 5 benthyciad hirdymor a roddwyd gan y Cyngor i gyn denantiaid ac aelwydydd am forgeisiau a phrydles dderbyniadwy sy'n cael ei chario yn y Fantolen fel Prydlesau Arian (£133,000) am gerbydau yn gysylltiedig â'r contract gwastraff.

## Cydbwyso Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol

Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydbwyso yn erbyn ei gilydd os oes gan y Cyngor hawl sy'n orfodadwy yn y gyfraith i gydbwyso a'i fod yn bwriadu naill ai setlo ar sail net, neu wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth yr un pryd. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi'u cydbwyso ar y Fantolen. Doedd gan y Cyngor ddim asedau na rhwymedigaethau ariannol eraill a oedd yn dod o dan drefniant netio gorfodadwy neu gytundeb tebyg.

| Cydbwyso Asedau<br>a Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2016<br>Asedau<br>(Rhwymedigaethau)<br>Gros<br>£000 | 31 Mawrth 2015<br>Asedau<br>(Rhwymedigaethau)<br>Gros<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyfrifon Banc mewn Credyd | 2,121 | 2,322 |
| **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | 2,121 | 2,322 |
| Gorddrafftiau Banc | (2,229) | (2,415) |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | (2,229) | (2,415) |
| | | |
| **Sefyllfa Net ar y Fantolen** | **(108)** | **(93)** |

**Offerynnau Ariannol – Risg**

Mae'r gweithdrefnau ynglŷn â rheoli risg wedi'u nodi drwy fframwaith cyfreithiol a geir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003 a'r rheoliadau perthynol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Drysorfa (a'r diwygiadau canlyniadol) ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Materion Ariannol ar gyfer Cyfalaf Cyllid mewn Awdurdodau Lleol (ill dau wedi'u diwygio ym mis Tachwedd 2011).

Fel rhan o fabwysiadu'r Cod ynghylch Rheoli'r Drysorfa, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorfa cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn llunio Arferion Rheoli Trysorfa sy'n pennu'r trefniadau ymarferol sydd i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn. Derbyniodd cyfarfod y Cyngor ar 25 Chwefror 2015 Strategaeth Rheoli Trysorfa 2015-16 a'r Dangosyddion Rheoli Trysorfa a'r Dangosyddion Darbodaeth.

Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorfa yn cynnwys Strategaeth Buddsoddi Flynyddol i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol. Mae'r canllawiau hyn yn pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i sicrwydd a hylifedd yn hytrach nag enillion. Mae Strategaeth Rheoli Trysorfa'r Cyngor wedi'i seilio ar chwilio am y cyfradd enillion uchaf sy'n gyson â lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal adolygiad canol blwyddyn o'i bolisïau a'i arferion a'i weithgareddau rheoli trysorfa polisïau ac unrhyw ddiwygiadau yn y Strategaeth Buddsoddi i ganiatáu mwy o hyblygrwydd mewn marchnad ariannol sy'n newid drwy'r amser a bydd y cyfleoedd buddsoddi sydd ar gael yn cael eu cymeradwyo gan gyfarfod ffurfiol o'r Cyngor. Ceir adroddiad blynyddol i'r Aelodau hefyd ar y perfformiad gwirioneddol ar ffurf yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Drysorfa sy'n cael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio. Rhoddir y polisïau hyn ar waith gan Dîm Rheolaeth Ariannol canolog.

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn ei ddatguddio i amrywiaeth o risgiau ariannol. Dyma'r risgiau allweddol:-

- Risg credyd – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu talu symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor;
- Risg hylifedd – y posibilrwydd na fydd gan y Cyngor gyllid ar gael i gyflawni ei ymrwymiadau ac i wneud taliadau;
- Risg marchnad – y posibilrwydd y gallai colled ariannol godi i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau megis symudiadau mewn cyfraddau llog.

**Risg Credyd**

Mae risg credyd yn codi o adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal â pheryglon credyd ymysg cwsmeriaid y Cyngor. Nid oes adneuon yn cael eu rhoi i fanciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn bodloni gofynion y meini prawf ar fuddsoddi a amlinellir yn y Strategaeth Buddsoddi a geir yn y Strategaeth Rheoli Trysorfa.

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau mai dim ond gyda sefydliadau y mae ansawdd eu credyd yn uchel y rhoddir buddsoddiadau, fel y nodir yn y Strategaeth Rheoli Trysorfa. Mae'r rhain yn cynnwys endidau sydd â chyfradd credyd hirdymor o A- o leiaf, sydd â'u cartref yn y Deyrnas Unedig neu wlad arall sydd â chyfradd sofran o AA+ o leiaf, llywodraeth y Deyrnas Unedig, awdurdodau lleol eraill, a sefydliadau heb gyfradd credyd y mae'r Cyngor wedi cael cyngor buddsoddi annibynnol yn eu cylch. Bydd is-gwmnïau tramor i grwpiau bancio tramor yn cael eu hasesu fel rheol yn ôl y wlad sy'n gartref i'r rhiant-sefydliad.

Mae Cod Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Drysorfa yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad canol blwyddyn o'i bolisïau, ei arferion a'i weithgareddau rheoli trysorfa. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, barnwyd nad oedd angen i'r Cyngor wneud unrhyw newid mawr yn y Strategaeth Buddsoddi, dim ond ambell fân ddiwygiad i ganiatáu mwy o hyblygrwydd mewn marchnad ariannol sy'n newid drwy'r amser ac i gynyddu'r cyfleoedd buddsoddi sydd ar gael i'r Cyngor gan gadw sicrwydd a hylifedd hefyd. Cymeradwywyd y diwygiadau gan gyfarfod y Cyngor ar 25 Tachwedd 2015 o ganlyniad i adolygiad hanner blwyddyn y Strategaeth Rheoli Trysorfa ac mae'r rhain i gyd wedi'u hadlewyrchu yn y Datgeliad hwn. Ar sail hyn, caiff y Cyngor fuddsoddi gydag unrhyw un neu ragor o'r mathau o wrth-bartïon a welir isod yn y tabl gwrth-bartïon a gymeradwywyd, yn unol â'r cyfyngiadau arian parod (i bob gwrth-barti) a'r terfynau amser a ddangosir.

**Gwrth-bartïon a gymeradwywyd**

| Cyfradd Credyd | Banciau (gan gynnwys cymdeithasau adeiladu) Ansicredig | Banciau (gan gynnwys cymdeithasau adeiladu) Sicredig | Llywodraeth | Corfforaethau | Darparwyr Cofrestredig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Ganolog y DU** | D/G | D/G | £ Diderfyn | D/G | D/G |
| | | | 50 Mlynedd | | |
| **Awdurdodau Lleol y DU *** | D/G | D/G | £12,000,000 | D/G | D/G |
| | | | 10 Mlynedd | | |
| **AAA** | £3,000,000 | £4,000,000 | £4,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 |
| | 5 Mlynedd | 20 Mlynedd | 50 Mlynedd | 20 Mlynedd | 20 Mlynedd |
| **AA+** | £3,000,000 | £4,000,000 | £4,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 |
| | 5 Mlynedd | 10 Mlynedd | 25 Mlynedd | 10 Mlynedd | 10 Mlynedd |
| **AA** | £3,000,000 | £4,000,000 | £4,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 |
| | 4 Blynedd | 5 Mlynedd | 15 Mlynedd | 5 Mlynedd | 10 Mlynedd |
| **AA-** | £3,000,000 | £4,000,000 | £4,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 |
| | 3 Blynedd | 4 Blynedd | 10 Mlynedd | 4 Blynedd | 10 Mlynedd |
| **A+** | £3,000,000 | £4,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 |

| | 2 Flynedd | 3 Blynedd | 5 Mlynedd | 3 Blynedd | 5 Mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **A** | £3,000,000 | £4,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 |
| | 13 Mis | 2 Flynedd | 5 Mlynedd | 2 Flynedd | 5 Mlynedd |
| **A-** | £3,000,000 | £4,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 | £2,000,000 |
| | 6 Mis | 13 Mis | 5 Mlynedd | 13 Mis | 5 Mlynedd |
| **BBB+** | £1,000,000 | £2,000,000 | £1,000,000 | £1,000,000 | £1,000,000 |
| | 100 Diwrnod | 6 Mis | 2 Flynedd | 6 Mis | 2 Flynedd |
| **BBB neu BBB-** | £1,000,000 | £2,000,000 | D/G | D/G | D/G |
| | Drannoeth yn unig | 100 Diwrnod | | | |
| **Dim** | £1,000,000 | D/G | £2,000,000 | D/G | £2,000,000 |
| | 6 Mis | | 25 Mlynedd | | 5 Mlynedd |
| **Cronfeydd Cyffredin** | £4,000,000 | | | | |
| | I bob cronfa | | | | |

** heb gynnwys cynghorau cymuned a chynghorau plwyf*

Mae buddsoddiadau ansicredig yn agored i'r risg o golli credyd drwy gyfrwng achubiaeth fewnol os bydd y rheoleiddiwr yn penderfynu bod y banc yn methu neu'n debyg o fethu, tra mae buddsoddiadau sicredig yn cael eu sicrhau ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion posibl os digwydd yr annhebygol a bod y banc yn methdalu, ac mae'n golygu eu bod yn esempt rhag achubiaeth fewnol. Ni fydd y cyfuniad o fuddsoddiadau sicredig ac ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau sicredig.

Mae'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol yn dweud pa fuddsoddiadau y caiff y Cyngor eu defnyddio er mwyn rheoli ei falansau trysorfa'n ddarbodus yn ystod y flwyddyn ariannol o dan benawdau Buddsoddiadau Penodedig a Buddsoddiadau Amhenodedig.

Buddsoddiad Penodedig yw un sy'n cynnig sicrwydd mawr a hylifedd mawr. Mae'n fuddsoddiad isel ei risg lle mae'r posibilrwydd o golli'r prifswm neu'r incwm o'r buddsoddiad yn fach iawn ac yn bodloni'r amodau isod fel y'i diffiniwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar fuddsoddi:-

- bod y buddsoddiad wedi'i ddynodi mewn punnoedd sterling
- nad yw'r buddsoddiad yn fuddsoddiad hirdymor (ymrwymiad contract i'w dalu o fewn 12 mis/364 diwrnod)
- nad yw wedi'i ddiffinio fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, a
- bod y buddsoddiad yn cael ei wneud gyda'r canlynol:

  **a)** corff neu gynllun buddsoddi ac iddynt ansawdd credyd uchel; neu
  **b)** Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
  **c)** awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig;
  **d)** cyngor cymuned neu gyngor plwyf.

Buddsoddiad Amhenodedig yw unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r meini prawf uchod o dan y diffiniad o Fuddsoddiad Penodedig. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i Strategaeth Buddsoddi'r Cyngor bennu terfyn ar gyfer buddsoddiadau amhenodedig ac fe'i

pennwyd ar £25 miliwn. Gan hynny, ar unrhyw adeg benodol fe allai uchafswm o £25 miliwn o fuddsoddiadau fod wedi'u gwneud mewn un o'r categorïau amhenodedig a ganlyn:

| Terfynau Buddsoddiadau Amhenodedig | Cyfanswm Terfyn Arian Parod y Categori |
|---|---|
| Cyfanswm y buddsoddiadau hirdymor | £15m |
| Cyfanswm Cronfeydd Marchnadoedd Arian a chronfeydd cyffredin eraill | £10m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau heb gyfraddau credyd neu sydd â chyfradd islaw diffiniad y Cyngor o “ansawdd credyd uchel” | £6m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau gyda sefydliadau sydd â'u cartref mewn gwledydd tramor a chanddynt gyfradd sofran islaw AA+ | £3m |

Mae gwerthoedd cyfun buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig gydag unrhyw un sefydliad yn amodol ar y gwrth-bartïon a gymeradwywyd a'r terfynau ar fuddsoddiadau amhenodedig yn y ddau dabl isod a hefyd ar y terfynau buddsoddi a welir yn y tabl isod. Trinnir grŵp o fanciau o dan yr un berchnogaeth fel un sefydliad at ddibenion y terfynau.

| Terfynau ar Fuddsoddiadau | Terfyn Arian Parod |
|---|---|
| Unrhyw sefydliad sengl, ac eithrio Llywodraeth Ganolog a Lleol y Deyrnas Unedig | £4m |
| Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Unedig | diderfyn |
| Awdurdodau Lleol Deyrnas Unedig (am bob gwrth-barti) | £12m |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau o dan yr un berchnogaeth | £4m y grŵp |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyffredin o dan yr un rheolaeth | £4m y rheolwr |
| Offerynnau negodadwy a ddelir yng nghyfrif enwebai'r brocer | £10m y brocer |
| Gwledydd Tramor | £4m y wlad |
| Darparwyr Cofrestredig | Cyfanswm o £5m |
| Buddsoddiadau ansicredig gyda Chymdeithasau Adeiladu | Cyfanswm o £6m |

Mae cyfraddau credyd yn cael eu sicrhau a'u monitro gan gynghorwyr trysorfa'r Cyngor, sy'n rhoi gwybod am newidiadau yn y cyfraddau wrth iddynt ddigwydd. Maen nhw'n defnyddio cyfraddau credyd hirdymor y tair prif asiantaeth gyfraddio, sef Fitch Ratings Ltd., Moody's Investors Service a gwasanaethau ariannol Standard & Poor's i asesu'r risg y bydd buddsoddiadau'n methu. Mae'r gyfradd gredyd isaf sydd ar gael gan wrth-barti yn cael ei defnyddio i bennu ansawdd y gyfradd credyd, oni bai bod cyfradd benodol ar gyfer y buddsoddiad ar gael. Mae'r Cyngor yn deall bod cyfraddau credyd yn dda, ond nid yn berffaith, o ran darogan methiannau buddsoddiadau. Gan hynny mae sylw llawn yn cael ei roi i'r wybodaeth arall sydd ar gael am ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffyg credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth am gymorth posibl gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol safonol.

Prif amcan y Cyngor wrth reoli ei fuddsoddiadau yw rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd ei gronfeydd cyn chwilio am y gyfradd enillion gorau ac felly ni chafodd yr holl opsiynau a oedd ar gael i'r Cyngor yn unol â'r manylion uchod eu defnyddio yn ystod 2015-16. Cafodd y cyfyngiadau ar gyfer gwrth-bartïon eu hadolygu'n barhaus a phan oedd amodau'r farchnad yn mynnu hynny, cafodd y cyfyngiad ei ollwng yn is na'r terfynau a nodwyd uchod. Ni chafodd meini prawf y Cyngor

ynghylch gwrth-bartïon eu torri yn ystod 2015-16 ac nid yw'r Cyngor yn disgwyl gweld colledion yn sgil diffyg perfformiad gan unrhyw un o'i wrth-bartïon o ran adneuon.

Cyfanswm buddsoddiadau'r Cyngor, gan gynnwys y prifsymiau, ar 31 Mawrth 2016 oedd £26.00 miliwn yn unol â'r manylion isod ac fe'i dangosir yn y Fantolen fel Buddsoddiadau Hirdymor (£2.007 miliwn), Buddsoddiadau Byrdymor (£14.543 miliwn) a'i gynnwys yn yr Arian Parod a'r Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod (£9.501 miliwn). Nid yw'r perygl mwyaf o ran risg credyd ynglŷn â'i fuddsoddiadau mewn banciau a chymdeithasau adeiladu'n gallu cael ei asesu'n gyffredinol gan fod y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu gwneud taliadau llog neu ad-dalu'r prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae'r profiad diweddar wedi dangos mai peth prin yw i endidau o'r fath fethu talu eu hymrwymiadau. Ceir risg o fethu adennill symiau ynglŷn â holl adneuon y Cyngor, ond doedd dim tystiolaeth ar 31 Mawrth 2016 fod hynny'n debyg o ddigwydd. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r risgiau credyd ym mhortffolio buddsoddiadau'r Cyngor yn ôl cyfraddau credyd, ar sail y gyfradd isaf yn y tymor hir:

| Categori'r Gwrth-barti | Cyfradd Credyd | Cyfrifon Adneuon Mynediad ar unwaith £000 | Cyfrif Adneuon Isafswm Cyfnod £000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 1 Mis £000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 2- 3 Mis £000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 6 Mis i 1 Flwyddyn £000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 1-2 Flynedd £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Banc | AA- | 500 | | | | | | **500** |
| Banc | A | 1,000 | 2,000 | | | 2,000 | | **5,000** |
| Awdurdodau Lleol (heb gyfradd) | | | | 10,000 | 5,500 | 2,000 | 2,000 | **19,500** |
| Cymdeithasau Adeiladu heb gyfradd | | | | | 1,000 | | | **1,000** |
| **Cyfanswm** | | **1,500** | **2,000** | **10,000** | **6,500** | **4,000** | **2,000** | **26,000** |

At ei gilydd, nid yw'r Cyngor yn caniatáu credyd i'w gwsmeriaid (dyledwyr masnach) ac felly mae'r holl ddyledwyr masnach yn cael eu cydnabod fel dyledwyr byrdymor. Er hynny, mae £2.390 miliwn o'r balans o £5.771 miliwn (a ddangosir uchod yn yr asedau ariannol) wedi mynd heibio i'r dyddiad pan fo'r taliad yn ddyledus. Gall y swm sydd heibio'r dyddiad dyledus ond sydd heb ei amharu gael ei ddadansoddi yn ôl oedran fel y gwelir yn y tabl isod:

| Dyledwyr Masnach heibio'r dyddiad dyledus ond heb ei amharu | 31 Mawrth 2016 £000 | 31 Mawrth 2015 £000 |
|---|---|---|
| Llai na thri mis | 923 | 1,308 |
| Tri mis i chwech | 582 | 259 |
| Chwe mis i flwyddyn | 343 | 130 |
| Mwy na blwyddyn | 541 | 406 |
| **Cyfanswm** | **2,390** | **2,104** |

**Risg Hylifedd**

Mae'r Cyngor yn rheoli ei risg hylifedd drwy reoli ei lifoedd arian er mwyn sicrhau bod arian parod ar gael pan fydd ei angen. Mae ganddo fynediad hwylus i gyfrifon adneuo mynediad ar unwaith, cyfleusterau gorddrafft a benthyciadau o'r marchnadoedd arian neu awdurdodau lleol eraill i ymdopi ag unrhyw angen o ran llif arian o ddydd i ddydd ac mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) yn darparu mynediad i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol. Mae'r Cyngor yn trefnu benthyciadau a buddsoddiadau am gyfnodau penodedig gydag ystod o ddyddiadau aeddfedu o fewn y fframwaith a'r dangosyddion a gymeradwyir bob blwyddyn. Does dim risg wedi'i gweld y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i dalu ei ymrwymiadau, ond yn hytrach mae'r risg yn ymwneud ag adnewyddu cyfran arwyddocaol o'i fenthyciadau mewn cyfnod o gyfraddau llog anffafriol.

Un paramedr allweddol a ddefnyddir i fynd i'r afael â risg hylifedd y Dangosydd Rheoli'r Drysorfa sy'n cyfyngu ar strwythur aeddfedu benthyciadau cyfradd osod. Dyma swm y benthyciadau arfaethedig ar gyfradd osod sy'n aeddfedu ym mhob cyfnod fel canran o gyfanswm arfaethedig y benthyciadau cyfradd osod. Mae'r dangosydd hwn yn cael ei osod i reoli'r risg ailariannu sy'n wynebu'r Cyngor ac mae wedi'i osod er mwyn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o ailstrwythuro dyledion hirdymor os disgwylir i hynny arwain at arbediad cyffredinol neu ostyngiad yn y risg.

| Strwythur aeddfedrwydd Benthyciadau cyfradd sefydlog | Terfyn Uchaf 2015-16 | Terfyn Isaf 2015-16 | Gwirioneddol % 31-03-16 | Prifswm Heb ei Dalu £000 31-03-16 |
|---|---|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 50% | 0% | 0% | 0 |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | 25% | 0% | 0% | 0 |
| Rhwng dwy flynedd a phump | 50% | 0% | 0% | 0 |
| Rhwng pum mlynedd a deg | 60% | 0% | 9.59% | 9,289 |
| Mwy na deng mlynedd | 100% | 40% | 70.54% | 68,328 |
| Dyddiad ansicr* | - | - | 19.87% | 19,250 |
| **Cyfanswm** | | | **100.00%** | **96,867** |

Er bod y gweithdrefnau llif arian uchod yn cael eu hystyried yn erbyn y gweithdrefnau risg ailariannu, mae risg i'r Cyngor dros dymor hirach yn ymwneud â rheoli'r perygl o adnewyddu'r holl offerynnau ariannol gan gynnwys Rhwymedigaethau Ariannol mwy hirdymor wrth i'r rheiny aeddfedu. Mae'r tabl a ganlyn yn manylu ar aeddfedrwydd holl Rwymedigaethau Ariannol y Cyngor ar sail eu gwerth ar y Fantolen ac mae'n cynnwys yr holl gredydwyr masnach a'r credydwyr eraill a ddosberthir fel Rhwymedigaethau Ariannol sy'n ddyledus i'w talu ymhen llai na blwyddyn.

| Dadansoddiad Aeddfedrwydd Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2016 £000 | 31 Mawrth 2015 £000 |
|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 7,897 | 5,884 |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | 705 | 774 |
| Rhwng dwy flynedd a phump | 4,878 | 2,642 |
| Rhwng pum mlynedd a deg | 14,510 | 11,181 |
| Mwy na deng mlynedd | 79,282 | 84,057 |
| Dyddiad ansicr* | 19,817 | 19,827 |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | **127,089** | **124,365** |

* Mae'r £19.250 miliwn (19.87%) a'r £19.817 miliwn yn y ddau dabl uchod sy'n dangos dyddiad ansicr yn ymwneud â benthyciadau Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Cymerwr Benthyciadau (LOBO) a all gael eu hailamserlennu cyn eu dyddiad aeddfedu yn 2054. Gall cyfradd a chyfnod LOBOs amrywio yn y dyfodol gan ddibynnu ar gyfraddau cyffredinol y farchnad, a fydd y rhoddwr benthyciad yn defnyddio'i opsiwn o godi'r cyfraddau ar un o'r adegau sbarduno chwe-misol (22 Gorffennaf 2016 fydd y dyddiad sbarduno nesaf) a bod yr Awdurdod felly'n cael yr opsiwn o dderbyn y cynnydd neu ad-dalu'r benthyciad heb gael ei gosbi. Oherwydd y cyfraddau llog isel ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn rhag-weld y bydd hyn yn digwydd yn ystod 2016-17 ond os bydd yr annhebygol yn digwydd a bod y rhoddwr benthyciad yn defnyddio'r opsiwn mae'r Cyngor yn debyg o ad-dalu'r benthyciadau hyn. Gan hynny, ansicr yw'r dyddiad aeddfedu.

**Risg Marchnad**

Mae'r Cyngor yn agored i'r risg y gallai colled ariannol ddigwydd o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel symudiadau cyfraddau llog, prisiau'r farchnad neu gyfraddau cyfnewid arian tramor. Nid yw'r Cyngor yn agored i'r ddwy risg rheolaeth drysorfa ynglŷn â risg prisiau neu risg cyfraddau cyfnewid tramor ac felly dim ond risg cyfraddau llog sy'n cael ei thrafod isod.

Risg cyfraddau llog – Mae'r Cyngor yn agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae gan symudiadau cyfraddau log effaith gymhleth ar y Cyngor, gan ddibynnu sut mae cyfraddau amrywiol a chyfraddau gosod yn symud ar draws gwahanol gyfnodau'r offerynnau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a phenodedig yn creu'r effeithiau a ganlyn:

- benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y llog a godir ar refeniw yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant yn codi;
- benthyciadau ar gyfraddau gosod – mae'r gyfradd osod yn gwarchod y Cyngor rhag cynnydd mewn ffioedd llog gan y byddai benthyciad cyfatebol yn costio mwy bellach. Bydd gwerth teg y benthyciadau (rhwymedigaeth) yn gostwng;
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm o logau a gredydir ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant yn codi; a
- buddsoddiadau ar gyfraddau gosod – mae'r gyfradd osod yn atal y Cyngor rhag cael incwm uwch o fuddsoddiadau drwy fuddsoddi'r un prifswm. Bydd gwerth teg y buddsoddiad (ased) yn gostwng

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau ar gyfer rheoli'r risg ynglŷn â chyfraddau llog. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorfa yn cyfuno dangosyddion y Cyngor ynglŷn â Rheoli'r Drysorfa a'i ddangosyddion Darbodaeth a'i weithrediadau trysorfa arfaethedig, gan gynnwys disgwyliad ynghylch symudiadau mewn cyfraddau llog. Ar sail hyn, mae dangosydd yn cael ei bennu sy'n rhoi terfynau uchaf ar gyfer y datguddiad i gyfraddau gosod ac amrywiol:-

| | Terfyn Uchaf y TMS 2015-16<br><br>£m | Prifswm Gwirioneddol sydd ar ôl 31-03-16<br>£m |
|---|---|---|
| Amcanestyniad Cyfanswm y Prifswm sy'n dal ar ôl ar Fenthyciadau | 101.87 | 96.87 |
| Amcanestyniad Cyfanswm y Prifswm sy'n dal ar ôl ar Fuddsoddiadau (gan gynnwys adneuon arian parod/gwerthoedd sy'n gyfwerth ag arian parod) | 8.00 | 26.00 |
| Y Prifswm Net sy'n dal ar ôl | **93.87** | **70.87** |
| Datguddiad i gyfraddau llog gosod (prifswm net) | 140.00 | 55.12 |
| Datguddiad i gyfraddau llog amrywiol (prifswm net) | 50.00 | 15.75 |

Nid yw benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu cario yn ôl y gwerth teg ar y Fantolen, ac felly fyddai enillion a cholledion mewn enw ar fenthyciadau cyfradd osod ddim yn effeithio ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Er hynny, mae newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn dderbyniadwy ar fenthyciadau cyfradd amrywiol yn effeithio arno ac fe'u dangosir yn y Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau.

Mae'r Tîm Rheolaeth Ariannol yn monitro'r farchnad a'r cyfraddau llog sydd wedi'u darogan yn ystod y flwyddyn er mwyn addasu'r datguddiad i'r rhain mewn modd priodol, er mwyn caniatáu i'r Cyngor ymdopi ag unrhyw newid andwyol. Er enghraifft yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau llog yn gostwng, a phan fo'r amgylchiadau economaidd yn peri bod hynny'n ffafriol, gall benthyciadau cyfradd osod gael eu had-dalu'n gynnar i gyfyngu ar y datguddiad i golledion. Yn ôl y Strategaeth hon, ar 31 Mawrth 2016, pe bai'r cyfraddau llog wedi'u newid 1% gan gadw pob newidyn arall yn ei unfan, byddai'r effaith ariannol wedi bod yn fras fel a ganlyn:

| | **Amcangyfrif**<br>**£000**<br>**+ 1%** | **Amcangyfrif**<br>**£000**<br>**-1%** |
|---|---|---|
| Llog yn daladwy ar fenthyciadau cyfradd amrywiol | 133 | 0 |
| Llog yn dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd amrywiol | (185) | 185 |
| **Yr Effaith ar y Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(52)** | **185** |

Nid yw'r ffigurau ar gyfer effaith fras gostyngiad o 1% yn y cyfraddau llog ar gyfer benthyciadau yr un fath â'r cynnydd o 1% (ond wedi'i wrth-droi) gan fod y benthyciadau cyfradd amrywiol yn cyfeirio at ein benthyciadau LOBO lle rhagdybir na fyddai'r rhoddwr benthyciad yn defnyddio'i opsiwn pe bai'r cyfraddau llog yn gostwng.

## 38. Digwyddiadau ar ôl y Fantolen

Does dim digwyddiadau ar ôl y Fantolen.

### 39. Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi pan fo digwyddiad wedi bod sy'n peri rhwymedigaeth bosibl i'r Cyngor ond na fydd bodolaeth y rhwymedigaeth yn cael ei chadarnhau ond os bydd digwyddiadau ansicr yn codi yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o dan reolaeth y Cyngor.

Ar 31 Mawrth 2016, roedd hawliad ar ei hanner yn erbyn y Cyngor ynglŷn â thir a brynodd y Cyngor yn orfodol er mwyn codi adeilad ysgol newydd. Mae dull cyfrifo'r dyfarniad iawndal wedi'i herio ac mae achos cyfreithiol yn ei gylch ar ei hanner. Os bydd y tirfeddiannwr yn llwyddiannus, bydd proses wahanol yn dechrau er mwyn pennu gwerth y tir. Ar hyn o bryd, felly, mae gwerth unrhyw iawndal posibl yn y dyfodol a allai fod yn ddyledus yn anhysbys ac oherwydd hynny mae'n cael ei ddatgelu fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn y cyfrifon.

## Nodiadau ar y Datganiad Llif Arian

### 40. Addasiadau ar gyfer Symudiadau heblaw Arian Parod

| 2014-15<br><br>£'000 | | 2015-16<br><br>£'000 |
|---|---|---|
| (87,723) | Dibrisiant ac Amhariadau ar Asedau | (33,527) |
| (9,798) | Symudiad yn y Stoc, Dyledwyr a Chredydwyr | 3,923 |
| (9,020) | Addasiadau'r Gronfa Bensiwn | (6,590) |
| 1,976 | Darpariaethau | (556) |
| 647 | Newidiadau yng Ngwerth teg Eiddo Buddsoddi | 1,082 |
| (718) | Enilliad/Colled ar waredu ased anghyfredol | 2,198 |
| 1,793 | symudiadau anariannol eraill | 1,262 |
| **(102,843)** | **Addasiadau i'r diffyg net ar y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau heblaw arian parod** | **(32,208)** |

### 41. Gweithgareddau gweithredu

Mae'r llifoedd arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:-

| 2014-15<br><br>£'000 | | 2015-16<br><br>£'000 |
|---|---|---|
| (19,007) | Llif Arian Parod ar Weithgareddau Refeniw | (6,331) |
| 4,789 | Llogau a dalwyd | 4,545 |
| 1,638 | Elfen log prydles ariannol a thaliadau rhent PFI | 1,503 |
| (830) | Llogau a dderbyniwyd | (880) |
| **(13,410)** | **Llifoedd Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu** | **(1,163)** |

### 42. Gweithgareddau buddsoddi

Mae'r llifoedd arian ar gyfer gweithgareddau buddsoddi yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:-

| 2014-15<br><br>£'000 | | 2015-16<br><br>£'000 |
|---|---|---|
| 23,348 | Prynu Eiddo, Peiriannau ac Eiddo ac Eiddo Buddsoddi | 21,517 |
| 7,022 | Prynu / (Enillion) o Fuddsoddiadau Hirdymor a Byrdymor | 5,523 |
| (6,398) | Enillion o werthu Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Eiddo Buddsoddi | (3,649) |
| **23,972** | **Llifoedd Arian Parod Net o weithgareddau Buddsoddi** | **23,391** |

## 43. Gweithgareddau cyllido

Mae'r llifoedd arian ar gyfer gweithgareddau cyllido yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:-

| 2014-15 £'000 | | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|
| - | Derbyniadau arian parod o fenthyciadau byrdymor a hirdymor | (3,991) |
| (13,970) | Derbyniadau Eraill o weithgareddau cyllido | (20,916) |
| 624 | Ad-daliadau benthyciadau byrdymor a hirdymor | 1,507 |
| 680 | Taliadau Arian Parod am ostwng y rhwymedigaethau sy'n dal heb eu talu ynglŷn â phrydlesau ariannol a chontractau PFI ar y fantolen | 563 |
| **(12,666)** | **Llifoedd Arian Parod Net o weithgareddau Cyllido** | **(22,837)** |

# Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Bwrdiestref Pen-y-Bont ar Ogwr

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Bwrdiestref Pen-y-Bont ar Ogwr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdiestref Pen-y-Bont ar Ogwr yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

### Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 19, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Bwrdiestref Pen-y-Bont are Ogwr a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol [a nodwch wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol] er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdiestref Pen-y-Bont ar Ogwr

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdiestref Pen-y-Bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn y Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r [Datganiad Llywodraethu] yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon (enw'r corff llywodraeth leol) yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran
Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyngor Bwrdiestref Pen-y-Bont ar Ogwr sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*

*Y Swyddog Cyfrifyddu / Swyddog Cleientiaid yw sy'n gyfrifol am Cyngor Bwrdiestref Pen-y-Bont ar Ogwr gynnal gwefan ac am uniondeb y wefan honno; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gallent fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf*

# Geirfa

**Actiwari**
Mae actiwari'n berson sy'n cyfrifo premiymau yswiriant a phensiwn, gan gymryd i ystyriaeth ffactorau fel disgwyliad oes.

**Addasiad blwyddyn flaenorol**
Yr addasiadau perthnasol hynny sy'n gymwys i flynyddoedd blaenorol yn sgil newidiadau mewn polisïau cyfrifydda neu yn sgil cywiro gwallau sylfaenol.

**Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)**
Yr NNDR, neu'r Ardrethi Busnes, yw'r tâl sy'n cael ei godi ar ddeiliaid mangreoedd busnes. Mae'r arian a gesglir yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru a'i ailddosbarthu i'r awdurdodau unigol mewn cyfrannedd â'r oedolion yn eu poblogaeth.

**Asedau cyfredol**
Asedau byrdymor yw'r rhain sydd ar gael i'r Cyngor eu defnyddio yn ystod y flwyddyn gyfrifydda nesaf.

**Amorteiddio**
Gostyngiad yng ngwerth gwariant cyfalaf nad yw wedi creu ased, drwy newidiadau mewn refeniw.

**Archwiliad**
Mae archwiliad yn golygu archwiliad annibynnol ar gyfrifon y Cyngor.

**Asedau gweithredol**
Asedau yw'r rhain sy'n cael eu defnyddio wrth redeg neu ddarparu gwasanaethau.

**Balansau dirprwyedig ysgolion**
O dan ddarpariaethau Rheoli Ysgolion yn Lleol, mae unrhyw falansau sydd wedi cronni ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu dirprwyo i'r ysgolion unigol. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu cadw y tu allan i falansau Cronfa'r Cyngor.

**Benthyciad neu fuddsoddiad dros dro**
Dyma arian sydd wedi'i fenthyca neu wedi'i fuddsoddi am gyfnod cychwynnol o lai na blwyddyn.

**Blwyddyn ariannol**
Dyma'r cyfnod cyfrifydda. Yn achos awdurdodau lleol mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ddilynol.

**Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)**
Un o asiantaethau'r Llywodraeth yw'r Bwrdd ac mae'n darparu benthyciadau hirdymor i awdurdodau lleol. Mae'n codi cyfraddau llog sydd ychydig yn unig yn uwch na'r cyfraddau y mae'r Llywodraeth yn cael cymryd benthyciad arnyn nhw.

**Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Wasanaethau (SeRCOP)**
Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Wasanaethau yn fframwaith cyson ar gyfer adroddiadau ar ddata awdurdodau lleol. Adolygir SeRCOP bob blwyddyn gan y corff rheoleiddio priodol i sicrhau ei fod yn datblygu yn unol ag anghenion llywodraeth leol fodern, tryloywder, y gwerth gorau a diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

**Costau Annosbarthadwy (NDC)**
Mae NDC yn gategori costau a ddiffinnir gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon y Gwerth Gorau. Mae'n cynrychioli:
• costau cyfleusterau TG sydd heb eu defnyddio,

• costau asedau anwireddadwy sydd heb eu defnyddio dros dymor hir,
• costau penodol cronfeydd pensiwn

**Craidd Corfforaethol a Democrataidd (CDC)**
Mae'r CDC yn wasanaeth a ddiffinnir gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon y Gwerth Gorau, sef costau sy'n ymwneud a gweithgareddau Aelodau (Cynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheoli) a chostau sy'n darparu'r isadeiledd i sicrhau bod modd i wasanaethau gael eu darparu (Rheoli Corfforaethol).

**Credydwr**
Credydwr yw sefydliad neu rywun y mae ar y Cyngor arian iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu'r blynyddoedd blaenorol.

**Croniad**
Mae croniad yn swm a ddangosir yn y cyfrifon ac sy'n cynrychioli incwm neu wariant am y cyfnod cyfrifydda ond nad oedd wedi'i gael neu wedi'i dalu ar ddyddiad y fantolen.

**Cronfa Ailbrisio**
Mae hon yn cynrychioli'r cynnydd/gostyngiad annosbarthadwy ym mhrisiad asedau sefydlog.

**Cronfa a Glustnodwyd**
Cronfeydd wrth gefn sydd wedi'i neilltuo at ddiben penodol yw'r rhain.

**Cronfa refeniw**
Cyfrif yw hwn sy'n cofnodi'n gwariant a'n hincwm o ddydd i ddydd ar eitemau fel cyflogau misol ac wythnosol, costau rhedeg gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

**Cronfa ymddiriedolaeth**
Mae cronfeydd ymddiriedolaeth yn cadw arian ar ran unigolion neu sefydliad. Bydd ymddiriedolwyr yn gweinyddu'r cronfeydd ar ran y perchnogion.

**Cyfrif Addasu Cyfalaf**
Arian yw hwn sydd wedi'i neilltuo yng nghyfrifon y Cyngor ar gyfer gwariant cyfalaf ac i ad-dalu benthyciadau.

**Cyfrif escrow**
Trefniant cyfreithiol yw escrow, lle mae arian yn cael ei draddodi i drydydd parti (o'r enw asiant escrow) i'w gadw mewn ymddiriedolaeth hyd nes i ryw ddigwyddiad penodol godi neu nes y bodlonir amod neu amodau mewn contract.

**Cyllideb**
Mae cyllideb (neu amcangyfrif) yn gynllun incwm a gwariant, y seilir y dreth gyngor arni. Wedyn mae'r gwariant a'r incwm gwirioneddol yn cael eu monitro yn erbyn y cynllun hwn.

**Darpariaeth**
Mae darpariaeth yn swm y byddwn yn ei neilltuo yn ein cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau a ddisgwylir na allwn eu mesur yn fanwl-gywir.

**Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)**
Swm yw hwn sydd wedi'i neilltuo i ad-dalu benthyciadau. Dylai fod yn swm darbodus.

**Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS)**
Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod.

**Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant**
Mae'r cyfrif hwn yn cofnodi'r gwariant a'r incwm beunyddiol ar eitemau fel cyflogau misol ac wythnosol, costau rhedeg gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

**Datganiad Llif Arian**
Dyma ddatganiad sy'n crynhoi'r symudiadau arian parod yn ystod y flwyddyn.

**Derbyniad cyfalaf**
Derbyniadau cyfalaf yw'r enillion a geir drwy werthu asedau sefydlog megis tir neu adeiladau.

**Dibrisiant**
Dibrisiant yw'r amcangyfrif o'r golled yng ngwerth asedau sefydlog a ddangosir yn y Fantolen.

**Digwyddiadau ar ôl y fantolen**
Digwyddiadau ar ôl y fantolen yw'r rheiny sy'n codi ar ôl dyddiad y Fantolen. Dyma eitemau nad oedden nhw'n bodoli pan gafodd y Fantolen ei pharatoi ond a ddylai gael eu datgelu os ydyn nhw'n berthnasol o ran cyflwyno'r cyfrifon mewn modd teg.

**Dyledwr**
Dyledwr yw sefydliad neu rywun y mae arno arian i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu'r blynyddoedd blaenorol.

**Grantiau'r llywodraeth**
Cymorth oddi wrth y llywodraeth ac asiantaethau rhynglywodraethol a chyrff tebyg, lleol, cenedlaethol neu ryngwladol, ar ffurf arian parod neu drosglwyddiadau asedau i awdurdod yn gyfnewid am gydymffurfio yn y gorffennol neu'r dyfodol ag amodau penodol ynglŷn â gweithgareddau'r awdurdod.

**Gwaith sydd ar y gweill (WIP)**
Ystyr gwaith sydd ar y gweill yw gwerth gwaith a wneir ar brosiect sydd heb ei orffen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac nad yw wedi'i godi eto ar y cyfrif refeniw.

**Gwariant cyfalaf**
Gwariant ar asedau sefydlog yw gwariant cyfalaf. Dyma asedau a fydd yn cael eu defnyddio am sawl blwyddyn wrth ddarparu gwasanaethau, sef eitemau fel adeiladau, offer a cherbydau.

**Gwerth Gwireddadwy Net**
Pris gwerthu ased, wedi'i ostwng yn ôl cost berthnasol (uniongyrchol) ei werthu.

**Gwerth y Farchnad Agored yn y Diben Presennol (OMVEU)**
Mae OMVEU yn sail ar gyfer prisio asedau sefydlog.

**Mantolen**
Mae'r fantolen yn ddatganiad o'n hasedau, ein rhwymedigaethau a'n balansau eraill, ar ddyddiad diwedd y flwyddyn ariannol, sef 31 Mawrth.

**Menter cyllid preifat (PFI)** – menter gan y llywodraeth ganolog sy'n ceisio cynyddu lefelau'r cyllid sydd ar gael i'r gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau cyllid preifat. Ategir y PFI gan nifer o gymhellion i annog yr awdurdodau i gymryd rhan.

**Praeseptau**
Dyma'r swm sy'n cael ei dalu i awdurdod nad yw'n bilio (er enghraifft cyngor cymuned) er mwyn iddo dalu ei gostau (ar ôl caniatáu am ei incwm).

**Prydlesu**

Dyma ddull ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf drwy dalu'r perchennog am gael defnyddio eiddo neu offer am nifer o flynyddoedd.

**Prydlesau arian**
Mae prydlesau arian yn cael eu defnyddio i brynu asedau lle mae'r Cyngor yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r risgiau sy'n gysylltiedig â pherchnogi'r ased.

**Prydlesau gweithredol**
Prydlesau yw'r rhain lle mae risgiau perchnogaeth yr ased yn parhau yn nwylo'r perchennog.

**Rhwymedigaeth**
Mae rhwymedigaeth yn swm sy'n daladwy ar ryw adeg yn y dyfodol.

**Rhwymedigaethau cyfredol**
Rhwymedigaethau byrdymor yw'r rhain sydd i'w talu gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn gyfrifydda ddilynol.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol**
Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau wrth i ddigwyddiadau ansicr godi yn y dyfodol.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**
Rheoliadau ariannol sydd i'w dilyn ac fel y'u gosodwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifydda (ASB).

**Stocrestrau**
Deunyddiau crai a brynir i'w defnyddio o ddydd i ddydd yw stocrestrau. Dangosir gwerth yr eitemau hyn sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel asedau cyfredol yn y fantolen.

**Trafodion Partïon Cysylltiedig**
Dyma drosglwyddiadau asedau neu rwymedigaethau neu gyflawniad gwasanaethau gan barti cysylltiedig, drosto neu ar ei ran, p'un a fydd tâl yn cael ei godi ai peidio.